GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Ein Cynllun Strategol

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 3

1. Cyflwyniad 5

2. Ein Cynllun 9

2.1 Blaenoriaeth Strategol 1 - Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd 9

2.2 Blaenoriaeth Strategol 2 - Hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol 20

2.3 Blaenoriaeth Strategol 3 - Hybu ymddygiad iach 28

2.4 Blaenoriaeth Strategol 4 - Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar 39

2.5 Blaenoriaeth Strategol 5 - Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r boblogaeth 51

2.6 Blaenoriaeth Strategol 6 - Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus 68

2.7 Galluogi ein strategaeth i gael ei chyflawni'n llwyddiannus 75

2.7.1 Datblygu ein sefydliad i fod yn lle gwych i weithio 75

2.7.2 Gwneud y defnydd mwyaf o ddulliau digidol, data a thystiolaeth i wella iechyd cyhoeddus 79

2.7.3 Creu'r amodau a'r strwythurau i fod yn sefydliad sy'n gwella ac yn dysgu'n barhaus drwy ddefnyddio data a gwyddor ymddygiad i sbarduno ansawdd, ymgysylltu a chydweithredu 84

2.7.4 Cyflawni gwerth a gwella ein perfformiad a'n gwaith cyflawni 90

3. Cyflawni a llywodraethu 95

Atodiad A – Blaenoriaethau Gweinidogol a Thempledi ..... Error! Bookmark not defined.

Crynodeb Gweithredol

Mae Ein Cynllun Strategol ar gyfer 2023 – 2026 yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cyflawni dros dair blynedd gyntaf ein strategaeth newydd, Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru Iachach 2023-2035. Yn arbennig, bydd blwyddyn gyntaf ein cynllun yn flwyddyn o newid wrth i ni bontio i gyflawni ein chwe blaenoriaeth strategol newydd. Bydd hyn yn ein cynnwys yn dangos ffocws diwyro ar sicrhau ein bod yn cyflawni'r gwerth a'r effaith fwyaf posibl i'n poblogaeth o fewn pob blaenoriaeth.

Gwyddom fod yr heriau a wynebwn fel gwlad yn drawiadol. Mae pandemig Covid-19 wedi cael effeithiau dwys ar bobl Cymru, a bydd yr effeithiau yn parhau i gael eu teimlo am flynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig yr effeithiau iechyd uniongyrchol ond hefyd y goblygiadau ehangach a thymor hwy ar gyfer ein hiechyd a'n llesiant.

Mae'r pandemig hefyd wedi creu canlyniadau economaidd-gymdeithasol ehangach sydd wedi'u teimlo'n anghyfartal ar draws ein cymdeithas ac wedi cael effaith anghymesur ar y rhai a oedd eisoes â'r anghenion iechyd a chymdeithasol mwyaf. Mae newid hinsawdd yn cael ei gydnabod fel y bygythiad mwyaf arwyddocaol a wynebwn yn fyd eang o bosibl. Bydd ei ganlyniadau'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd sy'n hanfodol i gyflawni a chynnal iechyd da.

Mae hyn wedi amlygu, unwaith eto, y gyd-ddibyniaeth ddwys rhwng llesiant poblogaeth, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'n debygol y bydd effaith negyddol bellach ar yr anghydraddoldebau hyn yn y blynyddoedd i ddod o ganlyniad i'r argyfwng costau byw presennol. Bydd hwn yn fater iechyd cyhoeddus hirdymor, a fydd yn effeithio ar y boblogaeth gyfan ac yn gwaethygu anghydraddoldebau iechyd presennol. Rydym hefyd yn gwybod yr effaith y mae'r heriau hyn, yn enwedig y pandemig, wedi'i chael ar y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae'r pwysau ar y GIG a gofal cymdeithasol yn sylweddol a bydd yn gofyn am ymdrechion ar y cyd amrywiaeth o bartneriaid i fynd i'r afael â'r mater dros y blynyddoedd i ddod.

Fodd bynnag, rydym wedi gweld y pŵer a'r effaith y gallwn eu cael pan fyddwn yn paratoi ein hymdrechion a'n harbenigedd ar y cyd. Mae gan Gymru hanes balch o gymuned a chydweithio. Fel gwlad, rydym wedi gweld y gwelliannau y gellir eu gwireddu ar raddfa drwy groesawu arloesedd, datblygiadau technolegol a'n hymrwymiad i gydweithio. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn darparu'r ysgogydd deddfwriaethol i'n galluogi i ddefnyddio dull ataliol hirdymor sy'n canolbwyntio ar gynnwys y cyhoedd, cydweithio â'n partneriaid i gyflawni atebion integredig wrth i ni fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu heddiw ac yfory.

Wrth ddatblygu ein strategaeth newydd, rydym wedi canolbwyntio ar lle y gallwn ni, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, ychwanegu'r gwerth mwyaf ar gyfer pobl Cymru. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar sut rydym yn galluogi ac yn ysgogi'r gwaith o gyflawni ein cynllun drwy groesawu dulliau mwy ystwyth sy'n cael eu hysgogi gan ddata, ynghyd ag arloesi lle y bo'n bosibl, gan roi defnyddwyr wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud ac ymgorffori gwella ansawdd. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ac offer i gefnogi'r dull hwn.

O ganlyniad, rydym wedi nodi'r blaenoriaethau strategol canlynol a chytuno arnynt:

❖ Dylanwadu ar **benderfynyddion ehangach** iechyd
❖ Hybu **llesiant meddyliol a chymdeithasol**
❖ Hyrwyddo **ymddygiad iach**
❖ Cefnogi datblygu **system iechyd a gofal gynaliadwy** sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar
❖ Darparu **gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol** i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r boblogaeth
❖ Mynd i'r afael ag effeithiau **newid hinsawdd** ar iechyd cyhoeddus

Byddwn yn galluogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth a'n cynllun strategol drwy ganolbwyntio ar wneud y defnydd gorau posibl o ddigidol, data a thystiolaeth i wella iechyd y boblogaeth, gan sicrhau ein bod yn cyflawni gwerth ac effaith, gan wneud Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lle gwych i weithio a chreu'r amodau fel y gallwn wella a dysgu'n barhaus.

Wrth i ni ddechrau gweithredu ein strategaeth, rydym yn cydnabod ein bod yn gweithredu mewn amgylchedd anwadal a newidiol. Felly mae angen i ni ddangos gallu i ymateb yn ddynamig i fygythiadau a chyfleoedd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Fel sefydliad sy'n dysgu, byddwn yn ymgorffori ymchwil a gwerthuso ym mhopeth a wnawn i sicrhau ein bod yn cyflawni'r gwerth a'r effaith fwyaf posibl. Bydd hyn yn ein gweld yn blaenoriaethu'r meysydd hynny lle gallwn gael yr effaith fwyaf a bod yn hyblyg er mwyn ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg.

1. Cyflwyniad

1.1 Trosolwg

Diben y Cynllun Strategol hwn (Cynllun Tymor Canolig Integredig) yw nodi'r camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu cyflawni yn 2023/24, sef blwyddyn gyntaf cyflawni Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru Iachach, 2023-2035, ein strategaeth newydd. Ffocws y cynllun yw'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd yn erbyn ein chwe blaenoriaeth strategol. Wrth eu cyflawni, byddwn yn:

- Hysbysu partneriaid am y bygythiadau presennol a'r bygythiadau sy'n dod i'r amlwg i iechyd yng Nghymru, y ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd, llesiant ac anghydraddoldebau, a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredu
- Eirioli ar gyfer camau gweithredu i wella a diogelu iechyd a lleihau anghydraddoldebau
- Paratoi partneriaid ar draws systemau i droi tystiolaeth yn bolisi ac ymarfer ar raddfa i wella iechyd a llesiant y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Darparu gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth i'r cyhoedd

Byddwn yn cyflawni ein pedair swyddogaeth statudol a gwasanaethau iechyd cyhoeddus craidd fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r cynllun hwn, gan gynnwys cyflawni ein cyfrifoldebau fel ymatebwr categori 1. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ein rhaglenni sgrinio cenedlaethol, gwasanaeth heintiau, diogelu iechyd, data, gwybodaeth ac ymchwil. Mae nifer o ddatblygiadau a gwelliannau strategol mewn perthynas â'r gwasanaethau a'r swyddogaethau hyn wedi'u nodi yn y cynllun hwn.

1.2 Cyd-destun strategol a pholisi

Mae sawl darn o ddeddfwriaeth iechyd cyhoeddus alluogol allweddol wedi dod i rym yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi llunio ein strategaeth newydd a'r cynllun hwn. Mae'r rhain yn herio cyrff y sector cyhoeddus i ystyried effeithiau tymor hwy penderfyniadau, a chynorthwyo mwy o ffocws ar atal anghydraddoldebau a mynd i'r afael â nhw. Maent yn cynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2021

Mae Cymru Iachach, a gyhoeddwyd yn 2018, yn nodi cynlluniau ar gyfer gweledigaeth hirdymor y dyfodol ar gyfer 'gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu drwy un system gyfan ddi-dor' yng Nghymru, sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac atal salwch. Mae wedi'i fwriadu i helpu i fynd i'r afael â'r heriau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n wynebu Cymru yn y dyfodol, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, newidiadau o ran ffordd o fyw, disgwyliad y cyhoedd, a thechnolegau meddygol newydd ac sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn rhoi'r cyfle i Iechyd Cyhoeddus Cymru asesu effaith ein penderfyniadau ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, gan sicrhau nad yw'r penderfyniadau a wnawn yn gwaethygu anghydraddoldebau yng Nghymru yn anfwriadol. Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun hwn, byddwch yn datblygu ymhellach y gwaith i ymgorffori'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol mewn systemau a phrosesau drwy:

- Ehangu ei ddull i asesiadau effaith gan sicrhau bod hyn yn cael ei ymgorffori'n rheolaidd ac yn gynhwysfawr i mewn i brosesau
- Cymryd dull ehangach o ran ymgysylltu a chynnwys pobl ag anfantais economaidd-gymdeithasol
- Datblygu fframweithiau craffu i gynnwys archwilio effaith y ddyletswydd mewn perthynas â gwella anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol/tlodi
- Datblygu mesurau perfformiad integredig
- Ystyried anghydraddoldebau canlyniadau a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gymhwyso pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae gennym rôl hefyd wrth gynorthwyo'r economi sylfaenol, sef y rhan o'n heconomi sy'n creu ac yn dosbarthu'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn dibynnu arnynt ar gyfer bywyd bob dydd. Mae cyfle sylweddol i'r GIG ddod yn 'sefydliad angori' a dylanwadu'n gadarnhaol ar yr amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn ardal i gynorthwyo pobl a chymunedau iach a ffyniannus. Drwy gyflawni'r cynllun hwn, byddwn yn parhau i gynnal gwaith i gynorthwyo'r system ehangach, yn enwedig drwy lywio buddsoddiad cynaliadwy yn iechyd y boblogaeth ac atal, a thrwy ymgorffori egwyddorion yr economi sylfaenol yn ein dull o ran gwerth ac arloesi.

1.3 Blaenoriaethau Gweinidogol

Mae'r gwaith o ddatblygu ein Cynllun Strategol wedi'i lywio gan flaenoriaethau'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer GIG Cymru, yn enwedig y cymorth a'r arbenigedd iechyd cyhoeddus y gallwn eu darparu i'r system ehangach. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod canlyniadau ansawdd, diogelwch, atal, ac iechyd da wrth wraidd y GIG yng Nghymru.

Mae ein rôl wrth gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau wedi'i hymgorffori ym mhob un o'n blaenoriaethau strategol. Mae crynodeb lefel uchel, yn ôl blaenoriaethau Gweinidogol, wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Mae hyn yn dangos y camau gweithredu allweddol yr ydym yn eu cymryd, lle y bo'n berthnasol, o dan bob un ohonynt.

1.4 Iechyd yng Nghymru

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effeithiau dwys ar bobl Cymru, ac mae ei ganlyniadau economaidd-gymdeithasol wedi'u teimlo'n anghyfartal ar draws ein cymdeithas. Maent wedi effeithio'n anghymesur ar y rhai a oedd eisoes â'r anghenion iechyd a chymdeithasol mwyaf. Yng Nghymru, mae disgwyliad oes a disgwyliad oes iach wedi lefelu dros y degawd diwethaf,

ac rydym yn parhau i weld anghydraddoldebau iechyd trawiadol a pharhaol. Mae pobl sy'n byw yn rhannau tlotaf Cymru eisoes yn marw dros chwe blynedd yn gynharach na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Bydd yr argyfwng costau byw presennol yn cyflymu'r hyn a oedd eisoes yn wahaniaethau cynyddol mewn iechyd rhwng y rhai â mwy a llai o arian.

Mae tystiolaeth a nodwyd yn yr adroddiad 'Ymateb i Her Driphlyg Brexit, Covid-19 a'r Newid yn yr Hinsawdd o ran iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru' (2021) wedi nodi bod yr Her Driphlyg wedi cael effaith fawr ar bobl Cymru. Mae'r effeithiau hyn yn digwydd drwy lwybrau a phenderfynyddion iechyd lluosog. Er enghraifft, bydd y ffordd y mae'r Her Driphlyg yn effeithio ar gyflogaeth, masnach a ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad iechyd, fel y defnydd o alcohol, fforddiadwyedd bwyd a llesiant meddyliol. Mae ein gwaith i ddeall y darlun presennol o iechyd yng Nghymru wedi dangos ein bod yn wlad sydd â'r canlynol:

- poblogaeth sy'n heneiddio a chyfradd ffrwythlondeb isel ac felly bydd ein cymhareb dibyniaeth yn gwaethygu yn y dyfodol
- anghydraddoldebau iechyd trawiadol a pharhaol, gyda disgwyliad oes iach menywod a dynion bron 17 ac 12 mlynedd yn is yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r lleiaf difreintiedig
- mae'r bwlch rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ar gyfer marwolaethau cynamserol o glefydau anhrosglwyddadwy, wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae bellach bron ddwywaith a hanner yn uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig
- tua thraean o bobl yn dilyn llai na thri o'r pum ymddygiad iach, gan gynnwys 14% o oedolion yng Nghymru yn smygu gyda chyfraddau uwch wedi'u nodi ymhlith pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig
- mae unigrwydd ddwywaith yn fwy tebygol ymhlith pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig
- ôl-groniad uchel o anghenion heb eu trin (ym mis Rhagfyr 2022, roedd tua 735,000 o lwybrau cleifion agored, a thua 577,400 o gleifion unigol ar restrau aros am driniaeth yng Nghymru)

1.5 Gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu

Dim ond drwy weithio mewn partneriaeth ag eraill y gellir cyflawni gwell canlyniadau iechyd y boblogaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Byddwn yn cryfhau ein trefniadau sefydliadol i alluogi cydweithredu pwrpasol wrth weithio gyda'n partneriaid a'r cyhoedd.

Mae Ein Dull o Ymgysylltu yn galluogi dull sylfaenol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd deg, effeithiol gan sicrhau bod llais y bobl rydym yn gweithio gyda nhw a drostynt wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud a sut yr ydym yn ei wneud. Mae'n cwmpasu pedwar prif fath o ymgysylltu:

- Gwybodaeth i'r Cyhoedd ac Ymgynghori Cyffredinol
- Adborth gan Ddefnyddwyr
- Cydgynhyrchu

- Grymuso Cymunedau.

Rydym yn cydnabod bod ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys ein defnyddwyr gwasanaethau, cwsmeriaid a rhanddeiliaid, yn weithgarwch iechyd cyhoeddus craidd ac yn hanfodol o ran cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau strategol i ddiogelu, hyrwyddo a gwella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru.

Yn ystod 2023-24, bydd Ein Dull Ymgysylltu, yn canolbwyntio ymhellach ar fwyhau llais pobl rydym am weithio gyda nhw ac iddynt drwy ddatblygu Fframwaith Profiad Defnyddwyr, wedi'i lywio gan ddata a thystiolaeth. Yn ogystal, byddwn yn datblygu blwch offer i gynorthwyo ein pobl i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd wedi'i lywio'n gyson gan dystiolaeth ac arfer gorau.

1.6 Ein Cynllun Strategol

Mae ein Cynllun Strategol yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf i gyflawni ein strategaeth. Mae hyn yn canolbwyntio ar gyflawni ein chwe blaenoriaeth strategol:

❖ Dylanwadu ar **benderfynyddion ehangach** iechyd
❖ Hybu **llesiant meddyliol a chymdeithasol**
❖ Hyrwyddo **ymddygiad iach**
❖ Cefnogi datblygu **system iechyd a gofal gynaliadwy** sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar
❖ Darparu **gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol** i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r boblogaeth
❖ Mynd i'r afael ag effeithiau **newid hinsawdd** ar iechyd cyhoeddus

Mae ein Cynllun Strategol yn nodi amrywiaeth o weithgarwch newid y byddwn yn ei gynnal ar draws pob un o'n blaenoriaethau strategol a galluogwyr, yn enwedig ym mlwyddyn 1, wrth i ni ddechrau gweithredu ein strategaeth newydd. Byddwn yn sicrhau bod ein hagenda newid yn cael ei hadolygu'n barhaus i sicrhau ei bod yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd ac yn parhau'n gyflawnadwy yn sgil newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Wrth i ni weithredu ein Cynllun Strategol, rydym yn cydnabod ein bod yn gweithredu mewn amgylchedd anwadal a newidiol. Felly byddwn yn dangos gallu i ymateb yn ddynamig i fygythiadau a chyfleoedd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Fel sefydliad sy'n dysgu, byddwn yn ymgorffori ymchwil a gwerthuso ym mhopeth a wnawn i sicrhau ein bod yn cyflawni'r effaith fwyaf posibl.

Yn ystod 2023/24, bydd Gwelliant Cymru yn gweithio'n agos gyda Gweithrediaeth y GIG sydd newydd ei sefydlu cyn trosglwyddo erbyn mis Ebrill 2024 fan bellaf. O ganlyniad, bydd yr amcanion strategol sy'n ymwneud â Gwelliant Cymru sydd wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Strategol yn destun adolygu parhaus ac maent yn debygol o newid wrth i ni ddechrau ar flwyddyn 2.

2. Ein Cynllun

2.1 Blaenoriaeth Strategol 1 - Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd

2.1.1 Cyflwyniad

Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i gael iechyd da. Fodd bynnag, yn rhy aml mae pobl yng Nghymru yn mynd yn sâl neu'n marw yn rhy gynnar oherwydd diffyg blociau adeiladu hanfodol sydd eu hangen ar gyfer iechyd da. Mae'r blociau adeiladu hyn yn cynnwys ein haddysg a'n sgiliau, cartref diogel a chynnes, gwaith teg, arian ac adnoddau, mynediad at drafnidiaeth fforddiadwy a chynaliadwy ac amgylcheddau ffisegol iach. Mae'r amodau hyn yn effeithio arnom o'n profiadau cynharaf a thrwy gydol ein hoes.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i ni weithio gydag eraill er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Byddwn yn dod ag arbenigedd a thystiolaeth iechyd cyhoeddus, gan gydweithio ar sawl lefel i ddylanwadu ar y penderfynyddion hyn, er mwyn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cyfle teg am iechyd. Nid yw dylanwadu ar y penderfynyddion hyn erioed wedi bod yn bwysicach. Mae ein profiad o bandemig Covid-19 wedi dangos sut y mae'r penderfynyddion hyn yn effeithio ar ein holl ymdrechion i wella a diogelu iechyd. Ar hyn o bryd, mae'r argyfwng costau byw yn effeithio'n anghymesur ar iechyd ein cymunedau mwyaf difreintiedig, sy'n rhywbeth sy'n gwaethygu cyflwr cronig tlodi mewn modd acíwt.

2.1.2 Trosolwg – pam mae hyn yn flaenoriaeth

Mae'r penderfynyddion ehangach yn ysgogi iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Yn aml fe'u gelwir yn ‘achosion yr achosion’, ac mae'r penderfynyddion ehangach yn ysgogi ein canlyniadau iechyd yng Nghymru. Mae profiadau gwahanol o'r penderfynyddion hyn yn arwain at wahaniaethau o ran canlyniadau iechyd, neu anghydraddoldebau iechyd, sydd yn eu tro'n gyfrifol am gyfran sylweddol o gyfanswm y marwolaethau cynnar ac afiechyd poblogaeth Cymru. Gall y rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ddisgwyl colli dros ddegawd o fywyd mewn iechyd da o gymharu â'r rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (13 blynedd i ddynion ac 17 i fenywod). Mae'r gwahaniaethau systematig ac annheg hyn yn parhau ar draws cenedlaethau.

Gallwn lywio camau gweithredu ar y penderfynyddion hyn, a'u cefnogi a pharatoi camau gweithredu ar eu cyfer gan weithio yn genedlaethol, yn lleol ac yn rhyngwladol. Fel sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol dibynadwy, sy'n cael ei llywio gan dystiolaeth, gallwn gefnogi dull iechyd ym mhob polisi, gan lywio datblygu a gweithredu polisi sy'n ymwneud â phenderfynyddion a dylanwadu ar hyn. Gallwn adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ymhellach, a chynorthwyo a gwerthuso prosesau arloesol ar gyfer atebion sy'n briodol i'w cyd-destun.

Rydym mewn safle unigryw i ddod â safbwynt iechyd cyhoeddus i feysydd datganoledig o bolisi cenedlaethol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r blociau adeiladu ar gyfer iechyd a llesiant fel tai,

addysg, cynllunio, trafnidiaeth, datblygu economaidd a materion cyllidol datganoledig. Gallwn wneud y cysylltiad rhwng partneriaid a pholisïau i ddangos sut y gallant gyfrannu at wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd i'n poblogaeth. Gall ein harbenigedd a'n dull cydweithredol hefyd gynorthwyo camau gweithredu ar draws y system yn lleol, gan weithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ledled Cymru. Gallwn weithio gydag asiantaethau i ddylanwadu y tu hwnt i Gymru lle y bo'n briodol, gan gynnwys wrth ystyried ysgogwyr masnachol sy'n effeithio ar iechyd.

Mae gennym rwymedigaethau cyfreithiol i weithio ar draws penderfynyddion ehangach. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy sicrhau ein cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r saith nod llesiant. Mae'r nodau hyn yn adlewyrchu'r penderfynyddion ehangach iechyd yn gryf, ac maent yn fynegiad o'r ffactorau sydd eu hangen ar gyfer iechyd a llesiant da nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol ddiweddar 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi ystyriaeth ddyledus i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae camau gweithredu ar benderfynyddion ehangach iechyd hefyd yn cyfrannu at rwymedigaethau'r DU o dan Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

O dreftadaeth ôl-ddiwydiannol Cymru, drwy gyni, effaith pandemig Covid-19, a chostau byw, bydd effaith penderfynyddion yng Nghymru yn parhau i'r hirdymor, mewn ffyrdd y gallwn eu rhagweld a ffyrdd na allwn eu rhagweld.

2.1.3 Cwmpas

Penderfynyddion ehangach iechyd yw'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar anghydraddoldebau iechyd, llesiant ac anghydraddoldebau iechyd. Mae'r penderfynyddion allweddol yn cynnwys:

- Addysg a sgiliau da
- Gwaith teg
- Digon o arian ac adnoddau
- Tai o ansawdd, hygyrch, fforddiadwy
- Trafnidiaeth gynaliadwy wedi'i chynllunio'n dda
- Amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n cefnogi ein hiechyd a'n llesiant.

Nid yw penderfynyddion ehangach yn ymwneud â'n hamodau byw yn unig, ond maent hefyd yn cynnwys ysgogwyr strwythurol yr amodau hyn, fel grymoedd economaidd a masnachol, blaenoriaethau gwleidyddol a dosbarthiad anghyfartal incwm, cyfoeth a phŵer. Cyfeirir at y ffactorau strwythurol hyn fel achosion sylfaenol hefyd. Rydym hefyd yn cydnabod bod y berthynas rhwng iechyd a'r penderfynyddion hyn yn gweithredu i'r ddau gyfeiriad, gydag iechyd a salwch yn effeithio ar ein llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Er enghraifft, pan fyddwn yn iach rydym mewn lle gwell i ddysgu neu gymryd rhan mewn gwaith teg.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid, gan ddod â thystiolaeth ac arbenigedd i lywio, eirioli ar gyfer penderfynyddion ehangach a pharatoi camau gweithredu ar eu cyfer er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd a llesiant drwy gydol cwrs bywyd pobl. Byddwn yn llywio camau gweithredu ar benderfynyddion, gan ddefnyddio tystiolaeth o sawl ffynhonnell. Gall hyn amrywio o brofiadau cymunedol i wyliadwriaeth penderfynyddion allweddol, i ymchwil ryngwladol.

Byddwn yn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth drwy gynghori ac arwain ar ymchwil a gwerthuso sy'n ymwneud â'r penderfynyddion ehangach ac ymyriadau. Camau gweithredu ac ymddygiad gwneuthurwyr polisi a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n cael cyfle i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach weithio o fewn systemau cymhleth. Byddwn yn eirioli i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi ein harwain gan ddulliau gwyddor ymddygiad a chanolbwyntio ar effaith ar lefel strwythurol a system.

Byddwn yn paratoi camau gweithredu ar benderfynyddion, gan ddefnyddio dulliau a mewnwelediad systemau, gan ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r llwybrau a'r cyfleoedd ar gyfer effaith ar draws sectorau a meysydd polisi gwahanol, rhyng-ddibynnol. Bydd ein hymdrechion yn cael eu llywio gan y dystiolaeth o bwysigrwydd y penderfynyddion hyn ar gyfer iechyd a thegwch y boblogaeth, yn ogystal â chan ein gallu unigryw i ddylanwadu arnynt.

2.1.4 Sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Erbyn 2035, byddwn wedi sicrhau'r canlynol:

- Cymru lle mae gan bobl gyfle mwy cyfartal o fyw bywyd bodlon, yn rhydd o salwch y gellir ei atal
- Bydd tlodi ac anghydraddoldeb yn cael llai o effaith ar iechyd a llesiant ein cenedlaethau'r dyfodol
- Sicrhau cyfle gwell a thecach i blant ddysgu a chyflawni eu potensial
- Trafnidiaeth, tai a datblygiadau amgylchedd wedi'u cynllunio sy'n cynorthwyo pobl, teuluoedd a chymunedau i fyw bywydau iachach
- Penderfyniadau mawr ar benderfynyddion ehangach sy'n cael eu llywio gan asesu'r effaith ar iechyd
- Gwaith yn y sector cyhoeddus a phreifat i sicrhau cymaint o gyfranogiad â phosibl mewn gwaith teg, gan gefnogi iechyd a llesiant
- Llywio meddwl a phenderfyniadau ar feysydd polisi penderfynyddion ehangach i leihau anghydraddoldeb a gwella iechyd drwy ein gwaith gyda'r Senedd a Llywodraeth Cymru
- Cefnogi newid cadarnhaol ar draws systemau ar benderfynyddion ehangach iechyd mewn cydweithrediad â phartneriaid yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol wrth fynd ar drywydd gwell iechyd a llesiant i bawb

2.1.5 Canlyniadau

Byddwn yn gweithio i gynorthwyo'r canlyniadau canlynol ar draws systemau:

- Anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol o ran disgwyliad oes (Llinell sylfaen: 7.6 mlynedd ar gyfer dynion a 6.3 mlynedd ar gyfer menywod, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)
- Anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol o ran disgwyliad oes iach (Llinell sylfaen: 13.3 mlynedd ar gyfer dynion a 16.9 mlynedd ar gyfer menywod, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)
- Anghydraddoldeb economaidd- gymdeithasol o ran llesiant meddyliol (Llinell sylfaen: 48.92, Dangosydd Cenedlaethol)
- Plant sy'n byw mewn tlodi incwm (Llinell sylfaen: 31%, Dangosydd Cenedlaethol)

2.1.6 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

SO1.1 Erbyn 2026, byddwn wedi gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar sut y gall gwaith, addysg a thai wella iechyd a thegwch.

Rydym yn cydnabod bod gwaith teg, addysg dda a thai fforddiadwy o ansawdd, hygyrch yn flociau adeiladu allweddol ar gyfer iechyd a llesiant. Mae cymryd rhan mewn gwaith teg yn rhoi ymdeimlad o bwrpas ac mae'n golygu bod gan bobl arian, amser ac adnoddau ar gyfer bywyd iach iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd. Mae hyn yn sicrhau cyd-fuddion i gyflogwyr, cymunedau ac mae'n cyfrannu at economi lesiant gynaliadwy. Mae cyrhaeddiad addysgol yn rhagfynegydd annibynnol ar gyfer amrywiaeth o ganlyniadau iechyd a llesiant ac mae'n effeithio ar iechyd drwy sawl llwybr, gan gynnwys mynediad at well gwaith, ymdeimlad o reolaeth a safle cymdeithasol a gwybodaeth, gallu i resymu a llythrennedd. Mae'r bwlch cyrhaeddiad mewn perthynas ag amddifadedd yng Nghymru yn cyfrannu at gylch rhwng y cenedlaethau o anghydraddoldeb ac iechyd gwael. Pan fydd ein cartrefi o ansawdd derbyniol, gyda chysur a diogelwch maent yn cefnogi ein hiechyd meddwl a chorfforol. Mae tai o ansawdd gwael, oer, llaith ac anniogel i gyd yn cyfrannu at iechyd gwael yng Nghymru.

Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith hyd yma gan ddisgrifio'r manteision a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd ar waith teg ac ymgysylltu ag actorion ar draws y system i ddeall y camau gweithredu presennol sy'n cael eu cymryd, y rhwystrau a'r cyfleoedd. Byddwn yn datblygu cynigion ar gyfer cymorth iechyd cyhoeddus arbenigol i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg, mewn meysydd fel bylchau o ran mesur a rhagor o ddeallusrwydd penodol i sector. Byddwn yn gweithio i integreiddio ein cymorth arbenigol i ymdrechion cenedlaethol a rhanbarthol i wella cyfranogiad mewn gwaith teg er mwyn cynorthwyo iechyd a thegwch.

Ar ôl gweithio gyda'n partneriaid i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar gyflawniad addysgol, byddwn yn dadansoddi polisïau presennol ac yn ystyried pwyntiau trosoledd ar gyfer dylanwadu ar y bwlch cyrhaeddiad addysgol. Byddwn yn archwilio tystiolaeth a mewnwelediadau mewn perthynas â'r pwyntiau dylanwad hyn i lywio camau gweithredu, yng nghyd-destun polisi llywodraeth, gan gynnwys ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned a'n gwaith ar ysgolion sy'n hybu iechyd a'r dull ysgol gyfan o ran llesiant meddyliol.

Byddwn yn parhau â'n gwaith i gynorthwyo cyflogwyr i sicrhau cyfraniad mwyaf posibl gwaith i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau drwy Raglen Cymru Iach ar Waith a dathlu pen-blwydd y Rhaglen yn 15 oed. Wrth barhau i weithredu'r model cyflawni newydd byddwn yn parhau i gynorthwyo cyflogwyr i greu gwaith sy'n ddiogel ac sy'n sicrhau'r iechyd a llesiant mwyaf posibl, gan gydnabod y newidiadau cyflym i fyd gwaith ers y pandemig.

Byddwn yn cynorthwyo sefydliadau'r GIG yn eu rôl bwysig fel sefydliadau angori yn y gymuned leol, gan gynnwys eu rôl hanfodol wrth gynorthwyo iechyd a llesiant staff fel cyflogwr mwyaf Cymru. Byddwn yn hwyluso fforwm i Ymddiriedolaethau'r GIG rannu arfer gorau, gyda ffocws cychwynnol a recriwtio a chadw cyflogeion anabl a chamau gweithredu i gynorthwyo staff â chyflyrau hirdymor.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein rhaglen iechyd a thai, gan weithio gyda phartneriaid yn genedlaethol ac yn lleol, gan alluogi camau gweithredu tuag at greu dyfodol o dai iach yng Nghymru. Bydd ein gwaith yn edrych yn gyntaf ar sut y mae'r argyfwng costau byw yn croestorri â thai fforddiadwy yng Nghymru. Byddwn hefyd yn rhannu tystiolaeth a mewnwelediadau o arolygon cartrefi ac ymchwil ansoddol ar y cysylltiadau rhwng cynhesrwydd cartrefi, tlodi ac iechyd i lywio ymateb Cymru i'r argyfwng costau byw a thlodi tanwydd.

SO1.2 Erbyn 2026, byddwn wedi datblygu a pharatoi tystiolaeth, gan gynnwys ar atebion tegwch iechyd, i ddylanwadu ar bolisi, a'i lywio a'i weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a materion iechyd cyhoeddus eraill â blaenoriaeth.

Byddwn yn llywio polisi Cymru ac yn dylanwadu arno er mwyn ymateb i heriau cymhleth a dynamig rhyng-gysylltiedig fel yr argyfwng costau byw, y cyfnod pontio o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd, adfer ar ôl COVID-19 a newid hinsawdd drwy ddatblygu a chyfathrebu tystiolaeth a mewnwelediad o ansawdd uchel.

Byddwn yn datblygu tystiolaeth ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar atebion ar gyfer anghydraddoldebau iechyd, gan flaenoriaethu ein gwaith ar gyfer yr argyfwng costau byw. Byddwn yn cynnal trafodaethau polisi lefel uchel, a gweminarau arbenigol i gynorthwyo'r system i gau'r bwlch o ran anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

Byddwn yn canolbwyntio ar yr amodau hanfodol ar gyfer bywydau iach, er enghraifft cyfalaf cymdeithasol a byddwn yn hybu iechyd a thegwch iechyd drwy gyflawni'r gwerth iechyd cyhoeddus gorau o ddeddfwriaeth bresennol fel y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Byddwn yn rhannu dysgu rhyngwladol, yn prif ffrydio asesu a modelu economaidd a'r effaith ar iechyd, a thrwy gryfhau ein gallu ni ein hunain ac eraill i feddwl a gweithredu ar gyfer yr hirdymor drwy ddefnyddio dulliau at y dyfodol.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar fenter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi) a datblygu Platfform Atebion Tegwch Iechyd Cymru, cryfhau rôl Cymru fel dylanwadwr byd-eang a safle arloesi byw ar gyfer tegwch iechyd.

Byddwn yn cyd-gynllunio â rhanddeiliaid, offeryn tegwch iechyd i gynorthwyo integreiddio ystyriaethau tegwch iechyd yn y gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau ar draws sectorau, gan ddatblygu atebion polisi, arloesedd o ran iechyd y boblogaeth a buddsoddi cynaliadwy.

Byddwn hefyd yn adeiladu ar ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid i greu perthnasoedd a thrafodaethau traws-sector cenedlaethol a rhyngwladol, gan lywio ein gwaith ar faterion allweddol iechyd y boblogaeth gyda mewnwelediadau, arbenigedd a safbwyntiau o bob rhan o'r system gan gynnwys y broses o gyflwyno arolwg panel 'Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus'.

SO1.3 Erbyn 2026, byddwn yn galluogi ac yn cefnogi'r gwaith o brif ffrydio Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) ac Asesu'r Effaith ar Lesiant Meddyliol (MWIA), i gryfhau Iechyd ym Mhob Polisi a buddsoddi tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau newydd ar Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) ac yn sefydlu rhwydwaith integredig o ymarfer i gynyddu gwybodaeth a sgiliau i gynorthwyo anghenion ein partneriaid i ymgorffori HIA i ystyried iechyd a thegwch fel rhan o'u dyletswyddau i gynnal HIA a sicrhau effaith fwyaf posibl Nodau Llesiant. Byddwn yn datblygu ein strategaeth hyfforddi ymhellach i gynyddu dealltwriaeth iechyd cyhoeddus a phartneriaid o oblygiadau iechyd ehangach polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau, gan eu cynorthwyo i gyflawni dull cydweithredol o weithredu rheoliadau HIA. Bydd hyn yn cael ei ategu gan ymgysylltu â phartneriaid mewn cynllunio gofodol ac iechyd i hwyluso cydweithredu ar gyfer integreiddio iechyd mewn polisi ac ymarfer cynllunio.

Byddwn yn parhau i alluogi defnydd mwy helaeth o Asesiadau Effaith ar Lesiant Meddyliol (MWIA) i lywio'r gwaith o gynllunio polisi a rhaglenni a thrwy hyrwyddo canllawiau MWIA i Gymru, gan ategu'r rheoliadau statudol HIA.

SO1.4 Erbyn 2026, byddwn wedi cryfhau gallu'r system iechyd cyhoeddus i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd

Byddwn yn adeiladu ar ein gallu i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach ar draws systemau, a chysoni ein hymdrechion, i gael yr effaith fwyaf posibl. Mae dylanwadu ar y penderfynyddion iechyd hyn yn heriol. Mae hyn oherwydd ar y naill law, mae'r penderfynyddion yn ymwneud ag agweddau ar gymdeithasau modern sydd wedi'u hymwreiddio a strwythurol, ac ar y llaw arall, mae ein dulliau o fynd i'r afael â nhw i'w canfod o fewn systemau lle mae achosion a chanlyniadau'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth. Bydd cydweithio â'n cydweithwyr iechyd cyhoeddus mewn byrddau iechyd a llywodraeth, a phartneriaid ehangach, yn sicrhau ein heffaith fwyaf posibl o fewn y systemau hyn i lywio a pharatoi camau gweithredu.

Byddwn yn adeiladu ar ein strategaeth hirdymor wedi'u hadnewyddu i ddatblygu blaenoriaethau ar gyfer rhaglen waith draws-sefydliadol i ddod â'n gwerth unigryw i ddylanwadu ar y penderfynyddion ehangach.

Byddwn yn datblygu ymhellach ein Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n tyfu, i lywio, hwyluso a chreu cysylltiadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i wella iechyd a llesiant y boblogaeth. Byddwn yn cynyddu nifer y rhai sy'n manteisio ar ein cynnig digidol, gan ddefnyddio dulliau gwelliant parhaus.

Ar ôl datblygu manyleb ar gyfer Cymuned Fuddiant Penderfynyddion Ehangach, byddwn yn cynorthwyo ein cydweithwyr iechyd cyhoeddus i ddatblygu fel arweinwyr systemau, gan weithio gydag eraill i ddylanwadu ar y penderfynyddion hyn.

Byddwn yn gweithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus i gynorthwyo'r gwaith o gymhwyso dulliau systemau i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd yn lleol, gan geisio dyfarniad Llunio Lleoedd Iachach ar gyfer Llesiant gan y Sefydliad Iechyd.

Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

Amcan	Cerrig milltir
SO1.1 Erbyn 2026, Byddwn wedi gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar sut y gall gwaith, addysg a thai wella iechyd a thegwch.	2023-24
	Chwarter 1
	• Defnyddio map system addysg i flaenoriaethu gwaith i ddylanwadu ar y bwlch cyrhaeddiad addysgol sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol
	Chwarter 2
	• Cwblhau cynigion ar gyfer ein cymorth arbenigol iechyd cyhoeddus i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg, wedi'i lywio gan ymgysylltu a gwersi a ddysgwyd • Adrodd ar ganfyddiadau o'r ail arolwg cynhesrwydd cartrefi ac ymchwil ansoddol ar gysylltiadau rhwng cynhesrwydd cartrefi, tlodi ac iechyd i lywio ymateb Cymru i'r argyfwng costau byw
	Chwarter 3
	• Pecyn cymorth a hyfforddiant i gyflogwyr wedi'u datblygu i wella absenoldeb oherwydd salwch a rheoli cyflyrau hirdymor yn y gwaith • Comisiynu mewnwelediadau a thystiolaeth sy'n ymwneud â chyfleoedd trosoledd a nodwyd o fapio'r system addysg i lywio camau gweithredu iechyd cyhoeddus
	Chwarter 4
	• Creu fforwm ar gyfer Sefydliadau'r GIG yng Nghymru i rannu dysgu ac arfer gorau ar recriwtio a chadw pobl anabl a chymorth i staff sydd â chyflyrau hirdymor • Cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer ein cymorth arbenigol iechyd cyhoeddus i gynyddu cyfranogiad mewn cymorth gwaith teg gyda rhanddeiliaid allweddol • Paratoi dadansoddiadau i ddarparu mewnwelediadau gweithredadwy pellach ar ddefnyddio dull iechyd cyhoeddus o ran yr argyfwng costau byw, gyda ffocws cychwynnol ar dai fforddiadwy
	2024-25
	• Cydgrynhoi'r gwaith o gyflawni'r model Cymru Iach ar Waith gyda sectorau cyflogaeth sydd â chyfran uchel o weithwyr ar gyflog isel a/neu weithwyr ansicr neu risg alwedigaethol uchel, a datblygu dulliau wedi'u teilwra • Pennu cwmpas adnoddau ar gyfer ein cymorth arbenigol iechyd cyhoeddus i gynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg a datblygu hyn fel y bo'n briodol (yn dibynnu ar adnoddau) • Datblygu damcaniaeth newid ar gyfer ein camau gweithredu i ddylanwadu ar y bwlch cyrhaeddiad addysgol er mwyn gwella iechyd a thegwch • Datblygu cyfres gychwynnol o adnoddau i gynorthwyo partneriaid wrth wella iechyd a thegwch drwy gamau gweithredu ar y bwlch cyrhaeddiad addysgol
	2025-26

Amcan	Cerrig milltir
	• Strategaeth amlasiantaeth wedi'i datblygu i feithrin defnydd mwy effeithiol o'r nodyn ffitrwydd fel offeryn allweddol gan weithwyr iechyd proffesiynol a chyflogwyr i gynorthwyo cyflogeion • Mae ein cymorth arbenigol iechyd cyhoeddus yn cael ei ddatblygu ymhellach a'i integreiddio i ymdrechion cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn cynyddu cyfranogiad mewn gwaith teg fel y bo'n briodol ac yn dibynnu ar adnoddau • Datblygu rhaglen waith ymhellach gyda phartneriaid i ddylanwadu ar gamau gweithredu ar leihau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol sy'n ymwneud ag anfantais gymdeithasol
SO1.2 Erbyn 2026, Byddwn wedi datblygu a pharatoi tystiolaeth, gan gynnwys ar atebion tegwch iechyd, i ddylanwadu ar bolisi, a'i lywio a'i weithredu er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a materion iechyd cyhoeddus eraill â blaenoriaeth.	2023-24
	Chwarter 1
	• Cynnal digwyddiad masnach ac iechyd i ddangos i randdeiliaid a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau beth yw gwerth dull o graffu ar gytundebau masnach sy'n cael ei lywio gan HIA
	Chwarter 2
	• Trafodaethau polisi lefel uchel gyntaf ar flaenoriaethau llesiant a thegwch iechyd Cymru wedi'u cyflwyno gyda Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd • Paratoi a lledaenu canfyddiadau o Uwchgynhadledd Costau Byw Cymru Gyfan Grŵp Cydlynu Creu Cymru Iachach
	Chwarter 3
	• Cynhyrchu adnoddau dyfodol trosi sy'n cynorthwyo'r gwaith o fynd i'r afael â heriau iechyd a thegwch hirdymor yng Nghymru a thu hwnt • Cynorthwyo ymateb Grŵp Cydlynu Adeiladu Cymru Iachach i dlodi a chostau byw
	Chwarter 4
	• Cynnal adolygiad llenyddiaeth sy'n archwilio'r cysylltiad rhwng cyfalaf cymdeithasol a thegwch iechyd yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw ac adfer ar ôl y pandemig. • Cyflwyno/hyrwyddo hyfforddiant a chymorth i Gyrff Cyhoeddus weithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol • Cyflwyno arolwg panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus gyda chyfres o adroddiadau, gan ymgorffori cynnwys a chydweithio cyhoeddus fel ffyrdd o weithio a llywio blaenoriaethau strategol iechyd cyhoeddus
	2024-25
	• Offeryn atebion tegwch iechyd Cymru wedi'i gyd-gynllunio â rhanddeiliaid aml-sector, gan ysgogi dulliau cynaliadwy o ran tegwch iechyd i gau'r bwlch iechyd yng Nghymru a thu hwnt • Cynnal ymchwil i drafod y cysylltiad rhwng cyfalaf cymdeithasol a thegwch iechyd ymhellach yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw ac adfer ar ôl y pandemig. • Cynnal gwaith ar gyfer y dyfodol sy'n mynd i'r afael â materion tegwch hirdymor ac yn adeiladu gallu a chapasiti ar gyfer meddwl hirdymor yn y sector cyhoeddus • Darparu mewnwelediad gweithredadwy pellach ar ddefnyddio dull iechyd cyhoeddus o ran yr argyfwng costau byw/straen economaidd drwy ganolbwyntio ar benderfynyddion ehangach iechyd wedi'u blaenoriaethu

Amcan	Cerrig milltir
	• Gwerthuso masnach ryngwladol fel un o benderfynyddion allweddol iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru a'r rôl y gall Iechyd Cyhoeddus Cymru ei chwarae
	2025-26
	• Paratoi deunyddiau i gynorthwyo dealltwriaeth a chamau gweithredu ar gyfalaf cymdeithasol i wella tegwch iechyd • Paratoi adnoddau sy'n defnyddio enghreifftiau o brofiad bywyd o ran polisi'n gweithredu drwy benderfynyddion ehangach iechyd i effeithio ar lesiant • Wedi datblygu ac ehangu menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRi) a'r Platfform Atebion ar gyfer Cymru, sy'n gyson â blaenoriaethau iechyd cyhoeddus ac anghenion partneriaid, rhanddeiliaid a defnyddwyr • Trefnu digwyddiad / llunio adroddiad sy'n myfyrio ar 'fasnach iach' i ddeall y cyfleoedd a'r heriau y mae masnach ryngwladol yn eu peri i iechyd cyhoeddus yng Nghymru, 10 mlynedd ers refferendwm y DU-UE
SO1.3 Erbyn 2026, Byddwn yn galluogi ac yn cefnogi'r gwaith o brif ffrydio Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) ac Asesu'r Effaith ar Lesiant Meddyliol (MWIA), i gryfhau Iechyd ym Mhob Polisi a buddsoddi tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru	2023-24
	Chwarter 4
	• Cynnal digwyddiad Cynllunio Gofodol ac Iechyd er mwyn hwyluso cydweithredu ar gyfer integreiddio iechyd mewn polisi ac ymarfer cynllunio • Cynhyrchu Canllawiau HIA newydd yng Nghymru i ategu rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (yn dibynnu ar amserlenni ac adnoddau Llywodraeth Cymru)
	2024-25
	• Paratoi Canllawiau neu Becyn Cymorth Ymarfer MWIA ar gyfer Cymru • Rhwydwaith Ymarfer HIA – cynnal sesiwn ddatblygu Cymru a rhyngwladol ar gyfer meithrin gwybodaeth a gallu • Strategaeth Hyfforddi wedi'i Diweddaru a'i chynorthwyo a chefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni dull cydweithredol o weithredu rheoliadau HIA i sicrhau'r iechyd a llesiant mwyaf posibl a lleihau anghydraddoldebau
	2025-26
	• Adeiladu ar Strategaeth Hyfforddi i gynorthwyo datblygiad HIA yng Nghymru mewn ymateb i'r rheoliadau HIA
SO1.4 Erbyn 2026, Byddwn wedi cryfhau gallu'r system iechyd cyhoeddus i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd	2023-24
	Chwarter 1
	• Cychwyn cynllun blwyddyn un Cymuned Fuddiant Penderfynyddion Ehangach Iechyd • Cam cynllunio sy'n cael ei lywio gan dystiolaeth ar gyfer cynnig aml-flwyddyn i gymhwyso dulliau systemau yn lleol i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach wedi'i gydgynhyrchu â phartneriaid • Ailsefydlu grŵp cynghori Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru
	Chwarter 2
	• Mewnwelediadau wedi'u casglu i ddatblygu cynnig Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ymhellach i lywio, hwyluso a chreu cysylltiadau ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i wella iechyd a llesiant y boblogaeth

Amcan	Cerrig milltir
	• Cynnig aml-flwyddyn i gymhwyso dulliau systemau yn lleol i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach wedi'i gyflwyno i'r Sefydliad Iechyd
	Chwarter 3
	• Cwblhau'r blaenoriaethu i lywio'r flaenraglen o waith i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth hirdymor i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd • Cynllunio ymlaen llaw ar gyfer datblygu Grŵp Cydgysylltu Adeiladu Cymru Iachach, yn amodol ar adnoddau a chytuno ar drefniadau llywodraethu • Cychwyn cyfres o weminarau arbenigwyr tegwch iechyd, i gynorthwyo atebion tegwch iechyd yn genedlaethol ac yn lleol
	Chwarter 4
	• Datblygu cynnig Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru i aelodau ymhellach drwy gydweithredu a'i lywio gan fewnwelediadau
	2024-25
	• Llunio adroddiad cynnydd diwedd blwyddyn y Gymuned Fuddiant Penderfynyddion Ehangach Iechyd • Wedi cynnal arolwg o aelodaeth Cymuned Fuddiant Penderfynyddion Ehangach Iechyd i lywio cyfeiriad y gymuned ar gyfer y dyfodol • Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cymhwyso dulliau gwella parhaus i ddatblygu ymhellach ei gynnig i gynorthwyo'r gwaith o wella llesiant iechyd y boblogaeth • Datblygu rhaglen Llunio Lleoedd Iachach Cymru i gymhwyso dulliau systemau yn lleol i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach yn amodol ar gais llwyddiannus am ddyfarniad gan y Sefydliad Iechyd • Dechrau rhaglen waith draws-sefydliadol wedi'i blaenoriaethu ar benderfynyddion ehangach i gyflawni uchelgeisiau ein strategaeth hirdymor
	2025-26
	• Wedi parhau i ddatblygu a chyflawni'r rhaglen waith traws-sefydliadol wedi'i blaenoriaethu ar benderfynyddion ehangach i gyflawni uchelgeisiau ein strategaeth hirdymor. Nodi opsiynau ar gyfer datblygu Cymuned Fuddiant penderfynyddion ehangach yn y dyfodol • Wedi cychwyn rhaglen Llunio Lleoedd Iachach Cymru yn amodol ar gais llwyddiannus am ddyfarniad gan y Sefydliad Iechyd

2.2 Blaenoriaeth Strategol 2 - Hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol

2.2.1 Cyflwyniad

Ochr yn ochr â'r penderfynyddion ehangach iechyd, mae llesiant meddyliol a chymdeithasol yn ffurfio sylfeini iechyd a llesiant gydol oes. Os yw'r penderfynyddion ehangach yn darparu'r amodau ar gyfer iechyd da, gellir ystyried llesiant cymdeithasol a meddyliol yn sylfeini ar gyfer pobl a chymunedau iach.

Mae llesiant meddyliol yn cynnwys amrywiaeth o elfennau gwahanol; sut rydym yn meddwl, sut rydym yn deall ein hemosiynau ac emosiynau pobl eraill, sut rydym yn ffurfio perthnasoedd iach a'n cydnerthedd, sut rydym yn gwneud synnwyr o'n profiadau. Mae llesiant meddyliol ar lefel unigol yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan yr amgylchedd cymdeithasol yr ydym yn byw, yn gweithio, yn chwarae ac yn dysgu ynddo. Mae blynyddoedd cynnar bywyd yn ganolog i ddatblygu'r sylfeini ar gyfer llesiant meddyliol ac maent yn cael eu dylanwadu gan ryngweithio rhwng plentyn bach a'i rieni neu ofalwyr a chan berthynas y rhieni yn y cartref. Lle nad yw'r amodau yn ystod plentyndod yn gyson, rydym yn aml yn gweld niwed hirdymor i unigolion o ganlyniad i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE).

Yn hanfodol, mae rhwydweithiau cymdeithasol ehangach mewn teuluoedd a chymunedau yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol unigolion a chymunedau yn gyffredinol – mae'r ymdeimlad o berthyn mewn cymunedau, cysylltioldeb cymunedau a chreu rhwydweithiau sy'n ceisio ymgysylltu â'r gymuned gyfan yn sylfaenol. Mae cymunedau sy'n creu'r amodau hyn yn llai tebygol o brofi unigrwydd ac ynysigrwydd ac maent yn fwy cydnerth pan fyddant yn wynebu trallod a thrawma.

2.2.2 Trosolwg – pam mae hyn yn flaenoriaeth

Ceir corff cynyddol o dystiolaeth bod llesiant meddyliol yn sylfaenol i'n gallu i ymateb i heriau bywyd o ddydd i ddydd a'n capasiti o ran hunanofal. Pan fydd llesiant meddyliol yn uchel gall liniaru effaith y penderfynyddion ehangach ac, i'w gwrthwyneb, pan fydd yn isel gall waethygu eu heffaith. Bydd pobl sy'n mwynhau lefel uchel o lesiant meddyliol mewn sefyllfa well i gymryd camau i hybu eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a'u teulu a'r gymuned ehangach; maent yn fwy tebygol o ymarfer hunanofal a bydd ganddynt fwy o gapasiti i gael budd o ymyriad gofal iechyd. Pan fydd llesiant meddyliol yn isel gall hyn arwain at 'hunanfeddyginiaeth' drwy'r defnydd o alcohol, cyffuriau neu fwyd. Mae hyn yn ei dro yn cynyddu'r risg o broblemau iechyd a llai o debygolrwydd o geisio cymorth ar gam cynnar neu gael mynediad at ofal ataliol.

Canfu gwybodaeth o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, sy'n casglu gwybodaeth am iechyd a llesiant plant ysgol uwchradd yng Nghymru, y bu dirywiad ystadegol arwyddocaol o ran llesiant meddyliol o gymharu â'r cyfnod cyn pandemig Covid-19. Gwnaeth y profiad o'r pandemig diweddar dynnu sylw llawer o bobl at bwysigrwydd eu perthynas ag eraill; roedd colli cysylltiad â ffrindiau a theulu wedi cael effaith negyddol ar lesiant meddyliol llawer o bobl. Yr hyn a nodwyd hefyd oedd bod llawer o bobl yn mabwysiadu ymddygiad i hyrwyddo eu llesiant meddyliol, fel mynd am dro, treulio amser gyda'r teulu yn y cartref, garddio, coginio,

crefftau, ac amrywiaeth o ymarfer corff yn yr awyr agored. Mae potensial i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r camau cymharol syml y gallwn eu cymryd fel unigolion i ddiogelu a hyrwyddo ein llesiant meddyliol, yn enwedig yn ystod cyfnod o straen.

Bydd pob un ohonom yn profi llesiant meddyliol isel ar adegau gwahanol o'n bywydau, pan fyddwn yn colli un o'n hanwyliaid, yn profi perthynas yn chwalu, drwy golli cyflogaeth, neu yn ystod cyfnodau o afiechyd. Fodd bynnag, i rai unigolion a grwpiau mae llesiant isel yn hirdymor, ac ynghyd â straen cronig gall hyn gael effaith sylweddol ar iechyd hirdymor. Gall y profiad o ACE, trawma a thrallod, heb y ffactorau amddiffynnol cadarnhaol a chymorth sy'n seiliedig ar anghenion i liniaru'r effaith, effeithio ar lesiant meddyliol ar draws cwrs bywyd.

Rydym yn anifeiliaid cymdeithasol ac mae rhyngweithio rhwng pobl yn hanfodol ar gyfer llesiant meddyliol da, ac mae'r pwyslais cynyddol ar unigrwydd ac ynysigrwydd mewn polisïau yn cydnabod y pwysigrwydd hwn. Fodd bynnag, gall perthnasoedd afiach ffurfio'r sail ar gyfer cam-drin neu drais neu gamfanteisio. Yn 2021/22, dangosodd data Arolwg Cenedlaethol Cymru fod 13% ar gyfartaledd o boblogaeth Cymru yn teimlo'n unig ac mae 58% yn teimlo'n unig weithiau gyda chyfraddau ychydig bach yn uwch o unigrwydd wedi'u nodi ymhlith pobl ifanc 16-24 oed a'r cyfraddau isaf wedi'u nodi ymhlith y grwpiau hynaf.

2.2.3 Cwmpas

Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â gosod sylfeini iechyd a llesiant da gan ddefnyddio dull cwrs bywyd. Er y bydd y gwaith yn y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at atal salwch meddwl, nid yw'r thema flaenoriaeth hon yn ymwneud ag iechyd neu salwch meddwl yn unig. Yn syml, gellir diffinio llesiant meddyliol fel 'teimlo'n dda a gweithredu'n dda'. Byddwn yn canolbwyntio ar flociau adeiladu gwahanol llesiant meddyliol a chymdeithasol ar gyfer unigolion ac o fewn cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys:

- Ffactorau seicolegol fel hunan-barch, hunanhyder, hunanbenderfyniaeth, a hunandderbyn
- Llythrennedd emosiynol, y gallu i nodi ein hemosiynau ac ymateb yn briodol iddynt
- Perthnasoedd iach, datblygu'r sgiliau i ffurfio a chynnal perthnasoedd iach o ansawdd da gyda gydag eraill
- Cydnerthedd, ein gallu i ymateb i heriau bywyd o ddydd i ddydd mewn ffordd nad yw'n niweidio iechyd ynddi'i hun
- Lleihau stigma a gwahaniaethu
- Ymarfer sy'n cael ei lywio gan drawma mewn dull cymdeithas gyfan, lle mae'r unigolyn, sefydliadau, cymunedau, systemau a'r gymdeithas y maent yn bodoli ynddi yn ymwybodol o effaith trawma ac yn meddu ar y gallu i ymateb

Oherwydd bod sylfeini'r sgiliau hyn yn aml yn ystod plentyndod cynnar, byddwn yn adeiladu ar waith ein rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf i gryfhau llesiant meddyliol plant bach a chynorthwyo rhieni a gofalwyr i greu'r amodau ar gyfer y datblygu cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl. Bydd hyn yn cynnwys parhau ein gwaith ar ddull iechyd cyhoeddus o ran cymorth magu plant i amlygu'r amodau cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol ehangach sy'n cynorthwyo

rhieni i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'w plant ac i gynorthwyo gwneuthurwyr polisi wrth asesu effaith polisi ar deuluoedd.

Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Dull Ysgol Gyfan o ran Llesiant Meddyliol ac Emosiynol a datblygu gwaith i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm fel y gall ein hysgolion greu cyfleoedd a modelu dulliau cynhwysol i adeiladu hunan-barch a hunanhyder, datblygu llythrennedd emosiynol, creu ymdeimlad o berthyn a chysylltioldeb, a chryfhau perthnasoedd iach.

Bydd atal trais rhwng cyfoedion ymhlith plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn ffocws ein gwaith o ran atal trais ac mae'n cyfrannu at ein dull iechyd cyhoeddus o atal pob math o drais yng Nghymru; gwireddu'r hyn y gallwn ei ddychmygu yn unig ar hyn o bryd - Cymru heb drais. Byddwn yn datblygu rhaglenni gwaith i gynorthwyo'r broses o greu a lledaenu tystiolaeth ar gyfer camau gweithredu effeithiol i hybu llesiant meddyliol a chreu'r amodau mewn cymunedau sy'n cefnogi llesiant cymdeithasol.

Drwy ein gwaith gyda chyflogwyr, byddwn yn eirioli ac yn cefnogi gweithredu yn y gwaith sy'n hyrwyddo llesiant meddyliol ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn a rhwydweithiau cymdeithasol cynhwysol. Byddwn yn parhau â'n gwaith gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gynyddu gwybodaeth a sgiliau i hyrwyddo llesiant meddyliol fel elfen graidd o bob rhyngweithiad gofal iechyd.

Byddwn yn parhau â'n gwaith i adeiladu capasiti a galluogrwydd yn y system i ymgorffori dulliau sy'n cael eu llywio gan drawma i leihau'r niwed hirdymor sy'n deillio o'r profiad o drallod a thrawma ar unrhyw adeg yn ein bywydau. Rydym yn ymrwymedig i gyd-gyflwyno rhaglen waith a fydd yn galluogi Cymru i ddod yn wlad sy'n cael ei llywio gan drawma gan hyrwyddo dull cymdeithas gyfan ar y cyd, nad yw'n beirniadu, caredig a thrugarog.

Mae cyflymder newid o ran technoleg wedi bod yn gyflym dros y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi trawsnewid sut rydym yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio â'n gilydd. Bydd ein gwaith yn cydnabod yr angen am gydnerthedd mewn amgylcheddau rhithwir hefyd. Byddwn yn ymgorffori'r meddwl hwn ar draws ein cynlluniau gwaith.

Yn olaf, byddwn yn parhau â'n gwaith i ymgorffori asesiad o'r effaith ar lesiant meddyliol i gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth sicrhau'r amodau gorau posibl ar gyfer llesiant meddyliol. Gan weithio gydag eraill byddwn hefyd yn ceisio tyfu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer camau gweithredu effeithiol a sicrhau ein bod yn gallu monitro newid a gwerthuso camau gweithredu.

2.2.4 Sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Erbyn 2035, byddwn wedi sicrhau'r canlynol:

- Gweithio gydag eraill i leihau anghydraddoldebau o ran llesiant meddyliol a chymdeithasol
- Syntheseiddio, dehongli a lledaenu tystiolaeth ar gyfer camau gweithredu effeithiol i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu polisi, deddfwriaeth a chamau gweithredu ar

draws systemau i hybu llesiant meddyliol a chymdeithasol a lleihau anghydraddoldebau

- Cyd-greu Cymru sy'n cael ei llywio gan drawma, i leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a mathau eraill o adfyd a thrawma
- Paratoi a galluogi camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hyrwyddo a diogelu llesiant meddyliol ar draws y system, gan gynnwys mewn lleoliadau allweddol fel addysg, yn y gwaith ac mewn cymunedau
- Cynorthwyo'r system i adolygu neu werthuso polisi neu raglenni am eu heffaith ar lesiant meddyliol a chymdeithasol ac anghydraddoldebau gan ddefnyddio dull cwrs bywyd
- Datblygu partneriaethau cryf a phwrpasol i gynyddu mynediad at gyfleoedd i bobl hybu eu llesiant meddyliol drwy ymgysylltu â'r pethau ac sy'n eu cadw'n feddyliol iach
- Gweithio gyda phartneriaid a rhieni i alluogi plant i gyflawni'r datblygiad cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl

2.2.5 Canlyniadau

Byddwn yn gweithio i gynorthwyo'r canlyniadau canlynol ar draws systemau:

- Gwella iechyd meddyliol y boblogaeth a lleihau'r bwlch llesiant meddyliol rhwng y grwpiau mwyaf cefnog a mwyaf difreintiedig (Llinell Sylfaen: 48.92, Dangosydd Cenedlaethol)
- Cynyddu cyfran y boblogaeth sy'n dweud bod ganddynt ymdeimlad o gymuned (Llinell Sylfaen: 69.3%, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)
- Cynyddu cyfran y plant sy'n cyflawni eu cerrig milltir datblygiadol - cymdeithasol ac emosiynol
- Lleihau cyfran y boblogaeth sy'n nodi eu bod yn profi trais neu gamdriniaeth

2.2.6 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

SO2.1 Erbyn 2026, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cenedlaethol a rhyngwladol i gryfhau gwybodaeth am drallod yn ystod plentyndod, atal trais a chynorthwyo ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Rydym wedi sefydlu ein hunain fel arweinwyr byd-eang ym maes mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a darparu gwasanaethau aml-sector sy'n cael eu llywio gan drawma sy'n helpu i sicrhau plentyndod diogel a meithringar a chymorth i'r rhai sy'n dioddef o ganlyniadau trawma yn ystod plentyndod drwy gydol eu hoes. Mewn cydweithrediad â Sefydliad Iechyd y Byd a grŵp cynghori cenedlaethol, byddwn yn llunio polisi a fframwaith cyfreithiol, sy'n seiliedig ar ddull penderfynyddion cymdeithasol iechyd, i gynorthwyo mynd

ati'n genedlaethol i weithredu saith strategaeth INSPIRE Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer rhoi terfyn ar drais yn erbyn plant.

Yn sail i waith parhaus gyda'n Huned Atal Trais gyda'r heddlu ledled Cymru, byddwn yn parhau i roi tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i fynd i'r afael ag ACE ac atal trais yn egwyddorion a gweithredoedd ymarferol ar gyfer cyflawni atal, meithrin cydnerthedd a datblygu systemau sy'n cael eu llywio gan drawma ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol gan weithio ar y cyd â'r Tîm Diogelu Cenedlaethol.

Byddwn wedi cynorthwyo GIG Cymru i roi tystiolaeth o nodi ac ymateb o ran mynd ati'n rheolaidd i holi am Gam-drin Domestig mewn Adrannau Brys, Unedau Mân Anafiadau a gwasanaethau iechyd meddwl.

SO2.2 Erbyn 2026, byddwn wedi gweithio gydag eraill i gynyddu gweledded gwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hybu llesiant meddyliol

Byddwn yn parhau gwaith strategol i gynyddu amlygrwydd a'r flaenoriaeth a roddir i gamau gweithredu i ddiogelu a hybu llesiant meddyliol fel sylfaen graidd i iechyd da ac ansawdd bywyd. Byddwn yn cwblhau ac yn lansio ein sgwrs genedlaethol wedi'i llywio gan fewnwelediad a thystiolaeth a byddwn yn parhau â'n gwaith i ddatblygu partneriaethau gyda sectorau allweddol i gynorthwyo gweithgareddau sy'n cynorthwyo llesiant meddyliol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith penodol gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddatblygu rhaglen hyfforddi i ymgorffori dealltwriaeth o bwysigrwydd llesiant meddyliol ar draws y gweithlu iechyd a gofal. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Dull Ysgol Gyfan o ran Llesiant Meddyliol ac Emosiynol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, gyda dull gwelliant parhaus yn ei le. Byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgir o'n gwerthusiad proses gan dynnu sylw at arfer da a dechrau nodi meysydd datblygu a amlygwyd gan ysgolion ar gyfer gwelliant pellach. Byddwn hefyd yn gwneud gwaith i ddod â'r gwaith hwn at ei gilydd gyda Rhwydwaith Cymru o Ysgolion sy'n Hybu Iechyd.

SO2.3 Erbyn 2026, byddwn wedi galluogi partneriaid system i ddeall yr achos ar gyfer rhoi'r blynyddoedd cynnar wrth wraidd dulliau o wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau a gweithredu ar hyn.

Gall blynyddoedd cynharaf bywyd plentyn a sut y mae rhieni'n cael eu cynorthwyo i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol eu plentyn gael effaith hirdymor. Mae anghydraddoldebau o ran canlyniadau yn codi ar ddechrau bywyd a gallant fod yn amlwg adeg geni. Ceir tystiolaeth gref bod buddsoddi a chymorth i deuluoedd yn ystod y cyfnod hanfodol hwn o fywydau plant ymhlith y mwyaf cost effeithiol o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar draws y cwrs bywyd. Byddwn wedi cwblhau ein hadolygiad o gyflawni'r rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf yn y dyfodol, gan ystyried y cyfeiriad strategol ehangach yng Nghymru ac wedi'i lywio gan adnewyddu ein Strategaeth Hirdymor, byddwn yn disgrifio model cyflawni ar gyfer y Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf yn y dyfodol a fydd yn sicrhau cymaint o'n gallu â phosibl i alluogi'r system i ddeall a gweithredu ar y dystiolaeth orau sydd ar gael yn y blynyddoedd cynnar.

Yn 2022/23 roedd y Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf wedi dod â'r dystiolaeth a'r mewnwelediad diweddaraf at ei gilydd i brofiad bywyd rhieni a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru er mwyn

disgrifio rôl hanfodol magu plant hyderus, cydnerth a chadarnhaol o ran gwella canlyniadau i blant a phwysigrwydd creu'r amodau i rieni ffynnu yn eu rôl magu plant drwy ddull iechyd cyhoeddus o gynorthwyo rhieni. Yn 2023/24, byddwn yn gweithio i gynyddu dealltwriaeth a chydnabyddiaeth ar draws system y blynyddoedd cynnar bod mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus o gynorthwyo rhieni yn cynnwys y potensial i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau a thorri cylchoedd o anfantais rhwng y cenedlaethau.

Mae cael babi yn adeg pan fo llawer o rieni'n ceisio gwybodaeth a chymorth i'w helpu wrth bontio i flynyddoedd cynnar bod yn rhiant a thrwy'r blynyddoedd hynny. Byddwn yn parhau â'n rhaglen waith i ddatblygu'r olynydd i Naw Mis a Mwy er mwyn sicrhau bod gan rieni fynediad at y wybodaeth iechyd allweddol sydd ei hangen arnynt er mwyn helpu i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd i'w plentyn.

Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

SO2.1 Erbyn 2026, Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cenedlaethol a rhyngwladol i gryfhau gwybodaeth am drallod yn ystod plentyndod, atal trais a chynorthwyo ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	**2023-24** **Chwarter 2** • Cynllun gweithredu i ategu'r Fframwaith Ymarfer Trawma Cenedlaethol a ddatblygwyd • Cyhoeddi fersiwn hygyrch a fersiwn i blant a phobl ifanc o'r fframwaith • Model Gweithredu Cymru Gyfan wedi'i ddatblygu gan adeiladu ar fodel Uned Atal Trais De Cymru • Cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth atal trais ieuenctid wedi'i ddatblygu i gynorthwyo ffocws meysydd lleol yn eu dull o ran atal trais ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol • Wedi paratoi fframwaith penderfynyddion cymdeithasol iechyd, gan gynorthwyo gweithredu, ar lefel y wlad, saith strategaeth Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer rhoi terfyn ar drais yn erbyn plant (INSPIRE), llywio ac ymestyn corff cynyddol o dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio i atal trais ac ymateb iddo • Wedi adrodd ar gostau byw cynyddol ac iechyd a llesiant, gan lywio polisi ac ymarfer iechyd cyhoeddus ac atal profiad niweidiol yn ystod plentyndod **Chwarter 3** • Datblygu ystorfa o ddeunyddiau hyfforddi presennol • Gweithredu system gwyliadwriaeth trais ar raddfa fawr (Hyb VIP) i Gymru **Chwarter 4** • Adnoddau i gynorthwyo cyrff cyhoeddus Cymru i gyflawni eu Dyletswydd Trais Difrifol, gan gynnwys datblygu canllawiau ar SNA, dadansoddi data a monitro trais • Monitro a gwerthuso ar gyfer y fframwaith trawma gan gynnwys datblygu dangosyddion a mesurau • Gwerthuso pecyn cymorth TraCE ar draws sefydliadau, sectorau a chymunedau **2024-25** • Gwerthuso'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Trawma Cenedlaethol
SO2.2 Erbyn 2026, byddwn wedi gweithio gydag eraill i gynyddu gweledegd gwaith sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hybu llesiant meddyliol	**2023-24** **Chwarter 1** • Cyhoeddi canfyddiadau o waith mewnwelediad ac ymgysylltu gyda chymunedau ar lesiant meddyliol **Chwarter 2** • Lansio sgwrs genedlaethol am lesiant meddyliol • Nodi arfer da o werthuso prosesau i ymgorffori Dull Ysgol Gyfan o ran Llesiant Emosiynol a Meddyliol a'i ledaenu **Chwarter 3** • Datblygu adnodd hyfforddi ar lesiant meddyliol i gynorthwyo cynllun datblygu iechyd meddwl y gweithlu **Chwarter 4** • Sefydlu ffrwd waith i ymgysylltu â hyrwyddwyr llesiant sefydliadol a chymunedol a'u datblygu

	2024-25
	• Llwyddo i wneud gwaith parhaus i baratoi cymunedau i gynorthwyo llesiant meddyliol drwy weithio mewn partneriaeth ar draws sectorau allweddol. • Wedi cynorthwyo gwelliant parhaus dulliau ysgol gyfan o ran llesiant emosiynol a meddyliol a chynyddu cysondeb gweithgarwch gan bartneriaid systemau sy'n gweithio i wella iechyd a llesiant pobl ifanc.
	2025-26
	• Cwblhau'r gwaith o ymestyn gweithio mewn partneriaeth ymhellach gyda sectorau a lleoliadau allweddol
SO2.3 Erbyn 2026, Byddwn wedi galluogi partneriaid system i ddeall yr achos ar gyfer rhoi'r blynyddoedd cynnar wrth wraidd dulliau o wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau a gweithredu ar hyn.	2023-24
	Chwarter 2
	• Negeseuon allweddol o Ddull Iechyd Cyhoeddus o Gynorthwyo Rhieni wedi'u cyfathrebu i randdeiliaid
	Chwarter 3
	• Disgrifio model cyflawni ar gyfer y dyfodol Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf, wedi'i lywio gan yr adnewyddiad o'r Strategaeth Hirdymor
	Chwarter 4
	• Cwblhau Cam 1 o gyhoeddi'r olynydd i Naw Mis a Mwy er mwyn diwallu anghenion gwybodaeth iechyd rhieni yn y 1000 diwrnod cyntaf
	2024-25
	• Bydd cyflawni'r Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf yn digwydd yn unol â chynlluniau a ddatblygwyd yn 23/24 • Bydd datblygu olynydd i Naw Mis a Mwy er mwyn diwallu anghenion gwybodaeth iechyd rhieni yn ystod beichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar yn parhau, gan ddarparu gwybodaeth i rieni â phlant dros ddwy oed
	2025-26
	• Gwerthuso'r olynydd i Naw Mis a Mwy

2.3 Blaenoriaeth Strategol 3 - Hybu ymddygiad iach

2.3.1 Cyflwyniad

Hybu ymddygiad iach sy'n cwmpasu gweithgarwch i leihau baich clefyd, anabledd, a marwolaeth gynnar sy'n deillio o'n hymddygiad fel y defnydd o dybaco, ein deiet, pa mor egnïol yr ydym ac a ydym yn defnyddio alcohol a sylweddau eraill a sut rydym yn eu defnyddio.

Mae cysylltiad agos rhwng ein hymddygiad â'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sydd wedi'u hamlinellu mewn blaenoriaethau cynharach. Mae ein dull o fynd i'r afael ag ymddygiad iach yn cydnabod yn glir bod y cyfleoedd i wneud dewisiadau iachach yn cael eu dylanwadu gan ein hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd, gan lle rydym yn byw, ac yn bwysig gan gamau gweithredu'r diwydiannau sy'n cynhyrchu llawer o nwyddau afiach. Dyma pam, ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymddygiad, rydym yn gweld graddiant economaidd-gymdeithasol clir; maent yn fwy cyffredin ymhlith grwpiau yn y boblogaeth sy'n profi anfantais. Mae'r ffactorau hyn yn un o'r prif ddulliau y mae'r penderfynyddion ehangach yn arwain at afiechyd.

Rydym hefyd yn cydnabod y gall ein hymddygiad fod o ganlyniad i'n llesiant meddyliol. Bydd llawer ohonom yn cydnabod mor hawdd yw bwyta bwydydd llai iach, yn aml fel danteithion pan fyddwn yn teimlo'n isel, neu sut y gall ein defnydd o alcohol gynyddu pan fyddwn dan straen neu'n bryderus. I rai pobl daw'r ymddygiad ymdopi hwn yn hirdymor ac mae'n dod yn arfer ac efallai y bydd angen cymorth ar bobl i fabwysiadu strategaethau ymdopi iachach. Yn y sefyllfaoedd hyn, yn aml mae angen cymorth ar bobl i wneud newidiadau, hyd yn oed pan fydd ganddynt gymhelliant i wneud hynny.

2.3.2 Trosolwg – pam mae hyn yn flaenoriaeth

Mae gan brif achosion marwolaeth, yn enwedig marwolaeth gynnar yng Nghymru fel clefyd y galon a chlefyd cylchredol arall, rhai canserau a chlefyd anadlol, fel enghreifftiau, gysylltiadau cryf ag ymddygiad iechyd fel ffactorau risg. Gellir priodoli cyfran sylweddol o'r marwolaethau hyn i ffactorau fel smygu, deiet, a'r defnydd o alcohol. Mae ffactorau ymddygiadol hefyd yn chwarae rhan yn y cyflyrau sy'n arwain at anabledd fel clefydau cyhyrysgerbydol a defnyddio sylweddau.

Smygu yw'r ffactor risg arweiniol o hyd ar gyfer canlyniadau iechyd gwael, yn rhannol oherwydd i rai clefydau mae'r risg yn parhau am sawl blwyddyn hyd yn oed ar ôl i rywun roi'r gorau i smygu, yn enwedig os oeddent yn smygu am amser hir ac oherwydd yr amrywiaeth eang o gyflyrau a achosir gan smygu gan gynnwys clefyd y galon a chylchredol, dementia, canserau a chlefyd yr ysgyfaint. Fodd bynnag, mae cyfraddau smygu wedi lleihau'n sylweddol dros y degawdau diwethaf ac mae'r ffigurau diweddaraf yn awgrymu mai dim ond 13.8% o oedolion yng Nghymru sy'n smygu ar hyn o bryd. Lansiodd Llywodraeth Cymru strategaeth Cymru Ddi-fwg yn 2022 gyda'r nod o leihau cyfraddau smygu i lai na 5% erbyn 2030.

Fodd bynnag, mae ffactorau deietegol a bod dros bwysau a gordewdra wedi'u cyfuno, yn llawer uwch nag effaith defnyddio tybaco; ac er bod cyfraddau smygu yn gostwng, mae cyfraddau'r achosion o fod dros bwysau ac yn enwedig gordewdra yn cynyddu. Yn 2022, roedd y rhan

fwyaf o boblogaeth oedolion Cymru (62%) naill ai'n byw gyda bod dros bwysau neu ordewdra ac roedd 25% yn byw gyda gordewdra, mae hyn yn golygu bod eu pwysau ar lefel lle mae'r risg o iechyd gwael yn uchel. Mae cyfraddau gordewdra yn uwch yn y rhai o gefndir mwy difreintiedig. Lansiodd Llywodraeth Cymru Pwysau Iach: Cymru Iach fel strategaeth hirdymor i leihau lefelau dros bwysau a gordewdra yn y boblogaeth. Ein deiet, gan gynnwys y defnydd o alcohol ac a ydym yn egnïol yw achosion ymddygiadol arweiniol ar gyfer bod dros bwysau a gordewdra. Mae ychydig dros hanner yr oedolion (56%) yn cyrraedd y lefel o weithgarwch corfforol a argymhellir gan Brif Swyddogion Meddygol y DU, sef 150 munud weithgarwch cymedrol neu egnïol yr wythnos. Fodd bynnag, wrth i'n dealltwriaeth gynyddu, rydym yn gwybod bod yr enillion iechyd mwyaf i'w gwneud drwy helpu'r 30% o oedolion yng Nghymru sy'n segur ar hyn o bryd (yn egnïol am lai na 30 munud yr wythnos) i fod yn fwy egnïol.

Mae bod yn egnïol yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau ond gall gynnwys lle rydym yn byw, a oes gennym fynediad hawdd at leoedd i gerdded a beicio; a oes gennym fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus aml a dibynadwy fel dewis arall yn lle defnyddio car, p'un a allwn fforddio mynd i gampfa neu ganolfan hamdden yn rheolaidd, a'r math o waith rydym yn ei wneud. Cydnabyddir bod ein bywydau yn gynyddol eisteddog ac mae'r angen i greu cyfleoedd i fod yn egnïol yn ffenomen gymharol ddiweddar na fyddai wedi'i chydnabod gan bobl 100 mlynedd yn ôl.

Mae tlodi bwyd yn cael ei gydnabod fel problem sylweddol ac mae'n tyfu, mae llawer o deuluoedd yn cael trafferth darparu bwyd o gwbl ac mae ganddynt lawer llai o allu o ran canolbwyntio ar a yw'r bwyd hwnnw yn iach ai peidio. Ni fydd yn hawdd gwrthdroi newidiadau sydd wedi digwydd dros ddegawdau ond os na fyddwn yn gweithredu, bydd baich clefyd sy'n gysylltiedig â gordewdra yn parhau i gynyddu.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1990 a 2016, cynyddol y baich clefyd y gellir ei briodoli i alcohol a chyffuriau. Mae'r defnydd o alcohol wedi'i normaleiddio yn ein cymdeithas, ond eto cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd ddatganiad ym mis Ionawr 2023 lle mae'n datgan ‘o ran y defnydd o alcohol nid oes swm diogel nad yw'n effeithio ar iechyd’. Roedd Canllawiau Prif Swyddogion Meddygol y Deyrnas Unedig a luniwyd yn 2016 yn adlewyrchu'r egwyddor hon wrth siarad am ‘Ganllawiau Yfed Risg Isel’ yn hytrach na lefelau diogel.

2.3.3 Cwmpas

Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ymddygiad sy'n cael yr effaith fwyaf ar afiechyd, anabledd a marwolaeth gynnar y gellir eu hatal. Wrth wneud hyn rydym hefyd yn cydnabod cyfraniad yr ymddygiad hwn at iechyd y blaned yn ogystal ag iechyd unigolion.

Byddwn yn parhau â'n gwaith fel system iechyd cyhoeddus, gyda Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, i fynd i'r afael â thybaco a gordewdra gan ddefnyddio dull systemau, a byddwn yn gweithio i ddatblygu dull tebyg i atal niwed o'r defnydd o gyffuriau ac alcohol. Rydym wedi gweld manteision mesuradwy i'n dull ar y cyd o ran tybaco, yn enwedig drwy Helpa Fi i Stopio a byddwn yn ceisio adeiladu ar hyn i gyflawni ein huchelgais di-fwg.

Byddwn yn gweithio i gynorthwyo'r system ehangach wrth fesur newid. Bydd y rhain yn cynnwys gostyngiadau cyffredinol o ran ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd a'r bwlch rhwng y

grwpiau mwyaf a lleiaf cefnog mewn cymdeithas. Byddwn hefyd yn cydnabod bod sylfeini llawer o'r ymddygiad hwn yn dechrau yn ystod plentyndod a byddwn yn parhau â'n gwaith i gefnogi'r broses o fabwysiadu ymddygiad iach o enedigaeth. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i gynyddu nifer y rhai sy'n bwydo ar y fron a chyflwyno bwydydd solet yn y ffordd orau posibl. Byddwn hefyd yn datblygu dull ysgol gyfan o ran bwyd a fydd yn cynnwys gwaith i sicrhau bod safonau maeth yn unol â'r canllawiau gwyddonol diweddaraf ac y gallwn werthuso effaith polisi i sicrhau ei fod yn cael yr effaith ddymunol ar arferion bwyta plant a phobl ifanc.

Byddwn yn defnyddio dull penderfynyddion iechyd masnachol, sy'n canolbwyntio ar weithgarwch yn y sector preifat sy'n effeithio ar iechyd y boblogaeth. Nod y dull hwn yw nodi'r diwydiannau nwyddau afiach hynny sy'n mynd ati i hyrwyddo ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd, a gweithredu arnynt. Mae Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth gyflwyno deddfwriaeth i leihau effaith niweidiol tybaco a byddwn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru drwy roi tystiolaeth i lywio camau gweithredu er mwyn sicrhau bod Cymru yn parhau ymhlith y gwledydd arweiniol yn fyd-eang sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Rydym yn cydnabod wrth fynd i'r afael â grymoedd y diwydiant yn fyd-eang y bydd angen i ni weithio'n agos gydag asiantaethau iechyd cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang i sicrhau ein bod yn cyfrannu at gamau gweithredu ar y cyd ac yn cael budd o hyn.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau y gallwn nodi ymddygiad newydd ac sy'n dod i'r amlwg, y gall gweithgarwch corfforaethol ei ysgogi neu ddylanwadu arno. Rydym wedi gweld pryder cynyddol mewn perthynas â materion fel niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ac mae consensws cyffredinol gan y rhan fwyaf o randdeiliaid bod hyn i'w briodoli, yn rhannol o leiaf, i rôl y diwydiant. Bu pryder cynyddol am nifer y bobl ifanc sy'n fepio a'r rôl y gall cynnyrch untro deniadol, â blas sy'n newydd i'r farchnad eu chwarae. Mae dryswch ynghylch canabis ac i ba raddau y mae'n niweidiol yn deillio yn rhannol o gamau gweithredu diwydiant naill ai mewn perthynas â chynnyrch sy'n deillio o ganabis heb gynhwysion gweithredol a'u hyrwyddo neu gan y diddordebau masnachol hynny sy'n argymell dad-droseddoli.

Byddwn yn gweithio i ddatblygu dull o ymchwilio i ymddygiad newydd ac sy'n dod i'r amlwg a all gael effaith ar iechyd y boblogaeth ac ymateb i hyn, fel gamblo neu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, er mwyn sicrhau y gallwn roi tystiolaeth a chyngor amserol i'r Llywodraeth, y system ehangach a'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod camau gweithredu i fynd i'r afael â ffactorau ymddygiadol gan ddefnyddio dull sy'n cael ei lywio gan wyddor ymddygiad, a defnyddio'r data a'r dystiolaeth orau posibl sydd ar gael o amrywiaeth gynyddol o ffynonellau fel bod gennym y ddealltwriaeth orau posibl o ysgogwyr ymddygiad afiach.

Er ein bod yn cydnabod y dylai ein camau gweithredu geisio dylanwadu ar yr amgylchedd ehangach yn bennaf, gan wneud y dewisiadau iach yn ddewisiadau hawdd, rydym yn cydnabod y bydd cymorth i unigolion yn parhau'n elfen allweddol o'n gwaith. Byddwn yn cynorthwyo'r rhai sy'n gweithio gydag unigolion yn y system iechyd a gofal i ddarparu dulliau newid ymddygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy raglenni fel Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif.

2.3.4 Sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Erbyn 2035, byddwn wedi sicrhau'r canlynol:

- Gweithio gydag eraill i leihau baich clefyd yng Nghymru o'r defnydd o gynnyrch sy'n niweidiol i iechyd a chynyddu ymddygiad sy'n hybu iechyd
- Syntheseiddio, dehongli a lledaenu tystiolaeth ar gyfer camau gweithredu effeithiol i gynorthwyo'r polisi, deddfwriaeth a chamau gweithredu ar draws systemau ar dybaco, deiet, anweithgarwch corfforol, alcohol a sylweddau eraill
- Galluogi camau gweithredu ar draws systemau drwy ddatblygu a phrofi dulliau newydd a chydlynu rhaglenni gwaith
- Sefydlu a gweithredu dulliau ar gyfer asesiad cyflym o ymddygiad newydd ac sy'n dod i'r amlwg ar gyfer eu heffaith iechyd cyhoeddus
- Adolygu neu werthuso polisi neu raglenni i weld beth yw eu heffaith

2.3.5 Canlyniadau

Byddwn yn gweithio i gynorthwyo'r canlyniadau canlynol ar draws systemau:

- Lleihau canran yr achosion o smygu i 5% erbyn 2030 (Llinell Sylfaen: 13.8%, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)
- Cynyddu cyfran y boblogaeth sy'n bwysau iach (Llinell Sylfaen: 36.7%, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)
- Cynyddu cyfran y boblogaeth sy'n egnïol (Llinell Sylfaen: 55.5%, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)
- Cynyddu cyfran y boblogaeth y mae eu defnydd o alcohol yn risg isel (Llinell Sylfaen: 82.1%, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)

2.3.6 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

SO3.1 Erbyn 2026, byddwn wedi galluogi eraill i fabwysiadu dull systemau o ran atal y cynnydd mewn lefelau o fod dros bwysau a gordewdra ymhlith plant ac oedolion yng Nghymru drwy weithredu Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach.

Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r gwaith o weithredu Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a Chynllun Cyflawni 2022-24 drwy'r canlynol:

- Cynorthwyo datblygiad parhaus Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan drwy lwybr newydd ar gyfer beichiogrwydd a thrwy weithredu'r Set Ddata Sylfaenol Genedlaethol.
- Lansio dau fodiwl newydd ar y cyd â'r rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif ar Sgyrsiau Pwysau Iach.
- Parhau i adeiladu a datblygu'r Cynnig Digidol lefel 1.
- Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Atal Gordewdra Gofal Sylfaenol 2022-24 a thrwy weithredu, monitro a gwerthuso Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan (AWDPP) mewn clystyrau gofal sylfaenol ledled Cymru.

Ar ôl lansio'r rhaglen farchnata gymdeithasol Pwysau Iach Byw'n Iach ym mis Ionawr byddwn yn gwneud gwaith dilynol gyda dwy fenter newid ymddygiad benodol yn ystod y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r gwaith o weithredu ein dull system gyfan ar gyfer Pwysau Iach, yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru gan gynorthwyo gwaith y system blaenoriaethau lleol a galluogi rhannu'r hyn a ddysgir ledled Cymru. Byddwn hefyd yn darparu dysgu ar gyfer y dulliau hyn i wella pwysau iach drwy werthuso'r peilot ymyrryd yn gynnar Plant a Theuluoedd.

Byddwn yn dychwelyd at ein gwaith ar faeth yn y blynyddoedd cynnar, gan wneud yr achos dros 10 Cam at bwysau iach i blant, gan gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Bwydo ar y Fron a dangos sut y gallwn sicrhau cyfraniad mwyaf posibl bwyd ysgol i iechyd a llesiant y boblogaeth. Byddwn yn parhau i ddarparu tystiolaeth o ansawdd uchel i lywio polisi a dulliau deddfwriaethol Cymru i alluogi pwysau iach, gan gynnwys gwaith i hyrwyddo amgylcheddau bwyd iachach.

SO3.2 Erbyn 2026, byddwn wedi gweithio gydag eraill i gynyddu cyfran y boblogaeth sy'n egnïol.

Byddwn yn parhau â'n gwaith i weithredu argymhellion Llwybr i Wella Teithio Llesol i'r Ysgol er mwyn cynyddu nifer y plant sy'n teithio'n llesol i'r ysgol gan weithio gyda phartneriaid ar draws y system drwy ddatblygu a threialu dull sy'n seiliedig ar le o hyrwyddo teithio llesol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd ysgolion uwchradd; datblygu'r Arolwg Dwylo i Fyny Teithio Llesol i'r Ysgol ymhellach ac ochr yn ochr â hyn byddwn yn lansio ein menter farchnata gymdeithasol sy'n cael eu llywio gan ymddygiad ac wedi'i hanelu at rieni. Byddwn yn parhau â'n gwaith gyda phartneriaid i ddatblygu'r Cynnig Egnïol Dyddiol i ysgolion, gan gynnwys cwblhau fframwaith thematig ar gyfer dull ysgol gyfan o ran gweithgarwch corfforol, sy'n gyson â'r Cwricwlwm i Gymru a Rhwydwaith Cymru ar gyfer Ysgolion sy'n Hybu Iechyd.

SO3.3 Erbyn 2026, byddwn wedi cynorthwyo'r system ehangach i gymryd camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hybu ymddygiad iach a mesur effaith eu camau gweithredu.

Ar ôl ailddechrau'r rhaglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif yn 2021/22 byddwn yn parhau i ailadeiladu i'w gweithredu'n llawn yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn canolbwyntio ar weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ymgorffori Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif o fewn hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru. Byddwn hefyd yn adnewyddu ac yn lledaenu'r model rhesymeg i arwain camau gweithredu ar draws y system. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ymateb i argymhellion yr adolygiad o'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff i sicrhau ei fod yn darparu rhaglen o ansawdd uchel, effeithiol a ddarperir yn gyson o ymarfer corff i'r rhai sydd mewn perygl o glefyd cronig neu sy'n dioddef o glefyd cronig sydd â'r capasiti mwyaf i gael budd a sicrhau bod y rhaglen yn cynorthwyo'r fenter Cadw'n Iach. Byddwn yn cwblhau'r gwaith o adfer ac ailddechrau'r rhaglen Byw Bywyd gan dargedu'r ysgolion sydd â'r angen mwyaf yn well i gyfrannu at y nod o Gymru ddi-fwg erbyn 2030.

Byddwn yn parhau â'r gwaith o ddatblygu a thrawsnewid y Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru a'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy i sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r rhaglenni o fewn tirwedd bolisi sydd wedi datblygu a sicrhau ei fod yn ddull cefnogol ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru/Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Bydd hyn

yn cynnwys gweithio gyda'r sector addysg ac iechyd i ddatblygu gwobr newydd yn lle'r Wobr Ansawdd Genedlaethol a byddwn hefyd yn datblygu set genedlaethol o ddangosyddion sy'n mesur effaith y rhaglen.

Byddwn hefyd yn dechrau gwaith i integreiddio'r Dull Ysgol Gyfan o ran Llesiant Meddyliol ac Emosiynol yn llawn â Rhwydwaith Cymru o Ysgolion sy'n Hybu Iechyd. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, athrawon, consortia rhanbarthol a phartneriaid eraill i ddatblygu dull o ran darparu adnoddau i gynorthwyo'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Mae Cymru yn parhau i gael lefelau uchel o glefyd deintyddol yn ystod plentyndod sy'n cael effaith negyddol ar fywydau plant. Cyn pandemig Covid-19, roedd gan 34% o blant 5 oed a 30% o blant 12 oed yng Nghymru bydredd dannedd, gyda phlant sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o ddioddef iechyd deintyddol gwael. Mae'r pandemig wedi cael effaith niweidiol ar arferion iechyd y geg plant, fel llai o frwsio dannedd yn sgil tarfu ar arferion, a chynnydd yn y byrbrydau siwgr sy'n cael eu bwyta – yn enwedig i blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Byddwn yn darparu arweinyddiaeth iechyd cyhoeddus strategol ar gyfer y rhaglen wella genedlaethol ar iechyd y geg i blant , Cynllun Gwên, wrth iddi adfer yn llawn, gan gynnwys adolygu tystiolaeth i ddiweddaru deunyddiau, ymgysylltu ag ysgolion cynradd i gynorthwyo elfennau iechyd y geg o'u cwricwlwm addysgu newydd ac adnewyddu cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar gyfer gwella iechyd y geg yn y blynyddoedd cynnar. Byddwn yn cryfhau'r broses o fonitro iechyd y geg plant yng Nghymru drwy arolygon epidemioleg deintyddol o blant 5 a 12 oed yng Nghymru, a fydd yn ein helpu i ddeall sut y mae'r pandemig wedi effeithio ar anghydraddoldebau iechyd.

SO3.4 Erbyn 2026, byddwn wedi gweithio gydag eraill i leihau cyfran y boblogaeth sy'n smygu

Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni Strategaeth Rheoli Tybaco hirdymor i Gymru Llywodraeth Cymru, sef Cymru ddi-fwg, a'r Cynllun Cyflawni tuag at Gymru ddi-fwg 2022 i 2024 a chynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni nesaf ar gyfer 2024-2026; gan gefnogi'r weledigaeth a'r uchelgais i greu Cymru ddi-fwg gyda chyffredinrwydd o 5% erbyn 2030. Byddwn yn parhau i weithredu'r Rhaglen Helpa Fi i Stopi yn yr Ysbyty i sicrhau effaith fwyaf posibl cyswllt gofal iechyd i hyrwyddo ymgais i roi'r gorau iddi a lleihau amrywiad o ran cymorth i smygwyr sy'n feichiog ledled Cymru. Byddwn yn datblygu cynigion i fynd i'r afael â nifer y rhai sy'n dechrau smygu ymhlith oedolion ifanc 18-24 oed ac yn cwblhau rhaglen farchnata gymdeithasol hirdymor yn seiliedig ar y mewnwelediad hwn.

SO3.5 Erbyn 2026, byddwn wedi gweithio gydag eraill i atal y niwed sy'n deillio o gamddefnyddio sylweddau

Ar ôl ailsefydlu'r Bartneriaeth Genedlaethol Atal Niwed Alcohol byddwn yn parhau i adeiladu blaenoriaethau a rennir ac adeiladu arnynt er mwyn lleihau niwed o alcohol gan ddefnyddio dull iechyd y boblogaeth. Bydd hyn yn cynnwys gwaith i atal yfed cynnar ymhlith pobl ifanc, yn enwedig yfed rheolaidd oherwydd bod gan Gymru'r lefelau uchaf a nodwyd yn y DU. Byddwn hefyd yn parhau i archwilio camau gweithredu ar gyfer dadnormaleiddio meddwdod gan gynnwys gwaith i adeiladu ar ein gwaith mewnwelediad ynghylch alcohol a chwaraeon yng Nghymru.

Byddwn yn datblygu rhaglen waith yn ymwneud â'r defnydd o ganabis yng Nghymru gan ddefnyddio'r adolygiadau tystiolaeth a gwaith mewnwelediad a wnaed hyd yma. Bydd hyn yn cynnwys gwaith penodol ar y berthynas rhwng y defnydd o ganabis a thybaco.

Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

SO3.1 Erbyn 2026, Byddwn wedi galluogi eraill i fabwysiadu dull systemau o ran atal y cynnydd mewn lefelau o fod dros bwysau a gordewdra ymhlith plant ac oedolion yng Nghymru drwy weithredu Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach.	**2023-24** **Chwarter 1** • Lansio modiwlau lefel 1 a 2 Sgwrs Pwysau Iach ar gyfer Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif • Parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Atal Gordewdra Gofal Sylfaenol 2022-24 • Cynorthwyo gweithredu parhaus, cyflwyno a nodi ymhellach y poblogaethau sy'n wynebu risg ar gyfer atgyfeirio i'r Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan (AWDPP) **Chwarter 2** • Adrodd ar werthusiad cychwynnol o gynnig lefel 1 Pwysau Iach Byw'n Iach • Adroddiad wedi'i gyhoeddi ar fanteisio i'r eithaf ar gyfle'r system prydau bwyd ysgol i hybu iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau • Treialu offeryn asesu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y llwybr pwysau iach • Datblygu offer monitro cenedlaethol ar gyfer yr AWDPP **Chwarter 3** • Cyhoeddi'r achos ar gyfer gweithredu ar gyfer y 10 cam i bwysau iach ar gyfer plant • Llunio gwerthusiad ac argymhellion ar gyfer y cynllun peilot plant a theuluoedd • Cyhoeddi canfyddiadau gwerthuso proses AWDPP a'u lledaenu i randdeiliaid allweddol • AWDPP Flwyddyn yn Ddiweddarach: Ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i gwblhau i ymgorffori dysgu o werthuso proses **Chwarter 4** • Cyhoeddi adroddiad interim ar yr Astudiaeth Ddichonoldeb o System Talu am Brydau Ysgol heb Arian Parod • Cyhoeddi Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan ar gyfer Beichiogrwydd • Cynorthwyo'r gwaith o weithredu Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan mewn gofal sylfaenol a chymunedol • Rhannu argymhellion ar gyfer cynlluniau'r dyfodol ar gyfer yr AWDPP i gynorthwyo'r gwaith o ymgorffori atal diabetes sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws gofal sylfaenol **2024-25** • Gwerthuso Blwyddyn 1 cynnig Lefel 1 Pwysau Iach Byw'n Iach • Gwerthuso Blwyddyn 1 Ymgyrch Pwysau Iach Byw'n Iach • Llunio adroddiad gwerthuso interim ar gyfer y Dull Systemau Cyfan o ran Pwysau Iach • Llunio adroddiad terfynol ar yr astudiaeth ddichonoldeb systemau talu heb arian parod • Asesu'r broses o weithredu Cynllun Gweithredu Atal Gordewdra Gofal Sylfaenol 2022-24 • Rhannu canfyddiadau gwerthuso canlyniadau AWDPP â rhanddeiliaid allweddol

	2025-26
	• Gweithredu elfennau allweddol o gynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach • Adolygu amcanion gofal sylfaenol a chymunedol i gynorthwyo'r gwaith parhaus i gyflawni Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach • Asesu cyfraniad AWDPP at faich diabetes math 2 yng Nghymru
SO3.2 Erbyn 2026, Byddwn wedi gweithio gydag eraill i gynyddu cyfran y boblogaeth sy'n egnïol.	2023-24
	Chwarter 1
	• Llunio protocol ar gyfer y dull seiliedig ar le lleol o ran cynlluniau peilot gwella teithio llesol i'r ysgol.
	Chwarter 2
	• Datblygu fframwaith thematig cenedlaethol a chytuno arno ar gyfer dull ysgol gyfan o ran gweithgarwch corfforol
	Chwarter 3
	• Lansio ymgyrch farchnata gymdeithasol teithio llesol i'r ysgol sy'n cael ei llywio gan ymddygiad ac wedi'i thargedu at rieni/gwarcheidwaid
	Chwarter 4
	• Cyhoeddi adroddiad cynnydd ar gynlluniau peilot gwella teithio llesol i'r ysgol.
	2024-25
	• Rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol ar waith. • Rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar waith.
	2025-26
	• Rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol ar waith. • Rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar waith.
SO3.3 Erbyn 2026, Byddwn wedi cynorthwyo'r system ehangach i gymryd camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hybu ymddygiad iach a mesur effaith eu camau gweithredu.	2023-24
	Chwarter 1
	• Cwblhau'r gwaith o adfer ac ailddechrau rhaglen Byw Bywyd • Sefydlu rhaglen waith i wneud argymhellion ar gyfer gwobr newydd yn lle'r Wobr Ansawdd Genedlaethol
	Chwarter 2
	• Cwblhau arfarniad o opsiynau ar gyfer integreiddio gweithredol a strategol Rhwydwaith Cymru o Ysgolion sy'n Hybu Iechyd a Dull Ysgol Gyfan o ran Llesiant Meddyliol ac Emosiynol • Adnewyddu a lledaenu model rhesymeg Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif
	Chwarter 3
	• Cytuno ar ddull ar y cyd ag AaGIC i ymgorffori Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif yn hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol • Cwblhau'r gwaith o adolygu Meini Prawf Gwobrau Cenedlaethol y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy • Coladu data a chreu adroddiad monitro blynyddol ar Raglen Cynllun Gwên • Coladu data a llunio adroddiad ar arolwg epidemioleg deintyddol cenedlaethol 2022/23 o blant 5 oed yng Nghymru

	Chwarter 4
	• Gweithredu'r argymhellion â blaenoriaeth sy'n codi o'r adolygiad strategol o'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff • Datblygu fframwaith gwerthuso i roi tystiolaeth o effaith y rhaglen genedlaethol ysgolion sy'n hybu iechyd • Cwblhau model rhesymeg a fframwaith gwerthuso diwygiedig ar gyfer Byw Bywyd • Darparu cyngor strategol, arweinyddiaeth genedlaethol a chydlynu rhaglenni gwella iechyd y geg fel Cynllun Gwên • Mynd ati'n strategol i arwain, cynghori a chynorthwyo'r arolwg epidemioleg deintyddol o blant 12 oed yng Nghymru i benderfynu ar iechyd y geg presennol a disgrifio anghydraddoldebau sy'n bodoli (cynllunio, hyfforddiant a graddnodi yn 2023/24)
	2024-25
	• Datblygu rhaglen waith strategol tair blynedd a nodi'r blaenoriaethu gan adeiladu ar fodel rhesymeg wedi'i adnewyddu ar gyfer Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif • Parhau i weithredu rhaglen trawsnewid y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff • Cwblhau'r gwaith o drawsnewid Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHSS) a'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy (HSPSS) a rhoi cyngor strategol, arweinyddiaeth genedlaethol a chydlynu rhaglenni gwella iechyd y geg fel Cynllun Gwên • Coladu data a llunio adroddiad ar arolwg epidemioleg deintyddol cenedlaethol 23/24 o blant 12 oed yng Nghymru • Llunio cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar 2023/24
	2025-26
	• Gweithredu Blwyddyn 1 o'r rhaglen strategol ar gyfer Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif • Cwblhau rhaglen trawsnewid y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff • Integreiddio WSAMWB ac WNHSS yn llawn • Darparu cyngor strategol, arweinyddiaeth genedlaethol a chydlynu rhaglenni gwella iechyd y geg fel Cynllun Gwên • Cwblhau'r gwaith o lunio cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar 2023/24
SO3.4 Erbyn 2026, Byddwn wedi gweithio gydag eraill i leihau cyfran y boblogaeth sy'n smygu	2023-24
	Chwarter 1
	• Datblygu cynllun gweithredu a threfniadau llywodraethu ar gyfer ffrwd waith rhoi'r gorau i smygu ymhlith mamau o'r Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco 2022-2024
	Chwarter 2
	• Datblygu dull marchnata cymdeithasol strategol hirdymor ar gyfer rheoli tybaco a Helpa Fi i Stopio • Sefydlu prosiect i bennu cwmpas opsiynau ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb pontio o wasanaethau dibyniaeth ar dybaco i nicotin
	Chwarter 3
	• Datblygu cynigion i dargedu nifer y rhai 18 – 24 oed sy'n dechrau smygu • Cwblhau'r gwaith o weithredu cronfa ddata systemau newydd ddiwygiedig Helpa Fi i Stopio
	Chwarter 4

	• Cyflawni camau gweithredu cam 2 ar gyfer y Rhaglen Helpa Fi i Stopio yn yr Ysbyty
	2024-25
	• Cyflawni elfennau y cytunwyd arnynt y Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco
	2025-26
	• Cyflawni elfennau y cytunwyd arnynt y Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco
SO3.5 Erbyn 2026, Byddwn wedi gweithio gyda phartneriaid i atal niwed o gamddefnyddio sylweddau	2023-24
	Chwarter 1
	• Cyhoeddi adroddiad Epidemioleg a Niwed o ganabis
	Chwarter 2
	• Cytuno ar gynigion gweithredu systemau ar gyfer lleihau niwed o sylweddau ac alcohol mewn pobl ifanc
	2024-25
	• Datblygu rhaglen waith ar niwed sy'n gysylltiedig â chanabis
	2025-26
	• Datblygu rhaglen waith ar ddadnormaleiddio meddwdod

2.4 Blaenoriaeth Strategol 4 - Cefnogi'r gwaith o ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar

2.4.1 Cyflwyniad

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl genedlaethol o ran darparu arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ddatblygu strategaethau iechyd cyhoeddus ac wrth weithio mewn partneriaeth â GIG Cymru a chymunedau i gydlynu gweithgarwch iechyd cyhoeddus. Mae'r system iechyd a gofal yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gofal iechyd yn addas ar gyfer nawr a chenedlaethau'r dyfodol, ac mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol datblygu modelau gofal iechyd cynaliadwy. Bydd ein dull yn adlewyrchu gweithgarwch a gweithredu atal sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae gan Cymru Iachach uchelgais i bawb yng Nghymru fyw bywydau hir, iach, hapus ac mae'n pennu'r cyfeiriad polisi ar gyfer sut y bydd y system iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni modelau gofal cynaliadwy. Mae gofal iechyd cynaliadwy yn cyflawni gofal o ansawdd uchel heb niweidio'r amgylchedd, yn fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol, ac yn sicrhau effaith gymdeithasol gadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys symud gwasanaethau allan o'r ysbyty i gymunedau, cael mwy o wasanaethau sy'n atal pobl rhag mynd yn sâl drwy ganfod pethau'n gynharach, neu eu hatal yn llwyr. Bydd hyn yn cynnwys helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u salwch hirdymor eu hunain. Mae hefyd yn golygu gwneud pethau'n haws i bobl barhau i fod yn egnïol ac yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau.

2.4.2 Trosolwg - pam mae hyn yn flaenoriaeth

Mae mwy o bobl yng Nghymru yn byw'n hirach ac mae angen mwy o ofal iechyd a chymdeithasol arnynt nag o'r blaen, ond mae adnoddau o dan bwysau. Mae poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldebau o ran iechyd a chanlyniadau iechyd ac etifeddiaeth o faterion o ganlyniad i bandemig Covid-19 wedi cyfuno i arwain at bwysau enfawr ar y system iechyd a gofal. Mae hyn yn cael effeithiau sylweddol ar gleifion a'u teuluoedd, gan gynnwys mewn perthynas â mynediad at driniaeth a'i phrydlondeb, niwed y gellir ei osgoi a chanlyniadau cyffredinol. Mae'r materion hyn yn debygol o gael eu heffeithio ymhellach gan bwysau uniongyrchol eraill, fel yr argyfwng costau byw, a fydd yn ehangu anghydraddoldebau ymhellach. Fel rhan o'r adferiad ar draws systemau o Covid-19, mae gennym gyfle i gynorthwyo datblygiadau a gwelliannau diriaethol yn enwedig mewn perthynas ag atal ac ymyrryd yn gynnar.

Mae'r pwysau presennol yn y GIG a gofal cymdeithasol yn cael effeithiau sylweddol ar ganlyniadau'r boblogaeth ac yn codi cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y system gyfan. Er bod sawl pwysau uniongyrchol, mae'n parhau'n hollbwysig ein bod yn canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar a thegwch i ddatblygu modelau gofal cynaliadwy sy'n diwallu anghenion y boblogaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, lleihau niwed a gwella canlyniadau.

Mae gennym rôl allweddol wrth gynorthwyo'r system iechyd a gofal i ddatblygu llwybrau integredig, sy'n canolbwyntio ar y person gyda ffocws ar ganlyniadau o ansawdd. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i gydlynu ymdrechion ar draws y system. Rhoddodd y pandemig ddysgu sylweddol mewn perthynas â chlefydau heintus yn y dyfodol a gallu asiantaethau perthnasol i ymateb, ar y cyd, i heriau gofal iechyd. Byddwn yn adeiladu ar y systemau effeithiol i sicrhau bod iechyd cyhoeddus a gofal iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni canlyniadau teg o ran iechyd y boblogaeth. Ceir tystiolaeth sylweddol o fanteision atal sylfaenol ac eilaidd wrth leihau nifer yr achosion o glefydau a morbidrwydd cysylltiedig, gan gynnwys llawer o ganserau a chlefyd cardiofasgwlaidd.

Drwy ddefnyddio dull gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus, byddwn yn ceisio blaenoriaethu adnoddau i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i'r boblogaeth o ran gofal iechyd, gan sicrhau bod gofal iechyd yn diwallu anghenion unigol a grŵp, gyda ffocws ar leihau anghydraddoldebau iechyd. Gallwn wella iechyd ar lefel y boblogaeth drwy atal a chanfod clefydau'n gynnar neu wella canlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd drwy fynediad at ymyriadau gofal iechyd neu driniaethau effeithiol a'u defnyddio.

2.4.3 Cwmpas

Mae'r flaenoriaeth hon yn ganolog i rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth symud cydbwysedd ein system iechyd a gofal yng Nghymru i ganolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar, a thegwch iechyd, er mwyn gwella canlyniadau i'n poblogaeth. Mae ein rôl a'n cwmpas o fewn y flaenoriaeth hon yn cynnwys:

- Rôl arweinyddiaeth wrth weithio gyda GIG Cymru ac asiantaethau gofal i gynorthwyo iechyd cyhoeddus yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar fesurau ataliol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Rôl glir ac amlwg mewn dull gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus yn genedlaethol ac yn lleol drwy ddatblygu Fframwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Gofal Iechyd o ran Iechyd Cyhoeddus mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol
- Rôl arweinyddiaeth i iechyd a gofal wrth argymell, cydlynu a chynorthwyo trawsnewid ar gyfer atal, ymyrryd yn gynnar, a thegwch i'w hymgorffori drwy gydol y llwybr iechyd a gofal cyfan, gan gynnwys ffactorau sy'n cyfrannu.
- Hyrwyddo dulliau o ddeall ein poblogaeth yn well a defnyddio asesiadau o effaith i nodi carfannau ‘mewn perygl’ i lywio dealltwriaeth o sut i gyflawni'r ymyriadau gwerth uchaf
- Mae nodi poblogaethau agored i niwed, grwpiau ar y cyrion ac anghydraddoldebau iechyd lleol a chynghori ar gomisiynu i ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd yn cymhwyso'r egwyddorion hyn i wasanaethau gofal iechyd a ddarparwn yn uniongyrchol e.e. rhaglenni sgrinio'r boblogaeth
- Arwain a chynorthwyo'r system gofal iechyd yng Nghymru i ddefnyddio ei rôl, fel sefydliadau angori, i ddylanwadu ac effeithio ar iechyd a llesiant

Byddwn yn cynorthwyo ein partneriaid drwy lywio, asesu a chynllunio anghenion iechyd poblogaethau wedi'u diffinio ac is-setiau'r poblogaethau hynny. Bydd hyn yn cynnwys ystyried effaith defnyddio dull ataliol i gynnwys atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol.

Byddwn hefyd yn galluogi ac yn paratoi adnoddau i gynorthwyo dull sy'n cael ei lywio a'i ysgogi gan ddata o ran cynllunio, gwneud penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth, gyda'r nod o sicrhau mynediad teg at wasanaethau gofal iechyd o ansawdd, sy'n canolbwyntio ar y person, integredig ac sy'n diwallu anghenion y boblogaeth ledled Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynorthwyo'r system ehangach i ddeall iechyd a llesiant yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar faich clefyd. Byddwn hefyd yn sicrhau dull cenedlaethol cyson o goladu data a rhannu deallusrwydd, gan gynnwys mewnwelediad ymddygiadol o'r boblogaeth, cleifion, clinigwyr a'r gweithlu ehangach.

Byddwn yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu fframwaith ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd, y gellir ei gymhwyso'n gyson ledled Cymru i fynd i'r afael ag amrywiad a thegwch mewn llwybrau gofal (e.e. archwiliad tegwch iechyd). Bydd hyn yn cynnal ansawdd o ran profiad y claf, diogelwch a chanlyniadau ac yn sicrhau defnydd effeithlon a seiliedig ar werthoedd o adnoddau drwy flaenoriaethu, arfarnu opsiynau a dull sy'n canolbwyntio ar effaith, gan ystyried gwerthuso economaidd ac adenillion ar fuddsoddi.

Byddwn hefyd yn cynorthwyo trawsnewid gofal sylfaenol. Drwy arwain a datblygu adnoddau Unwaith i Gymru, gallwn sicrhau bod lensys gwella iechyd y boblogaeth, gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus a lleihau anghydraddoldebau yn llywio ac yn llunio diwygio gofal sylfaenol ehangach yng Nghymru. Byddwn hefyd yn rhoi arweinyddiaeth i gynorthwyo gwelliant parhaus mewn diogelu ar draws GIG Cymru, gan ganolbwyntio ar fwy o ddefnydd o fethodolegau a dulliau gwella ansawdd, gan ddysgu gyda GIG Cymru wrth gadw arweinyddiaeth gydweithredol o Rwydwaith Diogelu GIG Cymru.

2.4.4 Sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Erbyn 2035, byddwn wedi sicrhau'r canlynol:

- Cynorthwyo'r system i symud y cydbwysedd iechyd a gofal tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar
- Sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i atal morbidrwydd clefydau drwy ganolbwyntio ar atal eilaidd a rhyngweithio rhwng iechyd a gofal, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n deg
- Gofal â chymorth yn symud yn agosach i gartref, gan sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y person
- Darparu data, dadansoddi, tystiolaeth ymchwil a gwerthuso i wella iechyd a llesiant Cymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd
- Cynorthwyo ein partneriaid i ddefnyddio maint, graddfa a chyrhaeddiad y GIG i ddylanwadu'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant cymunedau

2.4.5 Canlyniadau

Byddwn yn gweithio i gynorthwyo'r canlyniadau canlynol ar draws systemau:

- Cynyddu nifer yr oedolion o oed gweithio sydd mewn iechyd da (Llinell Sylfaen: 79.6%, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)

- Cynyddu cyfran yr oedolion o oed gweithio heb salwch cyfyngol hirdymor (Llinell Sylfaen: 60.1%, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)
- Cynyddu nifer y bobl hŷn mewn iechyd da (Llinell Sylfaen: 66.6%, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)
- Cynyddu cyfran y bobl hŷn heb salwch cyfyngol hirdymor (Llinell Sylfaen: 33.3%, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)

2.4.6 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

SO4.1 Erbyn 2026, Byddwn yn datblygu fframwaith ar gyfer rôl arweinyddiaeth systemau Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar.

Yn dilyn adolygiad cychwynnol o weithgarwch gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, byddwn yn datblygu fframwaith ar gyfer rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru yn lleol ac yn genedlaethol. Bydd y fframwaith yn seiliedig yn bennaf ar waith presennol a gwaith sy'n bodoli eisoes ar draws y sefydliad gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, ond bydd hefyd yn disgrifio meysydd newydd o ddatblygu er mwyn helpu i gryfhau'r gwaith o gydlynu ac arweinyddiaeth gweithgarwch gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus, gydag eglurder ynghylch cwmpas ymarfer, canlyniadau a fwriedir a ffyrdd o weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys byrddau iechyd, Gweithrediaeth y GIG a Llywodraeth Cymru. Bydd y fframwaith hefyd yn egluro'r safbwynt sefydliadol ac arweinyddiaeth weithredol swyddogaeth gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

SO4.2 Erbyn 2026, byddwn wedi sefydlu rôl arweiniol o ran defnyddio dulliau ac offer Gwerth Cymdeithasol, economeg iechyd a modelu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a blaenoriaethu buddsoddi tuag at wella iechyd y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau ac adeiladu Economi Llesiant yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith gwerth cymdeithasol ac economeg iechyd a ddechreuwyd cyn pandemig Covid-19, gan adlewyrchu heriau parhaus a heriau sy'n dod i'r amlwg o Covid-19, y cynnydd o ran costau byw, newid hinsawdd, baich clefyd, anghydraddoldebau iechyd a phwysau cynyddol ar y system iechyd. Byddwn yn helpu i gryfhau ein rôl genedlaethol a byd-eang fel safle arloesi byw ar gyfer gwario a buddsoddi mewn iechyd a llesiant sy'n gynaliadwy, ac yn seiliedig ar werth a thegwch, gan archwilio, datblygu, treialu a hyrwyddo economeg newydd a dulliau ac offer amlddisgyblaethol. Byddwn yn parhau i gynorthwyo rôl ryngwladol arweiniol Cymru wrth adeiladu Economïau Llesiant gyda'r sector iechyd fel ei ysgogydd allweddol, gweithio gyda phartneriaid a rhwydweithiau allweddol, fel Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, Sefydliad Iechyd y Byd, IANPHI, EuroHealthNet a grwpiau arbenigol economeg rhyngwladol.

SO4.3 Erbyn 2026, byddwn wedi trawsnewid canlyniadau diogelwch cenedlaethol drwy welliannau amlwg a mesuradwy ar lefel system o ran ansawdd a diogelwch

Y nod yw cynnig galluogwyr ac offer seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant gwasanaeth ac sy'n helpu i greu'r amodau ar gyfer gwella. Rydym yn helpu'r gwasanaeth gyda'i waith i leihau amrywiad a chynyddu dibynadwyedd mewn prosesau gofal a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n effeithio ar ddiogelwch ac y mae diogelwch yn effeithio arnyn nhw a heriau'r pandemig. Mae'r Fframwaith ar gyfer Gofal Diogel, Effeithiol a Dibynadwy yn sail i'r dull (Sefydliad Gwella Gofal Iechyd, 2017).

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau i gymhwyso'r galluogwyr hyn i wneud gwelliannau ac arloesi yn y meysydd ansawdd a diogelwch ar draws systemau sy'n bwysig iddynt ac yn cynorthwyo'r gwaith o ymgorffori gwelliannau clinigol a gweithredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddwn hefyd yn gweithio i gymhwyso'r dull hwn i flaenoriaethau strategol ar gyfer gwella ac arloesi yn ein sefydliad ein hunain. Gan ddefnyddio Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru, mae sefydliadau'n cael hyfforddiant wedi'i deilwra a dwys i gynorthwyo'r gwaith o ledaenu'r gwelliannau a maint y gwelliannau.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau iechyd a gofal i'w galluogi i gyflawni gwelliannau ar draws systemau yn y nod pedwarplyg. Mae strategaeth mesur Gwelliant Cymru yn sail i'n holl waith sy'n defnyddio teulu o fesurau sy'n gyson â'r nod pedwarplyg i ddangos effaith a gwerth a llywio ein dull.

Byddwn yn gwerthuso'n allanol effaith y Fframwaith Cyflawni a dull rhanbarthol o alluogi sefydliadau i gyflawni gwelliannau o ran ansawdd a diogelwch. Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'n rhanddeiliaid i rannu cynnydd a dangos effaith. Bydd effaith ein cymorth yn cael ei mesur drwy'r canlynol:

- Canlyniadau Iechyd – mae Sefydliadau sy'n gweithio gyda ni yn cyflawni gwell canlyniadau cynaliadwy yn y chwe pharth ansawdd

- Profiad o weithio gyda ni – Nifer uwch o sefydliadau'n cymryd rhan weithredol mewn gwella gyda ni a phrofiad mwy cadarnhaol o weithio gyda ni

- Profiad o weithio i ni – Profiad mwy cadarnhaol o weithio i ni

SO4.4 Erbyn 2026, Bydd sefydliadau wedi cyflawni dull aeddfed a chynaliadwy o adeiladu eu gallu i wella a'i gymhwyso i'w blaenoriaethau ansawdd a diogelwch lleol

Mae ansawdd ar draws systemau yn ei gwneud yn ofynnol cael arweinyddiaeth sy'n gweddnewid sydd ag ansawdd wrth wraidd ei dull strategol o reoli'r sefydliad. Mae'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch (2021) yn nodi'r dyhead ar gyfer gwasanaeth iechyd a gofal dan arweiniad ansawdd, ac mae angen i sefydliadau weithredu o fewn system rheoli ansawdd effeithiol. Gan weithio gyda nifer o bartneriaid strategol y DU, byddwn yn hyrwyddo dull cyffredin ar draws y DU i arwain, cynorthwyo a chynnal gwelliant. Rydym yn cymryd yr hyn a ddysgir o sefydliadau sy'n perfformio'n dda a gweithio gydag arweinwyr systemau i nodi eu blaenoriaethau ansawdd a diogelwch strategol ar draws systemau a'u galluogi i adeiladu a chysoni eu gallu i wella er mwyn cyflawni trawsnewid yn y blaenoriaethau hyn. Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae hyn yn cael ei gyflawni drwy'r fethodoleg 'Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol'.

Nod Academi Gwelliant Cymru yw i bawb yn GIG Cymru gael mynediad at sgiliau gwella â sicrwydd ansawdd, adnoddau a fframwaith galluogrwydd ategol erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Bydd yr Academi yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau i greu'r amodau, creu'r cysylltiadau a meithrin y gallu i wella fel sgìl craidd ar draws y system gyfan.

SO4.5 Erbyn 2026, byddwn wedi cynorthwyo GIG Cymru i wella a thrawsnewid ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau diogelu ar gyfer pobl Cymru.

Byddwn yn disgrifio'n glir y weledigaeth genedlaethol ar gyfer trawsnewid y system ddiogelu, a sut beth yw diogelu, i gyd-fynd â Fframwaith Ansawdd a Diogelwch 2021 drwy weithio gyda'n rhanddeiliaid a deall eu hanghenion. Bydd hyn yn llywio ffocws y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn ailadroddol gan weithio ar y cyd ag arweinwyr polisi, y Rhwydwaith Diogelu Cenedlaethol ac eraill i ysgogi gwelliannau ansawdd o ran diogelu. Byddwn yn nodi sut y gellir penderfynu gwelliannau mesuradwy fel bod gennym ddata mwy dibynadwy i ddeall yn well a yw gwasanaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn amserol a gwella'r profiad a'r canlyniadau i bobl. Mae'r offeryn Matrics Aeddfedrwydd Diogelu (SMM) wedi'i ddiwygio i fod yn addas at y diben yn sgil Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020) a Fframwaith Ansawdd a Diogelwch 2021. Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaethau amlasiantaethol i gytuno ar set ddata safonol genedlaethol i roi tystiolaeth o ansawdd mewn gweithgarwch diogelu yn sefydliadol ac yn genedlaethol. Gyda'n gilydd, byddwn yn ystyried swyddogaeth o adrodd amser real dibynadwy, themâu a thueddiadau, risgiau a blaenoriaethau, gan roi cyfle i driongli data a dathlu rhagoriaeth. Wedi'u coladu a'u dwyn ynghyd yn y dangosfwrdd diogelu cenedlaethol, bydd y data yn cyfrannu at y fframwaith gwella ansawdd a sicrwydd cenedlaethol.

SO4.6 Erbyn 2026, byddwn wedi cyflawni'r cyfraniad iechyd cyhoeddus at y rhaglen genedlaethol ar gyfer trawsnewid a gofal sylfaenol

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i weithredu'r fframwaith gwerthuso cenedlaethol i asesu effaith y Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Meysydd ffocws penodol fydd darparu cyngor iechyd cyhoeddus arbenigol ac arweinyddiaeth systemau, gwaith i wella iechyd y boblogaeth, gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus a lensys lleihau anghydraddoldebau yn llywio ac yn llunio trawsnewid gofal sylfaenol yng Nghymru, gan adeiladu capasiti a gallu'r gweithlu gofal sylfaenol i addasu a ffynnu mewn rolau newydd a datblygu sgiliau iechyd cyhoeddus a dylanwadu ar y system ehangach i alluogi gofal sylfaenol i gymryd camau yn erbyn newid hinsawdd.

SO4.7 Erbyn 2026, byddwn wedi cyflawni dull cydgysylltiedig o atal ac ymyrryd yn gynnar mewn lleoliadau gofal sylfaenol

Byddwn yn sicrhau bod iechyd cyhoeddus a gofal sylfaenol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni canlyniadau iechyd y boblogaeth, gan gynnwys drwy gyngor cydgysylltiedig, cymorth a mynediad at wybodaeth, amrywiaeth o adnoddau penodol i glystyrau a datblygu a gweithredu Fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

SO4.8 Erbyn 2026, byddwn wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid systemau eraill i gynyddu atal drwy ofal deintyddol sylfaenol a chynorthwyo'r gwaith o ddiwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru

Yn unol â'r weledigaeth a amlinellwyd yn Cymru Iachach a chynllun Llywodraeth Cymru i drawsnewid y system iechyd a gofal sylfaenol yng Nghymru, byddwn yn darparu arbenigedd iechyd deintyddol cyhoeddus i ddiwygio gofal deintyddol sylfaenol yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ymgorffori atal priodol drwy'r gofal deintyddol sylfaenol a lleihau'r Ddeddf Gofal Wrthgyfartal. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid systemau i sicrhau bod systemau ansawdd a diogelwch yn eu lle gan gynnwys sicrhau bod gwella ansawdd ym maes deintyddiaeth yn gyson â'r diwygio deintyddol yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gydag AaGIC a phartneriaid eraill i sicrhau bod hyfforddiant priodol ar atal a gwella ansawdd ar gael i'r gweithlu deintyddol yng Nghymru.

Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

Amcan	Cerrig milltir
SO4.1 Erbyn 2026, Byddwn yn datblygu fframwaith ar gyfer rôl arweinyddiaeth systemau Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar.	2023-24 Chwarter 2 • Datblygu Fframwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Gofal Iechyd o ran Iechyd Cyhoeddus mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys byrddau iechyd, Gweithrediaeth y GIG a Llywodraeth Cymru Chwarter 3 • Rhoi cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu polisi i gynorthwyo cleifion sy'n aros am apwyntiadau ac ymyriadau
SO4.2 Erbyn 2026, Byddwn wedi sefydlu rôl arweiniol wrth ddefnyddio dulliau ac offer Gwerth Cymdeithasol, economeg iechyd a modelu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a blaenoriaethu buddsoddiad tuag at wella iechyd y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau ac adeiladu Economi Llesiant yng Nghymru.	2023-24 Chwarter 2 • Cwblhau Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI) cyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynorthwyo atal o ran iechyd rhywiol a gwella'r defnydd o ddulliau seiliedig ar werthoedd ledled Cymru • Cynorthwyo adeiladu Economi Llesiant gydag iechyd a thegwch yn sail iddi gyda Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd, gan gyflawni yn unol â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cymru/Sefydliad Iechyd y Byd Chwarter 3 • Cyflwyno dosbarth meistr 'Gwerth mewn Iechyd Cyhoeddus' er mwyn helpu i adeiladu gallu sefydliadol a'r GIG wrth asesu gwerth cyfrannol a'r effaith ar lesiant Chwarter 4 • Cynorthwyo adeiladu Economi Llesiant gydag iechyd a thegwch yn sail iddi gyda Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd, gan gyflawni yn unol â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cymru/Sefydliad Iechyd y Byd. Datblygu Pecyn Cymorth Systemau 'Buddsoddi mewn Iechyd y Boblogaeth a Llesiant' i gynorthwyo newid cyllideb y GIG tuag at atal 2024-25 • Datblygu ac ehangu'r Gronfa Ddata ac Efelychwr Gwerth Cymdeithasol (SVDS) ar gyfer iechyd cyhoeddus • Sefydlu 'cymuned ymarfer' ar werth cymdeithasol ac effaith o ran llesiant ar draws y GIG a Chymru yn ehangach • Cyhoeddi adroddiad terfynol Cost Anghydraddoldeb Iechyd i'r GIG yng Nghymru 2025-26 • Gallu a chapasiti wedi'u hadeiladu ar draws y sefydliad a'r GIG i gymhwyso Gwerth Cymdeithasol i iechyd cyhoeddus • Cwblhau asesiad canlyniadau ac effaith y Gronfa Ddata ac Efelychwr Gwerth Cymdeithasol • Gweithio gyda Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus a Chyfarwyddwyr Cyllid i bennu cwmpas y cynllun gwaith ar gyfer y dyfodol er mwyn nodi'r heriau buddsoddi sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru
SO4.3 Erbyn 2026,	2023-24 Chwarter 1

Byddwn wedi trawsnewid canlyniadau diogelwch cenedlaethol drwy welliannau ansawdd a diogelwch amlwg a mesuradwy ar lefel system	• Cytuno ar amserlen hyfforddi arfaethedig gyda'r rhwydwaith Canser
	Chwarter 2
	• Lansio pecyn offer newid ymddygiad a chynorthwyo'r gwaith o ledaenu gwelliannau diogelwch yn y Gydweithredfa Gofal Diogel
	Chwarter 3
	• Datblygu cynlluniau pontio i gynorthwyo'r gwaith o ffurfio ac integreiddio Gweithrediaeth y GIG
	Chwarter 4
	• Lansio system rhybudd cynnar prawf o gysyniad ar gyfer dadansoddeg diogelwch • Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol yn erbyn cynllun gwaith Labordy Q Cymru mewn partneriaeth â'r Sefydliad Iechyd • Cyflwyno Adroddiadau Blynyddol i Lywodraeth Cymru ar gyfer CLG Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu
	2024-25
	• Cyflawni cynhadledd genedlaethol bob dwy flynedd Gwelliant Cymru i arddangos a rhannu dysgu • Cwblhau ymweliadau safle diagnostig, nodi blaenoriaethau diogelwch a lansio Cydweithredfa Gofal Diogel 2 • Datblygu model cynaliadwy ar gyfer Labordy Q Cymru mewn partneriaeth â'r Sefydliad Iechyd • Cynorthwyo maint gwelliannau diogelwch cleifion a nodwyd yng Nghydweithredfa Gofal Diogel 1 a datblygu cynlluniau gadael a chynaliadwyedd • Cyflwyno'r Adroddiadau Blynyddol i Lywodraeth Cymru ar gyfer CLG Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu • Cwblhau'r gwaith o gysoni cynlluniau gwaith a blaenoriaethau Gwelliant Cymru a Gweithrediaeth y GIG • Adrodd ar ganfyddiadau blwyddyn un o'r gwerthusiad allanol o weithredu Gofal Diogel Gyda'n Gilydd • Adroddiad terfynol gan y gwerthusiad allanol o weithredu Gofal Diogel Gyda'n Gilydd
	2025-26
	• Cyflwyno'r Adroddiadau Blynyddol i Lywodraeth Cymru ar gyfer CLG Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu
SO4.4 Erbyn 2026, Bydd sefydliadau wedi cyflawni dull aeddfed a chynaliadwy o adeiladu eu gallu i wella a'i gymhwyso i'w blaenoriaethau ansawdd a diogelwch lleol	2023-24
	Chwarter 1
	• Datblygu cynllun hyfforddi i gynorthwyo sefydliadau i ddatblygu eu gallu i wella • Cyflwyno dysgu mewn fforymau yn y DU ac yn rhyngwladol • Datblygu cynllun ar sut y mae Cymru yn cael ei chynrychioli a chyfrannu at ddull gwella'r DU o ran diogelwch drwy gymryd rhan mewn rhwydweithiau, fforymau a phartneriaethau.
	Chwarter 4
	• Cyflawni cymorth parhaus i ddatblygiad strategol Rhwydwaith Q y Sefydliad Iechyd
	2024-25
	• Casglu adborth o'r system a chreu cynllun hyfforddi i gynorthwyo a datblygu gallu i wella er mwyn cynorthwyo blaenoriaethau diogelwch.
SO4.5 Erbyn 2026,	2023-24
	Chwarter 1

Byddwn wedi cynorthwyo GIG Cymru i wella a thrawsnewid ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau diogelu i bobl Cymru.	• Diweddaru'r Offeryn Matrics Aeddfedrwydd Diogelu yn unol â chanllawiau'r Ddyletswydd Ansawdd wrth baratoi ar gyfer Adrodd Ansawdd Blynyddol gan sefydliadau.
	Chwarter 2
	• Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru gyda'r dysgu'n cael ei rannu o welliannau ansawdd ac arloesi ar draws GIG Cymru
	Chwarter 3
	• Cyd-greu fframwaith i gynorthwyo GIG Cymru wrth ddatblygu ei strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd mewn diogelu
	Chwarter 4
	• Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru yn cyd-greu datganiad ansawdd mewn diogelu.
	2024-25
	• Cytuno ar set ddata safonol genedlaethol sy'n cynnwys dangosyddion caled a meddal i roi tystiolaeth o ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd yng ngwasanaethau diogelu'r GIG
	2025-26
	• Dangosfwrdd diogelu cenedlaethol o ddata amser real dibynadwy sy'n cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu adrodd 'ar waith bob amser' yn unol â'r ddyletswydd Ansawdd a gyhoeddwyd
SO4.6 Erbyn 2026, Byddwn wedi cyflawni'r cyfraniad iechyd cyhoeddus at y rhaglen genedlaethol ar gyfer trawsnewid gofal sylfaenol	2023-24
	Chwarter 2
	• System yn ei lle i gynorthwyo'r gwaith o fonitro a gwerthuso'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru (PCMW) • Pennu cwmpas ac adolygu'r gyfres o atebion Unwaith i Gymru, adnoddau a chymorth ar gyfer gofal sylfaenol a chlystyrau
	Chwarter 3
	• Pennu cwmpas cyfraniad gofal sylfaenol at fynd i'r afael a chynorthwyo gwella iechyd y boblogaeth, gofal iechyd o ran iechyd cyhoeddus ac anghydraddoldebau a datblygu cynllun ar gyfer cyflawni
	Chwarter 4
	• Gwneud cyngor iechyd cyhoeddus arbenigol, cymorth a chyfraniad at y system iechyd a gofal ehangach gan ganolbwyntio'n benodol ar y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol (SPPC) a diwygio contractau • Meithrin capasiti, gallu a sgiliau'r gweithlu gofal sylfaenol ar draws meysydd pwnc blaenoriaeth iechyd cyhoeddus drwy amrywiaeth o ddulliau • Dylanwadu ar bolisi a darparu arweinyddiaeth systemau a chydlynu ar draws gofal sylfaenol ac iechyd cyhoeddus i ddatblygu a gwella gweithio ar y cyd ac integredig i gyflawni gofal iechyd effeithiol, o ansawdd uchel a chynaliadwy hirdymor • Adnewyddu ac ail-lansio/cyhoeddi cyfres o atebion Unwaith i Gymru, adnoddau a chymorth ar gyfer gofal sylfaenol a chlystyrau. • Wedi gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar y system ehangach, darparu arweinyddiaeth systemau a pharhau i ddatblygu'r fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddarch a'r cynllun gwobrwyo i alluogi darparwyr gofal sylfaenol i gymryd camau gweithredu yn erbyn newid hinsawdd.
	2024-25
	• Eitemau cyflawnadwy yn dibynnu ar flaenoriaethau cydgynhyrchu'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a phartneriaid ehangach

	2025-26
	• Eitemau cyflawnadwy yn dibynnu ar flaenoriaethau cydgynhyrchu'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a phartneriaid ehangach
SO4.7 Erbyn 2026, Byddwn wedi cyflawni dull cydgysylltiedig o atal ac ymyrryd yn gynnar mewn lleoliadau gofal sylfaenol.	2023-24
	Chwarter 1
	• Mireinio 'dull cydgysylltiedig o atal mewn lleoliadau iechyd a gofal' gyda chyfraniad gan randdeiliaid • Datblygu allbynnau 'Diwallu anghenion iechyd a llesiant drwy bresgripsiynu cymdeithasol'
	Chwarter 2
	• Pennu cwmpas cynllun gweithredu i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol • Cyhoeddi allbynnau 'Diwallu anghenion iechyd a llesiant drwy bresgripsiynu cymdeithasol'
	Chwarter 3
	• Dechrau'r gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu presgripsiynu cymdeithasol • Cyhoeddi a lledaenu 'dull cydgysylltiedig o atal mewn lleoliadau iechyd a gofal'
	Chwarter 4
	• Cynorthwyo'r gwaith o weithredu 'dull cydgysylltiedig o atal mewn lleoliadau iechyd a gofal'
	2024-25
	• Parhau i ymgorffori 'dull cydgysylltiedig o atal mewn lleoliadau iechyd a gofal' • Adolygu'r gweithgarwch sydd ei angen i gyflawni'r cynllun gweithredu presgripsiynu cymdeithasol
	2025-26
	• Asesu nifer y rhai sy'n manteisio ar 'ddull cydgysylltiedig o atal mewn lleoliadau iechyd a gofal' a sut y mae'n cael ei weithredu • Asesu'r gwaith o weithredu'r cynllun gweithredu presgripsiynu cymdeithasol
SO4.8 Erbyn 2026, Byddwn wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid systemau eraill i gynyddu atal drwy ofal deintyddol sylfaenol a chynorthwyo'r gwaith o ddiwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru	2023-24
	Chwarter 4
	• Gweithio gyda'r partneriaid systemau i barhau i gynorthwyo'r Rhaglen Ddiwygio GDS a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a pharhau i ddarparu arweinyddiaeth iechyd deintyddol cyhoeddus, arbenigedd a chymorth i ffrydiau gwaith amrywiol y rhaglen • Darparu cyngor a chymorth iechyd deintyddol cyhoeddus i fyrddau iechyd wrth gynllunio ar gyfer adfer a gwella gwasanaethau iechyd y geg a deintyddol
	2024-25
	• Cefnogi byrddau iechyd a phartneriaid eraill wrth weithredu contract GDS newydd yn enwedig ei gydran atal (yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn cyflwyno contract deintyddol newydd yn 2024) • Cynghori a chynorthwyo Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill mewn dysgu parhaus a diwygio systemau y tu hwnt i newidiadau yn y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru
	2025-26

	• Gweithio gyda'r partneriaid i ddeall effaith diwygio deintyddol gofal sylfaenol yng Nghymru i ddylanwadu ar bolisi deintyddol ac iechyd y geg Llywodraeth Cymru a llywio'r polisi hwn a chynlluniau strategol cysylltiedig yng Nghymru

2.5 Blaenoriaeth Strategol 5 - Darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r boblogaeth

2.5.1 Cyflwyniad

Mae diogelu'r cyhoedd rhag effeithiau heintiau ac amlygiad i broblemau amgylcheddol, fel llygredd aer, a chyflawni ein rhaglenni sgrinio cenedlaethol yn gyfrifoldebau craidd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae ein statws ymatebwr Categori 1 yn dangos ein rôl o ran diogelu'r cyhoedd yn erbyn afiechyd a gweithio gyda'n partneriaid i liniaru risgiau i iechyd pobl. Rydym yn gweithio i ddiogelu iechyd pobl Cymru drwy ddarparu nifer o wasanaethau diogelu iechyd a rheoli heintiau, a rhaglenni sgrinio cenedlaethol.

Rydym yn darparu, yn monitro, ac yn gwerthuso saith rhaglen sgrinio sy'n seiliedig ar y boblogaeth ac yn cydlynu rhwydwaith clinigol a reolir Cymru gyfan ar gyfer sgrinio cynenedigol. Nodau'r rhaglenni yw naill ai lleihau nifer yr achosion o glefyd (e.e. sgrinio serfigol) neu wella diagnosis cynnar i leihau effaith y clefyd (e.e. sgrinio'r fron).

2.5.2 Trosolwg – pam mae hyn yn flaenoriaeth

Mae diogelu iechyd poblogaeth Cymru yn erbyn heintiau a bygythiadau amgylcheddol yn allweddol i gyflawni Cymru iachach. Roedd pandemig Covid-19, a'i oblygiadau parhaus, wedi tynnu sylw at y bygythiad difrifol i iechyd yn sgil clefydau trosglwyddadwy ac atgyfnerthu pam y bydd amddiffyn iechyd a diogelu iechyd, o fewn realiti newidiol byd rhyng-gysylltiedig, yn parhau'n flaenoriaeth iechyd cyhoeddus.

Yn fyd-eang, mae'r pandemig wedi dangos mor rhyng-gysylltiedig yr ydym ag eraill, a sut y mae'n rhaid i ni fod yn barod i weithredu ar fygythiadau byd-eang i iechyd, gan gynnwys chwilio'r gorwelion ar gyfer bygythiadau yn y dyfodol. Byddwn yn ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o bandemig Covid-19 a sicrhau ein bod mor barod ag y gallwn fod ar gyfer bygythiadau yn y dyfodol. Mae bygythiadau byd-eang sylweddol, fel ymwrthedd gwrthficrobaidd lle mae heintiau'n mynd yn fwy anodd eu trin â chyffuriau, yn un bygythiad byd-eang o'r fath a rhaid i ni ganolbwyntio ein gwasanaethau ar ei leihau. Bydd ein gallu i gysylltu â'n partneriaid byd-eang i fod yn ymwybodol o fygythiadau i iechyd wrth iddynt ddod i'r amlwg a rhoi systemau ar waith i fynd i'r afael â nhw yn bwysig wrth i ni weithio i ddiogelu iechyd cenedlaethau'r dyfodol.

Ar gyfer y rhaglen sgrinio iechyd y boblogaeth, byddwn yn darparu gwasanaethau rhagorol sy'n ddiogel, yn effeithiol, yn canolbwyntio ar bobl, yn amserol, yn effeithlon ac yn deg i sicrhau bod ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gwella iechyd y boblogaeth yng Nghymru Mae canser yn un o achosion arweiniol marwolaeth yn fyd-eang ac yng Nghymru ac mae modd gwella nifer o ganserau os byddant yn cael eu canfod yn gynnar a'u trin yn effeithiol. Rydym yn darparu, yn monitro, ac yn gwerthuso saith rhaglen sgrinio sy'n seiliedig ar y boblogaeth, ac yn cydlynu rhwydwaith clinigol a reolir Cymru gyfan ar gyfer sgrinio cynenedigol. Ein nodau, yn dibynnu ar y rhaglen benodol, yw naill ai lleihau nifer yr achosion o glefyd (e.e. sgrinio serfigol) neu wella diagnosis cynnar i leihau effaith y clefyd (e.e. sgrinio'r fron).

Mae sut rydym yn darparu ein gwasanaethau i ddiogelu iechyd pobl Cymru yn hollbwysig. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn amlygu'r ddyletswydd ansawdd sydd gennym i ddarparu gofal iechyd diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y person, amserol, effeithlon a theg yng nghyd-destun diwylliant dysgu, a chredwn y bydd darparu ein gwasanaethau o dan y fframwaith hwn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl Cymru.

2.5.3 Cwmpas

Rydym wedi diffinio rhagoriaeth drwy ddimensiynau ansawdd y Sefydliad Meddyginiaethau, sydd hefyd yn cael eu defnyddio yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Y rhain yw:

- Diogelwch – Dylai gwasanaethau allu dangos drwy dystiolaeth gadarn eu bod yn ddiogel, a bod ymyriadau'n cynnig mwy o fudd na risg
- Effeithiolrwydd – Dylai gwasanaethau gael diwylliant o ymyrryd sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Canolbwyntio ar y claf - Dylai gwasanaethau allu dangos eu bod yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn rhagweithiol â rhanddeiliaid a derbynwyr gwasanaethau i asesu eu profiadau fel rhan o broses barhaus o wella gwasanaethau.
- Amseroldeb – Dylai gwasanaethau allu ymateb mewn ffordd amserol
- Effeithlonrwydd – Dylai gwasanaethau allu dangos bod effeithiau ar iechyd y boblogaeth yn cael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithlon
- Tegwch – Dylai gwasanaethau gydymffurfio ag egwyddor sy'n penderfynu beth sy'n gyfiawn ac yn deg wrth ddosbarthu gofal iechyd

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd arloesi a gwella'n gwasanaethau'n barhaus a meddu ar fesurau rhagoriaeth ychwanegol:

- Arloesedd/gwelliant parhaus – byddai gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol bob amser yn ceisio arloesi a gwella er mwyn cyflawni rhagoriaeth
- Addysg a hyfforddiant – er mwyn darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol rhaid i ni fuddsoddi yn ein staff, gan sicrhau bod ganddynt y set sgiliau cywir i gyflawni rhagoriaeth
- Cydweithio mewnol ac allanol – byddai gwasanaethau iechyd rhagorol yn rhai sy'n cydweithio ar draws y sefydliad a'r system iechyd cyhoeddus i gyflawni canlyniadau dymunol

Mae'r flaenoriaeth strategol hon yn canolbwyntio ar ddarparu'r holl wasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd a chleifion a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar sgrinio, diogelu iechyd a microbioleg. Fodd bynnag, wrth i ni weithredu ein strategaeth, byddwn hefyd yn ceisio cymhwyso'r dull hwn i'n gwasanaethau iechyd cyhoeddus craidd eraill a ddarparwn.

Byddwn yn darparu rhaglenni sgrinio iechyd y boblogaeth i bobl Cymru er mwyn sicrhau ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella iechyd poblogaeth Cymru. Bydd ein rhaglenni sgrinio yn cael eu llywio gan argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Nod y rhaglenni yw naill ai lleihau nifer yr achosion o glefyd neu wella diagnosis cynnar i leihau effaith y clefyd. Mae cynnig teg o sgrinio i'r boblogaeth gymwys ond ceir amrywiad o ran nifer y rhai sy'n manteisio arno ac mae galluogi cydsyniad ar sail gwybodaeth i wella nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio a lleihau annhegwch yn flaenoriaeth allweddol. Roedd pandemig Covid-19 wedi effeithio'n fawr ar ein gallu i ddarparu ein rhaglenni sgrinio. Byddwn yn canolbwyntio ar adfer ein dwy raglen sgrinio sydd wedi'u hoedi o hyd drwy raglen uchelgeisiol a fydd yn croesawu'r defnydd o dechnoleg newydd, ynghyd â gweithredu dulliau newydd ac arloesi sy'n canolbwyntio ar wella arferion.

Gwasanaethau diogelu iechyd a heintiau

Mae ein dull o ymateb i heriau clefydau trosglwyddadwy yng Nghymru yn cynnwys darparu nifer o raglenni a gwasanaethau, ac amlygwyd pwysigrwydd y rhain yn ystod pandemig Covid-19. Mae gwersi a ddysgwyd o'r profiad wedi'u cymhwyso i'r Gwasanaeth Heintiau, gan gynnwys proses ar gyfer datblygu profion newydd yn gyflym a'u cyflwyno wedyn drwy'r rhwydwaith, pwysigrwydd profion lleol amserol i gynorthwyo gofal clinigol symptomatig a chadw capasiti digonol ar gyfer profi'r boblogaeth ar raddfa fawr i gynorthwyo polisi iechyd cyhoeddus y llywodraeth. Mae hyn yn golygu sicrhau'r gallu i gynyddu camau gweithredu ar fyr rybudd wrth sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn ystod cyfnodau busnes fel arfer.

Ym maes Diogelu Iechyd, rydym bellach wedi addasu ein model gweithredu yn ystod oriau a'r tu allan i oriau i ddarparu cymorth wedi'i dargedu a mwy effeithiol i'n defnyddwyr gwasanaethau, rydym hefyd yn y broses o fireinio a chryfhau ein meysydd swyddogaethol gan gofnodi'r holl wersi a ddysgwyd o bandemig Covid-19 yn benodol mewn rhai meysydd allweddol i gynnwys cymorth hyfforddiant ac arweiniad ar gyfer rheoli clefydau trosglwyddadwy, prosesau rheoli achosion a brigiad o achosion wedi'u symleiddio gydag asiantaethau partner fel awdurdodau lleol a gwasanaethau Llywodraeth Cymru. Byddwn hefyd yn adolygu ein parodrwydd o ran Cynllunio at Argyfyngau a Pharhad Busnes, gan ddiweddaru ein model a'n sbardunau ymchwydd sefydliadol yn unol â'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig.

Byddwn yn darparu'r rhain mewn ffordd integredig, i sicrhau mwy o gydnerthedd, cynaliadwyedd, a chapasiti ar draws ein cynnig gwasanaeth ehangach. Mae gennym rôl arweinyddiaeth systemau, gan weithio gyda'n partneriaid a'u cynghori ynghylch strategaethau i sicrhau diagnosis cynnar ac effeithiol o haint, trin haint yn gynnar ac yn effeithiol ac ymyriad effeithiol cynnar i reoli'r lledaeniad. Mae gwasanaethau allweddol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymateb, gan gynnwys y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy i ddeall effaith clefydau trosglwyddadwy ac ymyriadau ar boblogaeth Cymru.

Mae Covid-19 a heintiau anadlol eraill yn parhau i amlygu pwysigrwydd imiwneiddio fel yr ymyriad pwysicaf ar gyfer atal clefyd/llai o ddifrifoldeb o ran canlyniad, ochr yn ochr â rheoli brigiad o achosion a rheoli heintiau yn effeithiol. Mae'r Rhaglen Brechu a Chlefydau Ataliadwy yn cyflwyno dull cenedlaethol o imiwneiddio a brechu. Byddwn hefyd yn chwarae rhan annatod yn y system i ddiogelu iechyd pobl Cymru rhag bygythiadau amgylcheddol. Mae ein gwasanaethau iechyd cyhoeddus amgylcheddol yn sicrhau ein bod yn lleihau nifer y bobl sy'n

mynd yn sâl neu'n marw o ganlyniad i niwed amgylcheddol ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n cael manteision iechyd o amgylchedd da drwy eiriolaeth, arweiniad polisi, cyngor arbenigol a gwyliadwriaeth.

Bydd ein gwasanaethau microbioleg yn parhau i ddarparu gwasanaethau cynghori diagnostig a chlinigol o'r radd flaenaf a Gwasanaethau Microbioleg Arbenigol a Chyfeirio i gynorthwyo diagnosteg, gwyliadwriaeth a nodi a rheoli brigiad o achosion.

Arloesi a bygythiadau yn y dyfodol

Bydd ein gwasanaethau iechyd cyhoeddus bob amser yn ceisio arloesi a gwella er mwyn cyflawni rhagoriaeth. Mae genomeg iechyd cyhoeddus yn canolbwyntio ar boblogaethau, gwasanaethau iechyd a rhaglenni iechyd cyhoeddus yn hytrach na gofal clinigol unigol, drwy gymhwyso datblygiadau ym maes genomeg dynol a phathogen i wella iechyd cyhoeddus ac atal clefydau. Bydd y Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ein galluogi i arwain ar wella canlyniadau i bobl yng Nghymru ar lefel y boblogaeth. Byddwn yn parhau i arwain y gwaith o ddatblygu canllawiau Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd ar draws y GIG, gyda'r nod o leihau baich haint ac felly'r galw am gyffuriau gwrthficrobaidd.

2.5.5 Sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Erbyn 2035, byddwn wedi sicrhau'r canlynol:

- Darparu rhaglenni sgrinio iechyd y boblogaeth rhagorol, sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n gwella iechyd poblogaeth Cymru mewn ffordd deg
- Datblygu ac addasu rhaglenni sgrinio iechyd y boblogaeth yn unol â thystiolaeth bresennol ac archwilio arloesedd i wella llwybrau.
- Sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r rhaglen sgrinio coluddion ac yn darparu rhaglen sgrinio llygaid diabetig gynaliadwy a gwneud y gorau ohoni
- Galluogi'r gwaith o weithredu argymhellion newydd Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ar gyfer y boblogaeth yng Nghymru
- Profi llai o heintiau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol a defnyddio cyffuriau gwrthficrobaidd mewn ffordd briodol yn unig
- Darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar glinigwyr i gynyddu cyflymder diagnosis er mwyn gallu trin cleifion mewn ffordd amserol a chywir. Caiff hyn ei wneud drwy ddarparu ein gwasanaethau microbioleg gan ddefnyddio technegau o'r radd flaenaf, modern a ddatblygir drwy arloesi a gwella parhaus
- Disgrifio cymunedau sy'n wynebu risg uwch o niwed o glefyd trosglwyddadwy yn well gan arwain at ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau nifer y bobl sy'n mynd yn sâl neu'n marw o glefydau trosglwyddadwy a niwed amgylcheddol
- Darparu arweinyddiaeth systemau i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu rhaglenni imiwneiddio a brechu rhagorol, ac felly'n gweld llawer llai o bobl ag afiechyd oherwydd clefydau y gellir eu hatal gan frechlynnau

- Darparu gwybodaeth amserol ar gyfer gweithredu i darfu ar drosglwyddo a lleihau effaith clefydau trosglwyddadwy ar unigolion a gwasanaethau gofal iechyd

2.5.5 Canlyniadau

Byddwn yn gweithio i gynorthwyo'r canlyniadau canlynol ar draws systemau:

- Cyfraddau brechu uwch ar gyfer yr holl glefydau y gellir eu hatal gan frechlynnau
    - 90% yn manteisio ar HPV erbyn 15 oed (Llinell Sylfaen: 69.3%, Adroddiad COVER 145)
    - 95% yn manteisio ar MMR erbyn 2 oed yn seiliedig ar amserlen newydd (Llinell Sylfaen: 93%, Adroddiad COVER 145)
- Gostwng baich heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yng Nghymru i gyd-fynd â gweledigaeth 20 mlynedd Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y DU
    - haneru nifer yr heintiau llif gwaed sy'n gysylltiedig â gofal iechyd sy'n adweithio'n negatif i brofion Gram
- Gwneud y defnydd gorau o wrthficrobau a stiwardiaeth dda ar draws y sectorau gofal iechyd yng Nghymru i gyd-fynd â gweledigaeth 20 mlynedd Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y DU
    - gostyngiad 25% yn y defnydd o wrthfiotigau yn y gymuned (o linell sylfaen 2013)
- Dileu hepatitis B ac C fel bygythiad iechyd cyhoeddus erbyn 2030 (Llinell Sylfaen: tua 12,000 o unigolion wedi'u heintio â hepatitis C yn 2017, CIC/2017/048)
- Cynnydd yng nghyfran y canserau'r coluddyn a chanser y fron sy'n cael diagnosis ar gam cynnar
- Lleihau nifer yr achosion o ganserau ceg y groth
- Lleihau nifer yr achosion o golli golwg o retinopathi diabetig
- Lleihau marwoldeb o ymlediadau aortig abdomenol sy'n rhwygo

2.5.6 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

SO5.1 Erbyn 2026, gan weithio'n agos gyda'n partneriaid, bydd gennym fodel gwasanaeth y cytunwyd arno sy'n cynnwys galluoedd diagnostig a thriniaeth newydd ar gyfer clefydau heintus ac sydd â'r capasiti a'r sgiliau i gyflwyno ac ymgorffori arloesedd

Bydd datblygu ein gweithlu yn ganolog i ddarparu 'gwasanaethau rhagorol'. Bydd y ffocws ar ailgynllunio ein sefydliad a'n cymysgedd sgiliau i alluogi gwaith 'brig y drwydded' h.y., staff yn ymgymryd â gweithgareddau y gallan nhw yn unig ymgymryd â nhw. Byddwn yn glir ar y diben a'r canlyniadau gofynnol fel y caiff adnoddau eu defnyddio i gyflawni'r gofynion y cytunwyd arnynt. Yn ogystal, mae cyflwyno genomeg a'r cynnydd yn y defnydd ohoni yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn uwchsgilio staff ar draws y gwasanaeth i ddehongli data genomig a'u defnyddio. Fel rhan o ddatblygiad ein gweithlu, byddwn yn datblygu hyfforddiant penodol i ddechrau'r broses o uwchsgilio staff ym meysydd genomeg a biowybodeg, yn ogystal â cheisio cadw a datblygu staff ag arbenigedd presennol ym meysydd genomeg a biowybodeg. Bydd gwasanaethau hefyd yn archwilio rôl technoleg i gyflawni systemau busnes a gweithredu effeithlon sy'n adeiladu ar y systemau awtomeiddio labordai a rheoli stoc electronig presennol.

Bydd ein gwasanaethau'n darparu canlyniadau amserol ac ystyrlon i'n rhanddeiliaid a'n defnyddwyr gwasanaeth. Caiff hyn ei gyflawni trwy wneud y gorau o'r gweithlu a chyfarpar modern, sy'n addas at y diben. Byddwn yn gweithio gyda'r farchnad i nodi arloesedd a mabwysiadu technoleg newydd yn gynnar fel y dangosir drwy ehangu diagnosteg pathogen moleciwlau a genomau.

Byddwn yn cydweithio i ddarparu profion yn nes at y claf fel bod y canlyniadau mewn amser real a'u bod yn rhoi cynllun triniaeth cynharach, mwy diffiniol i'r tîm clinigol. Bydd hyn drwy ehangu gallu ein swyddogaethau Labordy Gwib, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid fel Timau Man Lle Rhoddir Gofal a staff Atal a Rheoli Heintiau.

Bydd natur amlbroffesiynol ein gwasanaeth clinigol yn parhau i dyfu ac amrywiaethu. Bydd hyn yn cynyddu capasiti a gallu'r timau clinigol ac yn gwneud y gorau o'u cyfraniad at y system ofal. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant meddygol a gwyddonol i gynyddu ein cyflenwad o staff a fydd gennym yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r system ofal wrth herio a lleihau baich ymwrthedd gwrthficrobaidd a heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd drwy ehangu ein gweithlu mewn clinigau. Bydd cynyddu ein capasiti o weithwyr proffesiynol gwybodus a medrus yn atgyfnerthu gweithgarwch Atal a Rheoli Heintiau. Bydd hyn yn cael ei wireddu drwy gynyddu ein gweithlu technegol yn y labordy, gan alluogi gweithlu gwyddonol arbenigol i gael ei ryddhau i'r timau clinigol.

Darperir y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Heintiau drwy'r dydd, bob dydd, sy'n adlewyrchu angen ein defnyddwyr gwasanaethau a'n rhanddeiliaid ac mae rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws y swyddogaethau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau arbenigol. Bydd y cyfleoedd hyn yn cael eu harchwilio a, phan fo modd, eu galluogi. Hyd yma, mae enghreifftiau wedi cynnwys y defnydd o labordai cyffredin a rolau hybrid yn cefnogi diogelu iechyd acíwt. Rhagwelir bod rhagor o gyfleoedd o ran ailddylunio'r gweithlu a chylchdroi staff i feithrin gwybodaeth gyffredin.

Ar draws y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Heintiau, byddwn yn ceisio parhau i ymateb i COVID-19 ac adfer meysydd gweithgarwch blaenoriaeth allweddol. Yn nodedig, byddwn yn ceisio canolbwyntio ar y canlynol:

- darparu ymateb acíwt cydnerth ac o ansawdd uchel i glefydau trosglwyddadwy ac achosion peryglus amgylcheddol
- darparu gwasanaethau diagnostig pathogen a gwasanaethau clinigol sy'n gysylltiedig â heintiau i'r system ofal
- cefnogi cynllun pontio hirdymor Cymru ar gyfer COVID-19 o bandemig i endemig
- rhaglen newid i gwblhau ailgynllunio ein gweithlu a'n model gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Heintiau
- creu Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus ac integreiddio gweithgarwch genomeg ar draws Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Heintiau drwy greu timau rhithwir sy'n croesi ffiniau adrannol
- cydweithredu fel rhan o Bartneriaeth Genomeg Cymru i nodi cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau ac integreiddio â phartneriaid eraill, gan gynnwys trosglwyddo gwasanaethau'r Uned Genomeg Pathogen (PenGU) i safle newydd Coryton, sef Cardiff Edge

SO5.2 Erbyn 2026, byddwn yn darparu arweinyddiaeth systemau effeithiol a dibynadwy ar amrywiaeth o risgiau dynodedig, gan gynnwys heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, ymwrthedd gwrthficrobaidd a chlefydau y gellir eu hatal drwy frechu

Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd yn fygythiad byd-eang ac, fel y cyfryw, mae ei leihau'n un o amcanion strategol allweddol ein gwasanaethau. Mae ein gwaith i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd dan arweiniad y Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi.

Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gan gynnwys ar reoli a thrin clefydau heintus ac, os nad eir i'r afael â hyn, bydd ymwrthedd gwrthficrobaidd cynyddol yn cael effaith andwyol ar iechyd pobl, gan fod heintiau ymwrthiannol yn arwain at gyfraddau marwolaethau uwch ac maent yn ddrutach i'w trin. Mae Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y DU, a gyhoeddwyd yn 2019, yn nodi'r angen brys i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd a, thrwy gylchoedd Cynlluniau Gweithredu Cenedlaethol 5 mlynedd, ei nod yw sicrhau gostyngiadau mewn ymwrthedd gwrthficrobaidd ar draws y DU.

Mae tîm y Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r cynllun gweithredu cenedlaethol pum mlynedd ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd. Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol presennol yn para hyd at 2024. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 5 mlynedd nesaf ar gyfer 2024 – 2029/30. Yn nodedig, byddwn yn ceisio ailddechrau gwaith i:

- gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r cynllun gweithredu cenedlaethol pum mlynedd ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd a chyfrannu at y cynllun cyflawni cenedlaethol presennol a gweithredu'r gydweithrediaeth genedlaethol ar gyfer heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd

- gweithio gyda Llywodraeth Cymru (yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o'r ymateb i'r pandemig) i adolygu'r cynnig imiwneiddio yng Nghymru a darparu arweinyddiaeth system i'r GIG drwy gymorth a chyngor uniongyrchol, hyfforddiant ac addysg, a deallusrwydd ar gyfer gweithredu
- parhau i ddarparu cyngor ac arweinyddiaeth wrth ddatblygu'r cynllun imiwneiddio ar gyfer Covid-19 a'r cynllun ffliw blynyddol. Byddwn yn parhau i weithio i leihau clefydau y gellir eu hatal drwy frechu, yn rhannol drwy wneud y gorau o ddarpariaeth frechu a gweithredu argymhellion Cynllun Gweithredu 2019-21 Tasglu Dileu'r Frech Goch a Rwbela Cymru a sicrhau ffocws penodol ar anghydraddoldebau o ran manteisio ar frechu
- gweithio gyda phartneriaid i gyflawni Meysydd Blaenoriaeth Iechyd Rhywiol 2020-2024, sy'n rhan o Fframwaith Canlyniadau GIG Cymru
- parhau i ganolbwyntio ar nod hirdymor Sefydliad Iechyd y Byd i ddileu Hepatitis C fel bygythiad i iechyd cyhoeddus wrth gyflwyno a monitro ymarfer ailymgysylltu Hepatitis C. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi byrddau iechyd a gofal sylfaenol, ac archwilio'r posibilrwydd ar gyfer ehangu rhagor o brosiectau
- gwella ymhellach ein deallusrwydd diogelu iechyd/gallu gwyliadwriaeth drwy gefnogi gwaith i ddatblygu a gweithredu gweithgareddau traws-sefydliadol i ddarparu adroddiadau gwyliadwriaeth a gwasanaethau diogelu iechyd gwell sy'n defnyddio allbynnau Dilyniannu Genom Cyfan, byddwn yn gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth i ddatblygu systemau a phrosesau gwell ar gyfer dadansoddi ac adrodd, gan gynnwys symud tuag at gymhwyso'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau'n wirfoddol

SO5.3 Erbyn 2026, byddwn wedi gwella'n barhaus ein gwasanaeth i'r cyhoedd a'r system iechyd cyhoeddus ehangach i leihau'r niwed iechyd sy'n gysylltiedig â pheryglon amgylcheddol a chynyddu'r enillion iechyd sy'n gysylltiedig â manteision amgylcheddol

Mae Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru yn ceisio diogelu iechyd ac atal niwed iechyd sy'n gysylltiedig â pheryglon amgylcheddol, culhau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau iechyd peryglon amgylcheddol, drwy wella iechyd i bawb, a chynyddu'r buddion iechyd a ddaw o ryngweithiadau cadarnhaol â'r amgylchedd. Mae'r gwasanaeth, sef dull cydweithio unigryw a di-dor a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddiaeth Ymbelydredd, Cemegion a Pheryglon Amgylcheddol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, yn darparu rheolaeth ymatebol o achosion amgylcheddol ac yn ymateb i bryderon am niwed amgylcheddol posibl, ond mae hefyd yn ceisio mynd ati'n rhagweithiol i leihau'r tebygolrwydd bod achosion yn digwydd a phryderon yn codi.

Pan fo achosion yn digwydd, mae'r tîm yn gweithio o fewn strwythurau gorchymyn a rheoli sefydledig ac amrywiaeth eang o asiantaethau partner i'w rheoli. Ategir hyn gan weithgarwch Cynllunio rhag Argyfyngau, Cydnerthedd ac Ymateb cadarn, gan gynnwys cynnal cynlluniau rheoli achosion a pharatoi at ymarferion a chymryd rhan ynddynt. Mae'r gwaith cynllunio a pharatoi hwn yn estyn i'r posibilrwydd, er ei fod yn fach, i Gymru gael ei chynnwys mewn achosion Cemegol, Biolegol, Ymbelydrol a Niwclear. Mae enghreifftiau o ymdrechion rhagweithiol ehangach yn cynnwys ceisio mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach

problemau ansawdd aer, gan gynnwys sut rydym yn teithio ac yn gwresogi ein cartrefi. Gall yr ymdrechion hyn amrywio o gyngor eiriolaeth a pholisi'n genedlaethol i gamau gweithredu lleol a awgrymir ar fater penodol. Mae'r tîm hefyd yn cael ei gynnwys mewn ymdrechion ar draws y sefydliad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ynghylch lliniaru (ymdrechion rhagweithiol ar draws amrywiaeth o feysydd) ac addasu (gan gynnwys cyngor ac arweiniad tywydd eithafol). Yn olaf, mae'r tîm yn gweithio gyda'r Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy i ddatblygu gwyliadwriaeth canlyniadau iechyd ar gyfer amrywiaeth o beryglon amgylcheddol, yn ogystal â newidiadau yn y tywydd. Yn nodedig, byddwn yn ceisio:

- Parhau i ddatblygu gwyliadwriaeth o ganlyniadau iechyd cysylltiadau amgylcheddol a gwella dealltwriaeth o anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ôl oedran, rhyw, ac amddifadedd
- Cyfrannu at fentrau polisi fel Rhaglen a Chynllun Aer Glân dan arweiniad Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i leihau llygredd aer, y newid i derfyn cyflymder 20mya diofyn ac ymdrechion i wella diogelwch tomenni glo.

Mae iechyd yr amgylchedd yn elfen allweddol o gysyniad Iechyd Cyfunol, wedi'i ddiffinio gan Sefydliad Iechyd y Byd fel dull uno integredig sy'n ceisio cydbwyso'n gynaliadwy a gwneud y gorau o iechyd pobl, anifeiliaid ac ecosystemau. Drwy ddeall bod iechyd pobl, anifeiliaid, a'r amgylchedd (ecosystemau) wedi'u cysylltu'n agos ac yn gyd-ddibynnol, mae Iechyd Cyfunol yn ceisio gwella'r sbectrwm llawn o ymdrechion i reoli clefydau. Yng Nghymru, bydd Iechyd Cyfunol yn ei gwneud yn ofynnol gweithio'n agos rhwng Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol, Diogelu Iechyd, a Heintiau, yn ogystal â rhanddeiliaid fel Prif Swyddog Milfeddygol Cymru ac asiantaethau Llywodraeth y DU fel yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Mae genomeg wrth wraidd Iechyd Cyfunol, yn darparu offeryn hanfodol sy'n galluogi dadansoddi ac integreiddio data ar draws parthau iechyd pobl/pathogen/yr amgylchedd. Yn hynny o beth, byddwn yn ceisio datblygu ein galluoedd Iechyd Cyfunol yng Nghymru, gan weithio ar draws y system iechyd cyhoeddus yn y DU.

SO5.3 Erbyn 2026, byddwn yn parhau i ddarparu a datblygu rhaglenni sgrinio poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU a Llywodraeth Cymru

Un o'n swyddogaethau statudol fel sefydliad yw darparu, rheoli, monitro, a gwerthuso rhaglenni sgrinio sy'n seiliedig ar y boblogaeth. Mae themâu allweddol yn ystod cylch oes ein Cynllun Strategol yn cynnwys:

- Gwaith parhaus gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran manteisio ar sgrinio
- Cynnydd parhaus i sefydlu lleoliadau sgrinio pwrpasol yn y gymuned i wella'r cynnig sgrinio
- Bydd y Rhaglen Sgrinio'r Fron yn parhau â'r gwaith i adfer y rhaglen yn sgil effaith y pandemig a fydd yn golygu y bydd angen i weithgarwch y rhaglen fod yn uwch na'r lefelau arferol er mwyn adfer hyd y rownd
- Bydd y Rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig yn parhau â'r gwaith i adfer y rhaglen yn sgil effaith y pandemig. Oherwydd y boblogaeth ddiabetig gynyddol ac effaith y pandemig,

bydd y rhaglen yn mynd drwy drawsnewidiad i alluogi rhaglen gynaliadwy a all ateb y galw

- Bydd y Rhaglen Sgrinio Coluddion yn cael ei hoptimeiddio ymhellach i gynnwys y rhai rhwng 50 a 54 oed a chynyddu sensitifrwydd y prawf i gynyddu cyfraddau canfod canser y coluddyn yn gynnar yng Nghymru i wella'r canlyniadau
- Bydd rhaglenni ailgaffael allweddol ar gyfer cyfarpar yn cael eu datblygu i sicrhau darpariaeth barhaus o ansawdd uchel a gwasanaethau rhagorol
- Bydd technoleg newydd yn cael ei harchwilio i alluogi darpariaeth barhaus rhaglenni sgrinio o ansawdd uchel a lleihau annhegwch. Er enghraifft, posibilrwydd hunansamplu fel cynnig posibl mewn profion sgrinio serfigol i bobl nad ydynt yn ymateb
- Bydd systemau newydd yn cael eu gweithredu i sicrhau darpariaeth barhaus ar gyfer gwasanaethau rhagorol, fel dethol carfanau ar gyfer sgrinio'r fron gan fod y system bresennol yn cael ei datgomisiynu
- Bydd datblygiadau a llwybrau newydd yn cael eu harchwilio a'u gwerthuso i lywio a galluogi gwelliannau i'r rhaglen
- Bydd cynlluniau gweithlu yn cael eu datblygu a'u gweithredu i sicrhau gweithlu cynaliadwy i ddarparu gwasanaeth rhagorol, yn enwedig mewn meysydd pryder
- Dibynnu ar gyllid i wneud gwaith cynllunio a chwmpasu cychwynnol mewn perthynas â sgrinio canser yr ysgyfaint
- Dibynnu ar gyllid i wneud gwaith cynllunio a chwmpasu cychwynnol mewn perthynas ag archwilio babanod newydd-anedig yn gorfforol
- Fel rhan o'n gwaith gyda Phartneriaeth Genomeg Cymru, a thrwy ddatblygu ein Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus, bydd cyfleoedd i ddefnyddio genomeg mewn profion sgrinio'n cael eu harchwilio, gan weithio gyda rhanddeiliaid eraill i ddatblygu tystiolaeth ac, os yw'n briodol, gweithredu gwasanaethau newydd.

Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

Amcan	Cerrig milltir
SO5.1 Erbyn 2026, Gan weithio'n agos gyda'n partneriaid, bydd gennym fodel gwasanaeth y cytunwyd arno sy'n cynnwys galluoedd diagnostig a thriniaeth newydd ar gyfer clefydau heintus ac sydd â'r capasiti a'r sgiliau i gyflwyno ac ymgorffori arloesedd.	2023-24
	Chwarter 1
	• Wedi adolygu a datblygu cynnig i ddatblygu tendr profi moleciwlaidd lleol ar gyfer y system nerfol ganolog fel rhan o gynnig profi moleciwlaidd syndromig ehangach • Cychwyn tendr masnachol profi syndromig ar gyfer profion moleciwlaidd cyflym, gan gynnwys pathogenau anadlu, gastroberfeddol, feirws a gludir yn y gwaed, blas ac arogl a phathogenau sy'n gysylltiedig ag iechyd rhywiol • Cymryd rhan yn yr adolygiad o weithrediad Fframwaith Diogelu Iechyd Cyhoeddus a Diogelwch Iechyd • Adolygu cynlluniau ledled y DU ar gyfer gwasanaethau genomeg pathogen, a nodi, pan fo'n bosibl, fap ffordd cyffredin ar gyfer datblygu/addasu gwasanaethau
	Chwarter 2
	• Dechrau gweithredu gwasanaeth profi heintiau iechyd rhywiol canolog newydd yn IP5, gan gynnwys gwasanaeth post • Cronfa ddata cynnydd portffolio arbenigol i gefnogi darpariaeth hyfforddiant • Cydweithredu â Gwasanaethau Diogelu Iechyd i ddatblygu cynnig gwasanaeth ar gyfer adfer gwasanaeth diagnosteg heintiau iechyd rhywiol hunansamplu
	Chwarter 3
	• Gweithredu contract caffael moleciwlaidd syndromig • Mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTM), wedi archwilio modelau gweithredu posibl yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau microbioleg CTM • Drafftio Dangosyddion Perfformiad ac Ansawdd Allweddol sy'n seiliedig ar werthoedd ar gyfer gwasanaethau microbioleg, clinigol a labordy gan ymgysylltu â rhanddeiliaid • Adolygu hierarchaeth y rhwydwaith, gan gynnwys trosglwyddo cyfrifoldeb am Labordai Gwib i labordai hyb rhanbarthol • Wedi meithrin capasiti ymchwil yn yr Adran Diogelu Iechyd drwy amser wedi'i neilltuo, hyfforddiant, a chymorth cymheiriaid.
	Chwarter 4
	• Cwblhau adolygiad cymysgedd sgiliau ar gyfer yr holl wasanaethau labordai heintiau • Trosglwyddo Labordy Gwib Ysbyty'r Faenor i gyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan • Trosglwyddo gwasanaethau PenGU i safle Cardiff Edge fel rhan o Raglen Partneriaeth Genomeg Cymru • Cydgrynhoi ac adolygu'r gwaith o weithredu'r model gweithredu diogelu iechyd newydd • Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gynorthwyo'r broses barhaus i gryfhau'r system diogelu iechyd genedlaethol yng Nghymru i flaenoriaethu gweithgarwch, gan gynnwys partneriaid ar draws y DU drwy Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU a Grŵp Goruchwylio'r Pedair Gwlad • Cynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r strategaeth TB ar gyfer Cymru

Amcan	Cerrig milltir
	2024-25
	• Trosglwyddo gwasanaethau feiroleg/seroleg rheolaidd o Ganolfan Feiroleg Arbenigol Cymru i'r gwasanaethau heintiau cyffredinol • Dangosyddion ansawdd sy'n seiliedig ar werthoedd wedi'u cynnwys mewn cytundebau CLG gyda byrddau iechyd a GIG Cymru • Datblygu ailddgynllunio'r gweithlu ymhellach ar draws staff labordy cofrestredig ac anghofrestredig • Adolygu darpariaeth gwasanaethau diogelu iechyd a microbioleg yng nghyd-destun y model cyflawni newydd • Cymryd rhan yn yr adolygiad o weithrediad Fframwaith Diogelu Iechyd Cyhoeddus a Diogelwch Iechyd • Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gynorthwyo'r broses barhaus i gryfhau'r system Diogelu Iechyd genedlaethol yng Nghymru i flaenoriaethu gweithgarwch, gan gynnwys partneriaid ar draws y DU drwy Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU a Grŵp Goruchwylio'r Pedair Gwlad • Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ddatblygu strategaethau gweithredu ar gyfer yr adolygiad o'r system diogelu iechyd • Datblygu'r capasiti ymchwil ac arloesedd i ddiwallu anghenion y boblogaeth ehangach.
	2025-26
	• Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gynorthwyo'r broses barhaus i gryfhau'r system Diogelu Iechyd genedlaethol yng Nghymru i flaenoriaethu gweithgarwch, gan gynnwys partneriaid ar draws y DU drwy Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU a Grŵp Goruchwylio'r Pedair Gwlad • Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ddatblygu strategaethau gweithredu i adolygu'r system diogelu iechyd • Ehangu ymhellach a chydweithredu â phartneriaid i ddatblygu prosiectau ymchwil
SO5.2 Erbyn 2026, Byddwn yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a dibynadwy ar amrywiaeth o risgiau dynodedig, gan gynnwys heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, ymwrthedd gwrthficrobaidd a chlefydau y gellir eu hatal drwy frechu.	**2023-24**
	Chwarter 1
	• Gweithredu canfyddiadau'r adolygiad gwybodaeth cleifion a threialu gwybodaeth cleifion wedi'i chydgynhyrchu ar gyfer HPV • Arwain gwaith i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella cyfraddau brechu mewn rhaglenni brechu oedolion (yr eryr a niwmococol) • Cynorthwyo gwaith i drawsnewid gwasanaethau brechu yn unol â'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, gan gynnwys darparu cyngor arbenigol mewn strwythurau llywodraethu newydd • Sefydlu ein Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus
	Chwarter 2
	• Ymateb i ganfyddiadau adolygiad ymwrthedd gwrthficrobaidd Llywodraeth Cymru • Data gwyliadwriaeth ymwrthedd gwrthficrobaidd wedi'u cynnwys ar y porth • Datblygu gwyliadwriaeth heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd gan gynnwys sefydlu gwyliadwriaeth CPO • Ailymgysylltu'r ffrwd waith ar gyfer mynd i'r afael â gofynion y system rheoli achosion iechyd rhywiol (yn amodol ar gytundeb cyllid Llywodraeth Cymru) • Datblygu strategaeth brechu teg a'i hehangu i raglenni brechu ychwanegol • Cynorthwyo'r camau gweithredu yn y strategaeth dileu'r frech goch a rwbela
	Chwarter 3
	• Cyflawni ymgyrch Diwrnod Ewropeaidd Ymwybyddiaeth o Wrthfiotigau /Wythnos Fyd-eang Ymwrthedd Gwrthficrobaidd 2023

Amcan	Cerrig milltir
	• Sefydlu trefniadau ailgaffael ar gyfer system rheoli achosion atal a rheoli heintiau/gwyliadwriaeth heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd • Gweithio gyda phartneriaid i adolygu Meysydd Blaenoriaeth Iechyd Rhywiol 2020-2024, sy'n rhan o Fframwaith Canlyniadau GIG Cymru • Cyflwyno gweithgareddau i dynnu sylw at Brosiect Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru (WEDINOS) yn dathlu 10 mlynedd a chyflawniadau'r rhaglen
	Chwarter 4
	• Cyflawni gwyliadwriaeth heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys creu dangosfyrddau a llunio adroddiadau • Cefnogi gweithrediad Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Ymwrthedd Gwrthficrobaidd presennol y DU yng Nghymru a chyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Ymwrthedd Gwrthficrobaidd nesaf o 2024 • Adolygu a datblygu canllawiau ymwrthedd gwrthficrobaidd ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd • Ailsefydlu portffolio gwyliadwriaeth glinigol ar gyfer SSI a gofal critigol • Ehangu Llawlyfr Atal a Rheoli Heintiau Cenedlaethol Cymru drwy ymgysylltu ag arweinwyr atal a rheoli heintiau y DU ac ARHAI yn yr Alban • Ymgysylltu â Gweithrediaeth newydd y GIG i gefnogi gweithrediad mentrau'r DU a mentrau Llywodraeth Cymru i leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd a defnydd • Datblygu gwyliadwriaeth heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd a defnydd drwy sefydlu cysylltiadau a llifau data ar gyfer data gwyliadwriaeth defnydd gwrthficrobaidd • Cydweithredfa Gofal Diogel a Gweithrediaeth newydd y GIG wedi'u sefydlu ar y cyd â Gwelliant Cymru • Creu setiau data sy'n gysylltiedig â chanlyniadau ar draws dau faes clefyd • Treialu canfod brigiadau a chlystyrau • Sefydlu Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Clefydau Trosglwyddadwy • Wedi cyflawni Cronfa Ddata Lleihau Niwed (system wyliadwriaeth genedlaethol Cymru ym maes camddefnyddio sylweddau, iechyd, cyfiawnder troseddol, a gwasanaethau cysylltiedig) • Wedi cefnogi gwaith i gyflawni newidiadau i'r amserlen ar gyfer brechu rheolaidd yn seiliedig ar gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu • Llunio Cynllun Cyflawni Genomeg Pathogen ar gyfer Cymru • Cychwyn Rhaglen Iechyd Cynhwysiant i sicrhau dull cydgysylltiedig o hyrwyddo iechyd a llesiant grwpiau agored i niwed yng Nghymru
	2024-25
	• Parhau â chymorth i waith Llywodraeth Cymru wrth weithredu Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y DU – gweithredu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol newydd o 2024/25 • Integreiddio'r system rheoli achosion atal a rheoli heintiau newydd/wedi'i hailgaffael yn ein systemau gwyliadwriaeth/adrodd • Parhau i gyflwyno gwyliadwriaeth heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd • Parhau i ddarparu cyngor a chanllawiau atal a rheoli heintiau • Parhau i ddarparu cyngor Stiwardiaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a chanllawiau rhagnodi ymwrthedd gwrthficrobaidd

Amcan	Cerrig milltir
	• Cymorth parhaus i raglen integreiddio brechu Llywodraeth Cymru • Cyflwyno gwybodaeth cleifion wedi'i chydgynhyrchu sy'n ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad adnoddau peilot • Cefnogi gwaith i gyflwyno newidiadau i'r amserlen ar gyfer brechu rheolaidd yn seiliedig ar gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu • Gweithredu canfyddiadau'r adolygiad gwybodaeth cleifion a threialu gwybodaeth cleifion wedi'i chydgynhyrchu ar gyfer rhaglenni brechu blaenoriaethol ychwanegol • Cwblhau strategaeth brechu teg a'i hehangu i raglenni brechu ychwanegol • Cefnogi gwaith i gyflwyno newidiadau i'r amserlen ar gyfer brechu rheolaidd yn seiliedig ar gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu • Cymorth parhaus i raglen integreiddio brechu Llywodraeth Cymru • Cefnogi gwaith i ddatblygu a gweithredu'r adroddiad gwyliadwriaeth • Cefnogi'r ffrwd waith ar gyfer atal a rheoli heintiau llif gwaed penodol • Cefnogi gweithgorau haint y llwybr wrinol (UTI) ar gyfer lleihau baich haint (sy'n cysylltu â Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y DU) • Gweithredu newidiadau i fodloni'r cod ymarfer ystadegau • Adolygu dulliau canfod a modelu clystyrau • Yn amodol ar ddatblygiadau ym maes genomeg pathogen, wedi estyn adroddiadau epidemioleg genomig i heintiau TB a gastroberfeddol • Cymorth parhaus i raglen integreiddio brechu Llywodraeth Cymru • Darparu gwasanaethau genomeg achrededig newydd sy'n canolbwyntio ar ymwrthedd gwrthficrobaidd/atal a rheoli heintiau
	2025-26 • Parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno Strategaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd y DU/Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru • Parhau i gyflwyno gwyliadwriaeth heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd • Parhau i ddarparu cyngor a chanllawiau atal a rheoli heintiau • Parhau i ddarparu cyngor Stiwardiaeth Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a chanllawiau rhagnodi ymwrthedd gwrthficrobaidd • Monitro ac adolygu newidiadau a weithredwyd i'r cod ymarfer ystadegau • Penderfynu ar ddatblygiadau oherwydd dulliau canfod a modelu clystyrau • Trafod rhagor o gyfleoedd ym maes genomeg pathogen, adroddiadau epidemioleg genomig estynedig • Cefnogi gwaith i integreiddio rhaglenni brechu Covid-19 a ffliw ymhellach • Cefnogi gwaith i gyflwyno newidiadau i'r amserlen brechu pediatrig • Datblygu strategaeth ymchwil a gwerthuso ar gyfer clefydau y gellir eu hatal drwy frechu
SO5.3 Erbyn 2026, Byddwn wedi gwella'n barhaus ein gwasanaeth i'r cyhoedd a'r system	2023-24 Chwarter 4 • Darparu cyngor iechyd cyhoeddus arbenigol wedi'i gydgysylltu drwy bartneriaid i gynorthwyo'r gwaith o weithredu Cynllun Aer Glân Cymru a datblygu Deddf Aer Glân newydd ar gyfer Cymru

iechyd cyhoeddus ehangach i leihau'r niwed iechyd sy'n gysylltiedig â pheryglon amgylcheddol a chynyddu'r enillion iechyd sy'n gysylltiedig â manteision amgylcheddol. Byddwn hefyd yn cefnogi'r cyhoedd a'r system iechyd cyhoeddus i liniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt.	• Archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio epidemioleg maes mewn achosion amgylcheddol/tywydd eithafol **2024-25** • Parhau i ddatblygu gwyliadwriaeth iechyd cyhoeddus amgylcheddol i ddisgrifio cysylltiadau a chanlyniadau iechyd, monitro niwed iechyd a manteision a chefnogi eiriolaeth ar gyfer camau i wneud y mwyaf o'r manteision, lleihau'r niwed a'r anghydraddoldebau • Datblygu cynllun ar gyfer cymhwyso genomeg ar gyfer Iechyd Cyfunol yng Nghymru **2025-26** • Gwerthuso gwaith y ddwy flynedd flaenorol ac adeiladu arno
SO5.4 Erbyn 2026, Byddwn yn parhau i ddarparu a datblygu rhaglenni sgrinio poblogaeth cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU a Llywodraeth Cymru.	**2023-24** **Chwarter 1** • Gweithredu'r Llwybr Ailalw Risg Isel yn Sgrinio Llygaid Diabetig yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU • Cyflwyno cynigion ar gyfer model darparu gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig i Bwyllgor Sgrinio Cymru **Chwarter 2** • Datblygu a gweithredu cynllunio'r gweithlu ar gyfer y rhaglen sgrinio'r fron sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r bylchau clinigol yng Ngogledd Cymru **Chwarter 3** • Gwerthuso Digidol yn Gyntaf - troi at e-gyhoeddiadau fel y brif ffynhonnell wybodaeth cyfranogwyr ar gyfer Sgrinio Cyn Geni, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig a Sgrinio Clyw Babanod • Datblygu'r newid model gwasanaeth arfaethedig o'r model 'clir mewn un glust' ar gyfer Sgrinio Clyw Babanod ar gyfer ei argymell i Bwyllgor Sgrinio Cymru • Cynnal proses ailgaffael profion imiwnocemegol ar ysgarthion, ei chwblhau a'r canlyniad wedi'i weithredu ar gyfer sgrinio coluddion a phrofion imiwnocemegol ar ysgarthion i gleifion symptomatig • Parhau i gyflwyno profion sgrinio coluddion wedi'u hoptimeiddio yn unol â'r cynllun i wahodd pobl 51 i 54 oed ar gyfer sgrinio coluddion • Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wella iechyd a llesiant dynion o ran gwyliadwriaeth yn y Rhaglen Ymlediadau Aortig Abdomenol gan Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif • Gweithredu darpariaeth gwyliadwriaeth MRI i fenywod y nodwyd eu bod yn wynebu risg uchel iawn o ganser y fron ledled Cymru **Chwarter 4** • Gweithio i fynd i'r afael ag annhegwch a galluogi'r holl gyfranogwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am sgrinio drwy ganolbwyntio ar gamau mewn pum maes allweddol - cyfathrebu, cydweithredu, cymuned ac ymgysylltu, darparu gwasanaethau, data a monitro. • Cwmpasu'r posibilrwydd ar gyfer hunansamplu i bobl sy'n colli apwyntiadau Sgrinio Serfigol Cymru yn gyson er mwyn gwella'r cyfraddau sgrinio a lleihau annhegwch • Datblygu yn erbyn y prosiect trawsnewid wedi''i gwmpasu ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig i weithio i ddarparu gwasanaeth rhagorol cynaliadwy i'r boblogaeth ddiabetig • Allanoli post ar gyfer gwahoddiadau a chanlyniadau Rhaglen Sgrinio'r Fron • Parhau â gwaith paratoi i ddatblygu, profi a gweithredu fel rhan o Raglen Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru gyfan

	• Os bydd cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd staff wedi'u recriwtio ar gyfer prosiect i ddatblygu rhaglen sgrinio benodol genedlaethol ar gyfer canser yr ysgyfaint a chychwyn prosiect • Os bydd cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd staff wedi'u recriwtio ar gyfer prosiect i ddatblygu Rhaglen Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod Newydd-anedig a chychwyn prosiect • Datblygu cynllun adfer yn unol â'r taflwybrau i barhau i adfer y Rhaglen Sgrinio'r Fron • Datblygu cynllun adfer yn unol â'r taflwybrau i barhau i adfer y Rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig • Gweithredu cwestiynau wedi'u diwygio am brofiad defnyddwyr gwasanaethau yn yr adran sgrinio • Gwella'r broses e-atgyfeirio a datblygu rhwydi diogelwch penodol i leoliad ar gyfer y gwasanaeth symptomatig prawf imiwnocemegol ar ysgarthion (FIT) • Gweithredu BSS Select ar gyfer y Rhaglen Sgrinio'r Fron i sicrhau detholiad carfan pan gaiff y Gwasanaethau Cymwysiadau a Seilwaith Iechyd Cenedlaethol eu datgomisiynu yn Lloegr • Creu nodyn cysyniad ar gyfer defnyddiau posibl genomeg wrth ddarparu gwasanaeth sgrinio, gan weithio gyda Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan a phartneriaid eraill Partneriaeth Twf Cymru (GPW)
	2024-25
	• Parhau â'r broses o archwilio'r model prif ganolfan a lloerennau fel rhan o raglen ystadau barhaus i wella'r hygyrchedd a'r cynnig i gyfranogwyr a chefnogi adfer a darpariaeth gynaliadwy • Gweithredu profi cynenedigol heb lawdriniaeth ar gyfer genoteip RHD ffetysol (cffDNA) i fenywod rhesws-negatif gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru • Parhau i gyflwyno'r prosiect trawsnewid wedi'i gwmpasu ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig i weithio i ddarparu gwasanaeth rhagorol cynaliadwy i'r boblogaeth ddiabetig • Gweithredu newid model gwasanaeth i'r model 'clir mewn un glust' (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Pwyllgor Sgrinio Cymru) • Gweithredu System Gyfathrebu Archif Lluniau (PACS) newydd ar gyfer Sgrinio'r Fron a Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol fel rhan o raglen caffael a gweithredu Rhaglen System Gwybodaeth Radioleg Cymru Gyfan • Parhau i gyflwyno trefniadau i optimeiddio sgrinio coluddion drwy ddechrau cynnig profion sgrinio coluddion i bobl 50 oed • Os bydd cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, wedi datblygu prosiect sgrinio penodol cenedlaethol ar gyfer canser yr ysgyfaint yn unol â chynllun y prosiect • Os bydd cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, wedi datblygu Rhaglen Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod Newydd-anedig yn unol â chynllun y prosiect • Cwblhau gwaith i weithredu Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru fel rhan o raglen Cymru gyfan • Parhau â gwaith i gwmpasu'r posibilrwydd ar gyfer hunansamplu i bobl sy'n colli apwyntiadau Sgrinio Serfigol Cymru yn gyson i wella'r cyfraddau sgrinio a lleihau annhegwch. Gweithredu cynlluniau gweithlu ar gyfer y rhaglen sgrinio'r fron sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â bylchau clinigol yng Ngogledd Cymru • Datblygu cynllun adfer yn unol â'r taflwybrau i barhau i adfer y Rhaglen Sgrinio'r Fron • Datblygu cynllun adfer yn unol â'r taflwybrau i barhau i adfer y Rhaglen Sgrinio Llygaid Diabetig

	• Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wella iechyd a llesiant dynion o ran gwyliadwriaeth yn y Rhaglen Ymlediadau Aortig Abdomenol gan Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif • Mynd i'r afael ag annhegwch a galluogi'r holl gyfranogwyr cymwys i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am sgrinio drwy ganolbwyntio ar gamau mewn pum maes allweddol - cyfathrebu, cydweithredu, cymuned ac ymgysylltu, darparu gwasanaethau, data, a monitro. • Adolygu'r gwasanaeth symptomatig prawf imiwnocemegol ar ysgarthion (FIT) i sicrhau bod y swyddogaethau a'r llywodraethu yn bodloni'r canllawiau presennol • Datblygu cynigion cydweithredol ar gyfer ymchwil i werthuso/ddatblygu tystiolaeth ar gyfer defnyddio genomeg i wella elfennau o weithgareddau sgrinio
	2025-26
	• Os bydd cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, wedi parhau i ddatblygu prosiect sgrinio penodol cenedlaethol ar gyfer canser yr ysgyfaint yn unol â chynllun y prosiect • Os bydd cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, wedi parhau i ddatblygu Rhaglen Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod Newydd-anedig yn unol â'r cynllun • Parhau â'r broses o archwilio'r model prif ganolfan a lloerennau fel rhan o raglen ystadau barhaus i wella'r hygyrchedd a'r cynnig i gyfranogwyr a chefnogi adfer a darpariaeth gynaliadwy • Parhau i weithredu cynlluniau gweithlu ar gyfer y rhaglen sgrinio'r fron sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r bylchau clinigol yng Ngogledd Cymru • Gweithredu prosiect trawsnewid ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig i ddarparu gwasanaeth rhagorol cynaliadwy i'r boblogaeth ddiabetig • Adolygu a gwerthuso pecynnau eDdysgu Smotyn Gwaed Newydd-anedig • Gweithio i fynd i'r afael ag annhegwch a galluogi'r holl gyfranogwyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am sgrinio drwy ganolbwyntio ar gamau mewn pum maes allweddol - cyfathrebu, cydweithredu, cymuned ac ymgysylltu, darparu gwasanaethau, data a monitro.

2.6 Blaenoriaeth Strategol 6 - Mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus

2.6.1 Cyflwyniad

Mae newid hinsawdd yn cael ei gydnabod fel bygythiad iechyd cyhoeddus mwyaf arwyddocaol y ganrif, gan beryglu iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant. Mae'n bygwth pob maes o fywyd sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni a chynnal iechyd da. Ym mis Hydref 2021, datganodd Sefydliad Iechyd y Byd mai newid hinsawdd yw'r bygythiad iechyd unigol mwyaf y mae pobl yn ei wynebu yn sgil tymereddau byd-eang sy'n codi.

Mae'r ddaear eisoes wedi cynhesu 1.1°c uwchben lefelau cyn yr oes ddiwydiannol o ganlyniad i weithgarwch pobl. Mae angen camau gweithredu brys i gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5°c er mwyn atal niwed dinistriol i iechyd. Mae lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy ddewisiadau gwell o ran trafnidiaeth, bwyd ac ynni yn arwain at well iechyd, yn enwedig drwy leihau llygredd aer.

Mae effeithiau newid hinsawdd yn amlweddog, gan effeithio ar benderfynyddion cymdeithasol ac amgylcheddol iechyd (aer glân, diogelwch bwyd, cartrefi diogel, a mynediad at wasanaethau). Mae effeithiau newid hinsawdd eisoes yn cael eu teimlo yng Nghymru, o ran bygythiadau corfforol i fywyd drwy ddigwyddiadau tywydd eithafol, yn ogystal â phryder sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Yn fyr, mae newid hinsawdd eisoes yn effeithio'n andwyol ar iechyd pobl yng Nghymru a bydd yn parhau i wneud hynny ymhell i'r dyfodol.

2.6.2 Trosolwg – pam mae hyn yn flaenoriaeth

Rydym yn gwybod bod rhai cymunedau yng Nghymru yn debygol o gael eu heffeithio'n fwy andwyol gan effeithiau newid hinsawdd nag eraill, a rhai yn llai tebygol o allu cymryd camau gweithredu i ymateb i'r effeithiau hyn. Er enghraifft, cartrefi incwm is mewn ardaloedd sy'n tueddu i ddioddef llifogydd, a'r rhai sy'n byw gydag anableddau a/neu gyflyrau cronig a'u gofalwyr. Yn hynny o beth, mae effeithiau newid hinsawdd yn debygol o waethygu anghydraddoldebau iechyd presennol yng Nghymru. Rhaid i ni ganolbwyntio ar sicrhau bod polisïau ac ymyriadau addasu effeithlon a theg yn eu lle sy'n helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae gan Gymru yr amgylchedd galluogi a'r fframwaith deddfwriaethol i gynorthwyo'r newid trawsnewidiol sydd ei angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sicrhau bod yr hinsawdd yn cael ei hystyried ar lefel gwneud penderfyniadau bob dydd. Mae'r ddeddfwriaeth hon o'r radd flaenaf yn rhoi dyletswydd ar Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynorthwyo'r saith Nod Llesiant a roddir ar waith gan y Ddeddf.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hanes hir o waith, yn fewnol ac allanol, ar yr agenda newid hinsawdd a chynaliadwyedd. Sefydlwyd ein Canolfan Iechyd a Chynaliadwyedd er mwyn ymgorffori gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y sefydliad. Mae'r ganolfan wedi gweithio ar draws y sefydliad i ddatblygu ein dull o ran cynaliadwyedd a

datgarboneiddio. Gwnaethom gychwyn Asesiad cynhwysfawr o'r Effaith ar Iechyd o ran newid hinsawdd yng Nghymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau a pholisi ar addasu i newid hinsawdd.

Yn 2021, gwnaethom gynnal adolygiad o'r adroddiad Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd Cymru (CCRA3). Asesodd adroddiad CCRA3 Cymru 61 o risgiau a chyfleoedd o newid hinsawdd, ar draws sectorau fel iechyd, tai, yr amgylchedd naturiol, busnes a seilwaith, a risgiau o effeithiau rhyngwladol newid hinsawdd. Nododd yr adroddiad nifer sylweddol o risgiau a oedd yn galw am gamau gweithredu iechyd cyhoeddus brys.

Ers 2021, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynorthwyo gweithgarwch mewnol a'r system allanol ehangach wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mae hyn wedi cynnwys ymgorffori gweithgarwch newid hinsawdd yn rhaglenni sydd eisoes yn bodoli e.e. Cymru Iach ar Waith a Gwelliant Cymru neu ddatblygu rhaglenni newydd i alluogi camau gweithredu e.e. Cynllun Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru. Gwnaethom hefyd gyhoeddi ein Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru sy'n nodi'r cynllun ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yng Nghymru drwy leihau ôl troed carbon y sector iechyd, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rydym wedi nodi nifer o elfennau allweddol o'n rôl sy'n adlewyrchu ehangder a swm y gwaith ar newid hinsawdd a'r agenda gynaliadwyedd ar draws y sefydliad, gan gynnwys datblygu, deall a dehongli'r dystiolaeth i lywio camau gweithredu, darparu ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth, a darparu cyngor technegol integredig i bartneriaid. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau allweddol, gan gynnwys cyngor polisi, newid ymddygiad, cyfathrebu, gwyliadwriaeth, a chanllawiau.

2.6.3 Cwmpas

Mae map ffordd y Gymdeithas Ryngwladol o Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ar gyfer gweithredu ar iechyd a newid hinsawdd yn nodi bod gan asiantaethau iechyd cyhoeddus cenedlaethol rôl hanfodol fel cyfranogwyr hinsawdd allweddol. Mae'r map ffordd yn cyd-fynd â'n safbwyntiau ni ein hunain ynghylch ehangder a graddfa'r gwaith sy'n ofynnol i ymateb i effeithiau newid hinsawdd ar iechyd ac mae wedi'i ddefnyddio fel templed ar gyfer gweithredu.

Er mwyn diogelu pobl Cymru rhag effeithiau iechyd a llesiant newid hinsawdd, mae angen i ni wneud y canlynol:

Diogelu, hyrwyddo, ac addysgu:

- Diogelu pobl a chymunedau yn erbyn effeithiau iechyd newid hinsawdd, gan ganolbwyntio'n benodol ar degwch a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Addysgu cydweithwyr o bob rhan o'r system iechyd a gofal ynghylch risgiau hinsawdd ac iechyd, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod wedi'u galluogi i weithredu ac ymateb i'r galw sy'n newid
- Hyrwyddo amgylcheddau a ffyrdd o fyw iach, gan harneisio newid ymddygiad a dulliau asesu'r effaith ar iechyd i ddylanwadu ar bolisi, gwneud penderfyniadau a seilwaith

- Galluogi pobl a chymunedau i addasu i effeithiau newid hinsawdd ar iechyd, a lliniaru hyn

Ymateb a hwyluso camau gweithredu:

- Sicrhau polisi, cyngor a chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y system iechyd cyhoeddus yng Nghymru
- Cydlynu camau gweithredu a negeseuon gyda gwledydd ac asiantaethau eraill y DU, ac ar draws y system iechyd cyhoeddus yng Nghymru
- Sicrhau ymateb a pharodrwydd effeithiol i ddigwyddiadau tywydd eithafol, ar y cyd â phartneriaid eraill, mewn ffordd sy'n diwallu anghenion ein cymunedau mwyaf agored i niwed

Monitro a gwerthuso:

- Datblygu ein capasiti ar gyfer gwyliadwriaeth hinsawdd fel y gallwn fonitro effeithiau newid hinsawdd ar iechyd a llesiant ac arwain gweithredu amlasiantaethol pellach, gan gynnwys ymgorffori systemau rhybudd cynnar
- Cynnal ymchwil i effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus, ac effeithiolrwydd ymyriadau sydd â'r nod o'u lliniaru
- Gwerthuso effeithiau polisïau lliniaru hinsawdd yng Nghymru ar iechyd
- Gwerthuso effaith ein ffyrdd ein hunain o weithio

2.6.4. Sut y byddwn yn mesur llwyddiant:

Erbyn 2030, byddwn wedi:

- Cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o gyflawni GIG Cymru Sero-net

Ac erbyn 2035, byddwn wedi:

- Cyflawni negyddoldeb carbon fel sefydliad
- Gweithio gyda'n partneriaid i ymateb a hwyluso camau gweithredu ar addasu i newid hinsawdd a lliniaru ei effeithiau
- System fonitro, ymchwil, gwerthuso a gwyliadwriaeth gadarn sy'n ein galluogi ni a'n partneriaid i flaenoriaethu camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Gweithlu sy'n cyd-fynd â darparu iechyd cyhoeddus sy'n sensitif o ran hinsawdd ar draws pob parth ein hymarfer

2.6.5 Canlyniadau

Mae monitro effeithiau newid hinsawdd ar iechyd cyhoeddus yn faes gwyliadwriaeth newydd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu ein capasiti ar gyfer gwyliadwriaeth hinsawdd fel y gallwn fonitro effeithiau newid hinsawdd ar iechyd a llesiant, gan gynnwys ymgorffori systemau rhybudd cynnar. Bydd hyn yn cynnwys gwyliadwriaeth ar gyfer rhai o'r dangosyddion cenedlaethol a nodwyd o dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys:

- Disgwyliad oes iach adeg geni, gan gynnwys y bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig (Llinell Sylfaen: 13.3 mlynedd ar gyfer dynion a 16.9 mlynedd ar gyfer menywod, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd)
- Canran y teithiau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus (Llinell Sylfaen: 16%, Dangosydd Cenedlaethol)

2.6.6 Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf

Byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith i gyflawni'r flaenoriaeth hon dros y tair blynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion strategol canlynol:

SO6.1 Erbyn 2026, byddwn wedi cael ein cydnabod fel sefydliad amgylcheddol gynaliadwy a bydd ein camau gweithredu ni, ynghyd â rhai ein sefydliadau partner, yn sicrhau cyd-fuddion ar gyfer iechyd a thegwch i gymunedau yng Nghymru

Bydd gennym grŵp arwain yn y sefydliad i fynd ati i gyflawni'r camau gweithredu yn ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws GIG Cymru i sicrhau ein bod yn rhannu arferion da ac yn sbarduno arloesedd ynghylch datgarboneiddio

SO6.2 Erbyn 2026, byddwn wedi darparu arweinyddiaeth systemau iechyd cyhoeddus ar newid hinsawdd fel bod ein camau gweithredu ni, ynghyd â rhai ein sefydliadau partner, yn sicrhau cyd-fuddion ar gyfer iechyd a thegwch i gymunedau yng Nghymru

Byddwn yn gweithio'n uniongyrchol gyda phartneriaid i lywio'r dirwedd strategol i atal niwed iechyd, diogelu iechyd, gwella iechyd ac addasu i effeithiau newid hinsawdd a'u lliniaru ledled Cymru a'r tu hwnt. Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi gwybodaeth am gynaliadwyedd a newid hinsawdd i'w hymgorffori yn y gwasanaeth iechyd, sefydliadau addysgol a thrwy drafodaethau â rhanddeiliaid a phartneriaid fel cyrff cyhoeddus, byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach. Byddwn yn parhau i gyfuno'r dystiolaeth ryngwladol ynghylch newid hinsawdd a chynaliadwyedd, gan ddefnyddio offerynnau fel asesiad effaith iechyd a datblygu adnoddau i gefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried a gweithredu cyd-fuddion a galluogi gwyliadwriaeth cysylltiadau a chanlyniadau iechyd sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

SO6.3 Erbyn 2026, byddwn yn cefnogi'r cyhoedd a'r system iechyd cyhoeddus i liniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt.

Newid hinsawdd yw bygythiad iechyd cyhoeddus mwyaf y ganrif hon. Byddwn yn parhau i adolygu ein hymarfer mewn perthynas â chamau gweithredu ar gyfer tywydd eithafol ac asesu

a gwyliadwriaeth niweid iechyd tywydd eithafol. Ategir hyn, a gwaith mwy rhagweithiol, gan ein cydweithrediad â Chanolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd, i gyfrannu at ei gwaith asesu'r effaith ar iechyd. Yn benodol, byddwn yn darparu cymorth er mwyn:

- datblygu gwyliadwriaeth sy'n seiliedig ar yr hinsawdd sy'n cwmpasu digwyddiadau tywydd eithafol a'r canlyniadau iechyd cysylltiedig, yn ogystal â chlefydau a gludir gan fector a gwyliadwriaeth clefydau gastroberfeddol
- llywio gwybodaeth a dealltwriaeth y cyhoedd i liniaru effeithiau digwyddiadau hinsawdd, yn ogystal ag ailgynllunio a darparu gwasanaeth iechyd
- gweithio gyda phartneriaid, yn fewnol (gan gynnwys Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd a'r tîm polisi) ac yn allanol, i gefnogi a llywio camau gweithredu polisi ynghylch lliniaru'r argyfwng hinsawdd ac addasu iddo

Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

SO6.1 Erbyn 2026, byddwn yn cael ein cydnabod fel sefydliad amgylcheddol gynaliadwy, a bydd ein camau gweithredu ni, ynghyd â rhai ein sefydliadau partner, yn sicrhau cyd-fuddion ar gyfer iechyd a thegwch i gymunedau yng Nghymru	**2023-24** **Chwarter 2** • Hyrwyddo ac ymgorffori Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y sefydliad, i sicrhau taflwybr tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru, sef cyflawni sero net erbyn 2030 **Chwarter 4** • Hyrwyddo ac ymgorffori Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y sefydliad, i sicrhau taflwybr tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru, sef cyflawni sero net erbyn 2030 • Datblygu dull sefydliadol o feithrin capasiti newid hinsawdd i addysgu, ysgogi a galluogi camau gweithredu ar gynaliadwyedd a newid hinsawdd **2024-25** • Darparu cymorth i alluogi cyflawni Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan weithio gyda'r wyth cyfarwyddiaeth a'r meysydd gwasanaeth unigol **2025-26** • Adolygu'r trefniadau presennol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch Strategaeth Datgarboneiddio'r GIG
SO6.2 Erbyn 2026, byddwn wedi darparu arweinyddiaeth system iechyd cyhoeddus ar newid hinsawdd fel bod ein camau gweithredu ni, ynghyd â rhai ein sefydliadau partner, yn sicrhau cyd-fuddion ar gyfer iechyd a thegwch i gymunedau yng Nghymru	**2023-24** **Chwarter 1** • Diweddaru Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru a'r cynllun gwobrwyo ar gyfer camau gweithredu i liniaru newid hinsawdd ym maes gofal sylfaenol i wella'r cynaliadwyedd amgylcheddol sydd ar gael ac yn hygyrch i'r holl gontractwyr gofal sylfaenol **Chwarter 4** • Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar y system ehangach a darparu arweinyddiaeth systemau i alluogi darparwyr gofal sylfaenol i gymryd camau gweithredu yn erbyn newid hinsawdd. **2024-25** • Adolygu'r ffordd y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru dros y ddwy flynedd diwethaf i nodi cyfleoedd ar gyfer rhagor o gamau gweithredu • Creu astudiaethau achos a thystiolaeth ar fuddsoddi mewn cymunedau cynaliadwy i fynd i'r afael â newid hinsawdd **2025-26** • Monitro ac adolygu'r Asesiad Effaith Iechyd Newid Hinsawdd • Adolygu gweithrediad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi meysydd ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol • Rhaglen waith newid hinsawdd ar gyfer yr hyb iechyd a chynaliadwyedd wedi'i hadolygu a meysydd blaenoriaeth ar gyfer y dyfodol wedi'u nodi

SO6.3 Erbyn 2026, Byddwn yn cefnogi'r cyhoedd a'r system iechyd cyhoeddus i liniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt.	2023-24
	Chwarter 4
	• Wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno terfyn cyflymder 20mya diofyn • Adolygu a gwerthuso'r camau gweithredu presennol mewn perthynas â newid hinsawdd a phenderfynu pa gamau gweithredu eraill sydd eu hangen i liniaru'r effeithiau hirdymor ar iechyd, a chulhau anghydraddoldebau sy'n ymwneud â newid hinsawdd • Darparu cyngor iechyd cyhoeddus arbenigol i ategu gwaith i gyflwyno terfyn cyflymder 20mya a chyflwyno deddfwriaeth ynghylch diogelwch tomenni glo • Adolygu a diwygio negeseuon ynghylch tywydd eithafol
	2024-25
	• Parhau i ddatblygu gwyliadwriaeth canlyniadau iechyd sy'n ymwneud â'r tywydd i ddisgrifio cysylltiadau a chanlyniadau iechyd, ar gyfer clefydau amgylcheddol a throsglwyddadwy, er mwyn helpu'r cyhoedd a'r GIG i addasu iddynt a'u lliniaru • Adolygu a gwerthuso'r camau gweithredu presennol mewn perthynas â newid hinsawdd a phenderfynu pa gamau gweithredu eraill sydd eu hangen i liniaru'r effeithiau hirdymor ar iechyd, a chulhau anghydraddoldebau sy'n ymwneud â newid hinsawdd
	2025-26
	• Gwerthuso gwaith y ddwy flynedd flaenorol ac adeiladu arno

2.7 Galluogi ein strategaeth i gael ei chyflawni'n llwyddiannus

Byddwn yn galluogi ac yn sbarduno gwaith i gyflawni ein Cynllun Strategol drwy groesawu dulliau digidol a data mwy ystwyth. Byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni'r effaith fwyaf posibl drwy adeiladu ar ddulliau arloesol sy'n gweithio, gan roi defnyddwyr wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud a thrwy ganolbwyntio'n ddiwyro ar wella ansawdd.

Mae ein gwaith i alluogi ein Cynllun Strategol i gael ei gyflawni'n llwyddiannus yn dod dan y meysydd canlynol:

- Datblygu ein sefydliad i fod yn lle gwych i weithio
- Gwneud y defnydd mwyaf o ddulliau digidol, data a thystiolaeth i wella iechyd cyhoeddus
- Creu'r amodau a'r strwythurau i fod yn sefydliad sy'n gwella ac yn dysgu'n barhaus drwy ddefnyddio data a gwyddor ymddygiad i sbarduno ansawdd, ymgysylltu a chydweithredu
- Cyflawni gwerth a gwella ein perfformiad a'n gwaith cyflawni

2.7.1 Datblygu ein sefydliad i fod yn lle gwych i weithio

SO7.1 Erbyn 2026, bydd gennym naratif diwylliannol cymhellol, byddwn yn gweithio sut a lle y mae'n gweithio orau, bydd gennym ddatganiad gwerth cyflogeion sy'n croesawu hyblygrwydd a chynwysoldeb, yn deall ac yn cefnogi amrywiaeth ac yn denu ac yn recriwtio fel bod ein pobl yn adlewyrchu'n fwy cywir y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Yn dilyn ymgynghoriad eang ac asesiad o'n diwylliannau presennol a delfrydol, byddwn wedi datblygu a mynegi naratif diwylliannol cymhellol, y mae ein gwerthoedd yn sail iddo a bod ein fframwaith gorau. Bydd yr holl gydweithwyr yn gallu gweld, a rhannu yn eu geiriau eu hunain, sut y mae ein Strategaeth Hirdymor yn cael ei hategu gan ein diwylliant, a'i chyflawni drwyddo. Yn dilyn dull gweithredu peilot i weithio lle y mae'n gweithio orau yn 2022/23 ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o lle a sut y mae ein pobl yn gweithio orau, byddwn yn ceisio edrych ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu ac yn defnyddio'r mewnwelediadau hyn i lywio polisïau, arferion, a ffyrdd o weithio sy'n galluogi ein pobl i ffynnu. Bydd ein dull gweithredu cynhwysol ac ymgynghorol wedi ein galluogi i lunio datganiad gwerth cyflogeion a brand sy'n gweithio i bawb, gan adlewyrchu profiadau a disgwyliadau cyflogeion. Byddwn wedi datblygu prosesau newydd i gefnogi pobl ar bob cam o'u gyrfa a byddwn yn cefnogi pawb i ddeall pam y mae llesiant, amrywiaeth a chynhwysiant cyflogeion o bwys.

SO7.2 Erbyn 2026, byddwn yn mynd ati i gynllunio a rheoli tuag at faint a ffurf orau y cytunwyd arnynt ein gweithlu sy'n gyson â'n strategaeth, yn rheoli newid yn llwyddiannus, bydd gennym gynlluniau a dulliau gweithredu clir i ddatblygu neu gyrchu'r sgiliau y mae arnom eu hangen a byddwn wedi cynyddu ystwythder ac yn defnyddio adnoddau lle y mae eu hangen, gan leihau seilos a chynyddu cydweithrediad i ategu perfformiad sefydliadol

Byddwn yn sicrhau bod strwythur ein sefydliad â'r cynllun gorau posibl a byddwn yn gweithio tuag at hyn drwy gymhwyso egwyddorion cynllunio y cytunwyd arnynt, a fydd yn llywio penderfyniadau ar newid sefydliadol. Drwy ein dull gweithredu ar gyfer cynllunio'r gweithlu, byddwn wedi cadarnhau pa anghenion sy'n cael eu diwallu, lle nad ydynt yn cael eu diwallu a byddwn yn gallu mynegi'r bwlch yn gywir. Bydd cynlluniau clir ar waith gennym i nodi sut y bydd y bylchau hynny'n cael eu cau a, thrwy hynny, yn galluogi'r atebion a'r ymyriadau sydd eu hangen i gael eu datblygu. Byddwn wedi cryfhau ein cronfeydd talent mewnol drwy ddatblygu llwybrau gyrfa, a chynlluniau olyniaeth, yn ogystal â chyflwyno atebion penodol ar ffurf interniaethau a lleoliadau i fyfyrwyr. Bydd gennym frand cryf a strategaeth denu benodol arloesol ar waith ar gyfer sgiliau prin.

SO7.3 Erbyn 2026, bydd gennym bolisïau, prosesau a gwasanaethau ategol sy'n sbarduno ac yn galluogi perfformiad uchel drwy reolwyr a metrigau pobl allweddol a fydd yn llywio cynllunio, penderfyniadau a rheolaeth tîm.

Byddwn yn sicrhau bod ein polisïau, proses a gwasanaethau ategol yn galluogi ein gweithlu i gyflawni ar eu hymrwymiadau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Byddwn yn defnyddio metrigau pobl allweddol i lunio ein dull er mwyn prosesu gwelliant ar draws pob agwedd ar gylch oes cyflogai ac yn ceisio dileu unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen sy'n gysylltiedig â phroses a gweithdrefn Pobl a Datblygu Sefydliadol

Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

Amcan	Cerrig milltir
SO7.1 Erbyn 2026 Diwylliant a phrofiad bydd gennym naratif diwylliannol cymhellol, byddwn yn gweithio sut a lle y mae'n gweithio orau, bydd gennym ddatganiad gwerth cyflogeion sy'n croesawu hyblygrwydd a chynwysoldeb, yn deall ac yn cefnogi amrywiaeth ac yn denu ac yn recriwtio fel bod ein pobl yn adlewyrchu'n fwy cywir y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.	**2023-24** **Chwarter 2** • Wedi mynegi datganiad gwerth cyflogeion cymhellol sy'n seiliedig ar adborth rhanddeiliaid a deallusrwydd marchnad a map ffordd a fydd yn sail i'w gyflawni **Chwarter 3** • Datblygu dull gweithredu strategol a systemig ar gyfer ymgysylltu â chyflogeion sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chynllun gweithredu ar gyfer sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni. **Chwarter 4** • Llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028 a bodloni'r holl rwymedigaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a osodir arnom gan y Ddeddf Cydraddoldeb, Llywodraeth Cymru ac eraill **2024-25** • Dangos gwelliannau mewn sgorau ymgysylltu • Ailasesu ein diwylliant i fesur y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at y cyflwr a ddymunir • Cyflawni'r map ffordd datganiad gwerth cyflogeion **2025-26** • Gweithlu mwy amrywiol wedi'i gyflawni sy'n adlewyrchu'r boblogaeth a chynrychiolaeth well ar bob lefel o'r sefydliad • Dangos gwelliannau mewn sgoriau ymgysylltu a deall sbardunau newid • Gwerthuso effaith datganiad gwerth cyflogeion i sicrhau ei fod yn cyflawni yn erbyn y canlyniadau a fwriedir
SO7.2 Erbyn 2026 Effeithiolrwydd sefydliadol byddwn yn mynd ati i gynllunio a rheoli tuag at faint a ffurf orau y cytunwyd arnynt ein gweithlu sy'n gyson â'n strategaeth hirdymor, yn rheoli newid yn llwyddiannus, bydd gennym ddulliau gweithredu clir i ddatblygu neu gyrchu'r sgiliau y mae arnom eu hangen a	**2023-24** **Chwarter 2** • Egwyddorion dyluniad sefydliadol wedi'u creu sy'n galluogi ein hamcanion strategol i gael eu cyflawni • Datblygu a gweithredu ein dull gweithredu ar gyfer comisiynu ac adnoddau i ategu newid sefydliadol • Darparu golwg cyfannol ar ein gweithlu presennol a'n gweithlu a ddisgwylir a rolau hanfodol y gweithlu, cynlluniau clir sy'n cynnwys atebion ac ymyriadau wedi'u gweithio drwyddynt i roi sicrwydd ar y gweithlu sy'n ofynnol i gyflawni ein blaenoriaethau **Chwarter 3** • Nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni ein hamcanion strategol a bydd cynlluniau'n cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r rhain **Chwarter 4**

Amcan	Cerrig milltir
byddwn wedi cynyddu ystwythder ac yn defnyddio adnoddau lle y mae eu hangen, gan leihau seilos a chynyddu cydweithrediad i ategu perfformiad sefydliadol	• Sicrhau bod systemau ar waith i roi'r cymorth sydd ei angen i gefnogi swyddogaethau'r Cyfarwyddwr Meddygol/Swyddog Cyfrifol a chymorth ailddilysu/proffesiynol i feddygon ymgynghorol amlbroffesiynol
	2024-25
	• Gweithredu ein dull gweithredu ar gyfer dyluniad sefydliadol i ategu gwaith i gyflawni ein hamcanion strategol • Gweithredu ffyrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru o weithio (systemau/prosesau) i ategu ystwythder, cydnerthedd a chydweithio • Integreiddio ein dull gweithredu ar gyfer cynllunio'r gweithlu â dull gweithredu strategol Cymru gyfan
	2025-26
	• Ymgorffori ein dull gweithredu ar gyfer cynllun sefydliadol i ategu gwaith i gyflawni ein hamcanion strategol • Adolygu'r cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithlu i gyflawni ein maint a ffurf orau • Mesur effaith datblygiad arweinyddiaeth a chynlluniau datblygu sgiliau ar berfformiad sefydliadol
SO7.3 Erbyn 2026 Busnes a phrosesau Bydd gennym bolisïau, prosesau a gwasanaethau ategol sy'n sbarduno ac yn galluogi perfformiad uchel drwy reolwyr a metrigau pobl allweddol a fydd yn llywio cynlluniau, penderfyniadau a rheolaeth tîm.	2023-24
	Chwarter 1
	• Diffinio a sefydlu DPA Pobl a Datblygu Sefydliadol i sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid ac yn defnyddio'r rhain i sbarduno perfformiad uchel a gwella darpariaeth gwasanaeth • Darparu hyfforddiant i gydweithwyr Pobl a Datblygu Sefydliadol ar ddulliau gweithredu ar gyfer gwella prosesau. Bydd cydweithwyr yn defnyddio hyn i wella'n barhaus yr holl agweddau ar ddarparu gwasanaeth i'n cwsmeriaid
	Chwarter 2
	• Cyflawni system e-amserlennu effeithiol sy'n helpu i amserlennu sifftiau'n effeithiol
	Chwarter 3
	• Wedi cyflawni prosesau symlach ac adnoddau ategol mynediad hawdd i helpu rheolwyr drwy gydol y cylch oes cyflogeion
	2024-25
	• Wedi darparu mewnwelediadau pobl yn rheolaidd i arweinwyr a rheolwyr sy'n cael eu defnyddio i alluogi penderfyniadau, rheolaeth a gwaith cynllunio gwell • Puro'r cofnod staff electronig a bydd prosesau ar waith i sicrhau y cynhelir uniondeb data yn y cofnod staff electronig
	2025-26
	• Ymgorffori ein gwerthoedd a'r fframwaith Bod ar ein Gorau yn yr holl bolisïau a phrosesau Pobl a Datblygu Sefydliadol.

2.7.2 Gwneud y defnydd mwyaf o ddulliau digidol, data a thystiolaeth i wella iechyd cyhoeddus

SO7.4 Erbyn 2026, byddwn yn darparu'r dystiolaeth data, dadansoddi, ymchwil a gwerthuso i wella iechyd a llesiant Cymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd

Nid yw'r GIG yng Nghymru yn casglu'n systematig y data angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n deg ac yn gwella canlyniadau ymhlith yr holl boblogaethau. Ni allwn fonitro anghydraddoldebau iechyd na chwynion defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol, ac mae ein gallu i adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio i leihau anghydraddoldebau iechyd yn wan. Byddwn yn pennu bylchau mewn tystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio i wella iechyd a lleihau annhegwch drwy ein Gwasanaeth Tystiolaeth. Yna, mewn cydweithrediad â'n His-adran Ymchwil a Gwerthuso, byddwn yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen ymchwil a gwerthuso sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau ar gyfer anghenion tystiolaeth y Llywodraeth a defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fonitro a gwerthuso effaith camau gweithredu polisi iechyd cyhoeddus allweddol ar iechyd, gan gynnwys Pwysau Iach: Cymru Iach, a Rheoli Tybaco.
- gwerthuso Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan
- ymchwil a gwerthuso sy'n ategu'r strategaeth iechyd meddwl newydd
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i wella'r sylfaen dystiolaeth a dealltwriaeth o'r dystiolaeth ar gyfer polisïau iechyd cyhoeddus allweddol.

Byddwn yn parhau i fonitro effeithiau'r pandemig, a straen arall ar iechyd, fel yr argyfwng costau byw, gordewdra a newid hinsawdd, ar draws yr holl agweddau ar iechyd y boblogaeth. Byddwn yn cefnogi datblygiad ymchwil yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyson â'n cryfderau, ac yn parhau i ddylanwadu ar y dirwedd ymchwil ehangach a chyllidwyr i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth mewn meysydd blaenoriaeth ar gyfer iechyd yng Nghymru. Byddwn yn ceisio dylanwadu ar yr agenda ymchwil ehangach i gynghori ynghylch mynd i'r afael â gofynion y tu allan i'n cylch gwaith presennol.

Byddwn yn parhau i ddatblygu dangosfwrdd sy'n galluogi monitro Covid-19 amser iawn, clefydau anadlol a throsglwyddadwy eraill, ymddygiad sy'n niweidio iechyd, llesiant, effeithiau baich clefyd ar grwpiau eraill, e.e. canser, a chydraddoldeb. Bydd hyn yn ein symud yn nes at fonitro amser real ar gyfer bygythiadau iechyd cyhoeddus.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod ein data wedi'u cysylltu â Chyfrifiad 2021 cyn gynted â phosibl ar ôl i ganlyniadau'r Cyfrifiad fod ar gael a dadansoddi'n systematig yr holl agweddau ar iechyd a chydraddoldeb sy'n cwmpasu nodweddion gwarchodedig, cyflogaeth, a statws economaidd-gymdeithasol.
- Gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac arweinwyr y GIG i weithredu'r prosesau systematig i sicrhau bod data i fonitro cyfraddau hawlio, canlyniadau a chydraddoldeb

yn cael eu casglu fel mater o drefn a'u bod ar gael i'w dadansoddi ar draws y GIG yng Nghymru.

- Adolygu'n systematig a gwella'r defnydd o wybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws ein holl allbynnau.
- Datblygu gallu i werthuso'n gyflym yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.
- Sicrhau bod ein holl gasgliadau data yn casglu gwybodaeth cydraddoldeb yn systematig ac yn ddiogel, wedi'i safoni pan fo'n briodol ar ddiffiniadau Cyfrifiad 2021

Byddwn yn cynyddu ein ffocws ar werthuso wrth i ni geisio cymhwyso a datblygu methodolegau sy'n gwneud y defnydd gorau o ddata, mewnwelediadau ansoddol ac economaidd i ddeall yn well pa ymyriadau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau iechyd, yn enwedig i boblogaethau sydd mewn mwy o berygl. Byddwn yn grymuso arweinwyr ymchwil i ddarparu rhagoriaeth ymchwil yn y sefydliad ac mewn partneriaeth ag eraill; yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth yn unol â blaenoriaethau iechyd cyhoeddus a chyda chymorth model llywodraethu integredig, effeithlon ac effeithiol.

Byddwn yn cydweithio ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar yr Adnodd Data Cenedlaethol a'r Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n bod yn cyfrannu at eu datblygu'n llawn. Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu ein Storfa Ddata Leol i gyfrannu at y Storfa Ddata Genedlaethol a sicrhau bod ein systemau a'n safonau'n rhyngweithredol a datblygu ein gwasanaethau yn unol â'r technolegau sydd wedi'u galluogi drwy'r Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd. Rydym wedi cwblhau ein cam cyntaf ar y daith hon drwy gwblhau:

- cam darganfod ar gyfer y Gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig.
- cynllunio a darparu dangosfwrdd sy'n dod â'r brif wybodaeth allweddol am bob elfen o iechyd cyhoeddus i bwynt cyfeirio canolog.

SO7.5 Erbyn 2026, byddwn yn ceisio moderneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu gwasanaethau digidol modern, sy'n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau i wella iechyd a llesiant pobl Cymru.

Byddwn yn cynorthwyo'r system i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau yng Nghymru. Mae arnom angen system ryng-gysylltiedig o ddata, mewnwelediad a chymwysiadau sy'n galluogi gwybodaeth amser iawn i fod yn hygyrch ac yn weithredadwy i'n defnyddwyr.

Byddwn yn ceisio gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael i ni drwy wella ein hasedau data presennol. Byddwn yn dod â nhw at ei gilydd i harneisio mewnwelediadau iechyd yn well ac arloesi ar yr un pryd gyda thechnolegau newydd yn casglu data newydd megis gan synwyryddion a thechnoleg wisgadwy i ddarparu gwyddor data broffesiynol i sbarduno darpariaeth reng flaen. Byddwn yn archwilio'r defnydd o setiau data trydydd parti i wella ein dealltwriaeth o ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Byddwn yn defnyddio ein galluoedd gwyddor data, gan gynnwys dadansoddeg ragfynegol. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i ni rannu rhagor o wybodaeth weithredadwy ansawdd uchel amser

real a manwl gywir â gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol ynghylch pwy i'w targedu mewn dull gweithredu ataliol a chynaliadwy poblogaeth gyfan.

Byddwn yn ceisio croesawu ffyrdd digidol o weithio ar gyfer data a thystiolaeth, yn ogystal ag yn ein darpariaeth weithredol. Fel rhan o'r flaenoriaeth hon, byddwn yn cynorthwyo ac yn ehangu capasiti a sgiliau yn y maes hwn ar draws y sefydliad a'r system ehangach, gan feithrin cymuned ddigidol a data ffyniannus. Er mwyn fframio'r camau gweithredu hyn a sicrhau ein bod yn diwallu anghenion, byddwn yn datblygu ein galluoedd digidol a data, a fydd yn gyson â strategaethau Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y meysydd hyn.

Byddwn yn gallu gwneud y newid i roi'r defnyddiwr wrth wraidd cynllunio systemau. Fel rhan o'r ffordd hon o weithio, byddwn yn datblygu cynhyrchion sy'n gwella canlyniadau drwy ddatblygiad a gynhelir mewn partneriaeth â'r defnyddiwr a gweithio mewn ffordd ystwyth i iteru, bod yn hyblyg, addasu a datblygu'n gyflym. O ganlyniad, gellir ymgorffori gwersi'n gyflymach mewn gwelliannau i sicrhau ein bod yn sicrhau'n defnyddioldeb a'n heffaith fwyaf posibl gyda'n defnyddwyr.

Byddwn yn cynyddu ein heffaith drwy wella ein dealltwriaeth o'n cynulleidfaoedd, gan ganolbwyntio ar werthusiad defnyddwyr a chynllunio gwasanaeth. Drwy ddefnyddio personâu defnyddwyr, bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu cynhyrchion a thystiolaeth a fydd yn cael yr effaith fwyaf. Byddwn yn monitro ein llwyddiant drwy weithredu dull systematig ar gyfer monitro effaith.

Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

Amcan	Cerrig milltir
SO7.4 Erbyn 2026, Byddwn yn darparu'r dystiolaeth data, dadansoddi, ymchwil a gwerthuso i wella iechyd a llesiant Cymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.	2023-24
	Chwarter 2
	• Gweithredu strategaeth ymchwil a gwerthuso trwy hwyluso gwaith i ddatblygu a darparu ymchwil a gwerthuso effeithiol yn unol â'r diffiniad yn strategaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru • Cydgynhyrchu rhaglen ymchwil a gwerthuso sy'n ategu'r strategaeth iechyd meddwl newydd
	Chwarter 3
	• Gweithredu dull monitro effaith ymchwil a thystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru • Datblygu gwaith i ddarparu a blaenoriaethu gwyddor data, cymorth dadansoddeg a thystiolaeth gan weithio gyda Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, timau iechyd cyhoeddus lleol a rhanddeiliaid perthnasol eraill Iechyd Cyhoeddus Cymru • datblygu a darparu rhaglen ymchwil, data a gwerthuso ar gyfer anghydraddoldebau iechyd
	Chwarter 4
	• Mabwysiadu cyfres o egwyddorion cyhoeddi sefydliadol ar gyfer adroddiadau safonau • Darparu tri phrosiect gwyddor data a phum prosiect tystiolaeth effeithiol. • Datblygu rhaglen waith ar gyfer awtomeiddio, cydweithredu â phartneriaid i ddatblygu dulliau awtomataidd o gipio data. • Datblygu'r haen nesaf o ddangosfyrddau ar gyfer monitro iechyd a'r system iechyd yng Nghymru, mewn partneriaeth ar draws y sefydliad. • Datblygu proffesiynau a sgiliau (digidol, data, gwerthuso, dadansoddi) i alluogi safonau proffesiynol i gael eu cyflawni, eu gosod a'u codi.
	2024-25
	• Cwblhau cysoniad rhwng presenoldeb gwe'r Gyfarwyddiaeth Data, Gwybodaeth ac Ymchwil a chanlyniadau darganfod ac alffa ar gyfer yr ystad ar y we. Datgomisiynu brandiau mewn ffordd dryloyw, gynhwysol a chefnogol. • Myfyrio ar weithredu'r strategaeth ymchwil a gwerthuso o 2023/24, ac anghenion ar gyfer y dyfodol • Darparu rhagor o werthusiadau wedi'u cysoni'n strategol i benderfynu ar 'yr hyn sy'n gweithio' (camau gweithredu gwasanaethau a pholisi) i leihau anghydraddoldebau iechyd • Parhau â'r ymrwymiad i gydweithredu â Chanolfan Tystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW), gan lunio adroddiadau o ansawdd uchel i ategu polisi ac ymarfer yng Nghymru • Llunio adroddiadau monitro effaith blynyddol • Sefydlu Cymuned Ymarfer ar gyfer ystadegau swyddogol
	2025-26
	• Adolygu rhaglen werthuso i benderfynu ar effeithiolrwydd y rhaglen
SO7.5 Erbyn 2026,	2023-24

Amcan	Cerrig milltir
Byddwn yn ceisio moderneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu gwasanaethau digidol modern, sy'n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr i wella iechyd a llesiant pobl Cymru.	**Chwarter 1** • Sefydlu gweithio ystwyth, cynllunio defnyddwyr ac ymchwil profiad defnyddwyr fel egwyddorion sylfaenol yn y Gyfarwyddiaeth Data a Gwybodaeth, gan hyrwyddo'r dull ar draws y sefydliad • Cwblhau Alffa ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a pharhau i Beta os yw'n flaenoriaeth ac os yw cyllid ar gael
	Chwarter 2 • Parhau i baratoi ac ymgysylltu â pharodrwydd digidol ar gyfer e-ragnodi/gwasanaethau digidol i gleifion a'r cyhoedd • Cwblhau Alffa ar gyfer gwasanaethau sgrinio a datblygu cynlluniau ar gyfer integreiddio'n barhaus a datgomisiynu systemau sgrinio etifeddol os yw'n flaenoriaeth ac os yw'r cyllid yn caniatáu hynny • Datblygu galluoedd adrodd a llwybrau dadansoddi cyflym Gwyliadwriaeth Amser Real Lle yr Amheuir Hunanladdiad
	Chwarter 4 • Datblygu ein cofrestrfeydd ymhellach i wneud y defnydd mwyaf o'n hadnoddau data a'n hallbynnau cynnydd, yn amodol ar argaeledd cyllid • Cwblhau gwerthusiad canlyniadau Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan ar iechyd a thegwch
	2024-25 • Darparu rhagor o werthusiadau wedi'u cysoni'n strategol i benderfynu ar 'yr hyn sy'n gweithio' (camau gweithredu gwasanaethau a pholisi) i wella iechyd a llesiant • Darparu un gronfa afiechydon fyw a pharhau i ychwanegu cofrestrau at y system fyw, wrth ddatgomisiynu cofrestrau annibynnol a gwella mynediad i'r holl ddefnyddwyr at ddata ansawdd uwch, yn dibynnu ar lwyddiant a chanlyniadau camau blaenorol a chyllid • Archwilio caffael data ychwanegol yn y casgliad a ffynonellau eilaidd • Parhau i ychwanegu systemau ym maes sgrinio, cofrestrau ym maes cofrestrau, a datgomisiynu gwasanaethau digidol etifeddol, dyblyg neu ddiangen, i gyflawni cyfrifoldebau ar gyfer Adnodd Data Cenedlaethol, Gofal Iechyd Seiliedig ar Werthoedd, dealltwriaeth well o iechyd y boblogaeth a gofal iechyd gwell pryd a lle y bo'i angen
	2025-26 • Cynnal rhaglenni darganfod, alffa neu beta yn ôl yr angen yn unol â blaenoriaethau sefydliadol ac argaeledd cyllid

2.7.3 Creu'r amodau a'r strwythurau i fod yn sefydliad sy'n gwella ac yn dysgu'n barhaus drwy ddefnyddio data a gwyddor ymddygiad i sbarduno ansawdd, ymgysylltu a chydweithredu

SO7.6 Erbyn 2026, byddwn yn sicrhau bod egwyddorion Llywodraethu Integredig yn dod â chydlyniaeth, cysondeb a symlrwydd i sut rydym yn llywodraethu ac yn galluogi'r sefydliad, â ffocws penodol ar lywodraethu corfforaethol, llywodraethu clinigol a llywodraethu gwybodaeth.

Byddwn yn sicrhau bod egwyddorion Llywodraethu Integredig yn galluogi'r sefydliad drwy ffocws o'r newydd ar wneud penderfyniadau, dirprwyo awdurdod a sicrhau bod Llywodraethu Integredig mewn safle fel elfen annatod o Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol. Yn ganolog i'r gwaith hwn y bydd pwyslais ar saernïaeth risg effeithiol, gan ddatblygu golwg sefydliadol ar risg a pharodrwydd i dderbyn risg ar bob lefel. Yn ogystal, byddwn yn adeiladu ar waith y prosiect Rheoli Cofnodion, gan ymgorffori polisïau a gweithdrefnau, hyfforddiant, a chreu a chyhoeddi offerynnau a thechnegau effeithiol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

SO7.7 Erbyn 2026, byddwn yn creu'r amodau ar gyfer dysgu a gwella parhaus i alluogi darparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf. Gyda chymorth datblygu a gweithredu Fframwaith Llywodraethu Clinigol a defnyddio Ein Dull Ymgysylltu, byddwn yn gweithio i sicrhau cysondeb, tryloywder a bod yn agored

Gyda ffocws ar fwyhau llais pobl rydym am weithio gyda nhw ac iddynt, byddwn yn cyflawni blwyddyn tri Ein Dull o Ymgysylltu, a fydd yn cynnwys datblygu Fframwaith Profiad Defnyddwyr. Byddwn yn gweithredu, yn cyflawni ac yn monitro rheoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd, gan sicrhau y bodlonir cyfrifoldebau unigol a sefydliadol. Byddwn yn parhau i ddatblygu a chwblhau Fframweithiau Llywodraethu Clinigol a Gwyliadwriaeth Glinigol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gyflawni cysondeb ag Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol.

SO7.8 Erbyn 2026, wrth gynorthwyo gwaith amlbroffesiynol, bydd gan ein pobl fynediad teg at gyfleoedd datblygu proffesiynol perthnasol a fframweithiau effeithiol sy'n eu galluogi i wneud y mwyaf o'u potensial llawn.

Byddwn yn gweithredu ac yn cyflawni'r Fframweithiau Gyrfa, gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau ymgysylltu a nodwyd i wneud y mwyaf o gyfraniad ein pobl at waith Iechyd Cyhoeddus Cymru.

SO7.9 Erbyn 2026, bydd sefydliadau'n cael eu cefnogi i ymgorffori Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn eu holl waith

Byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni dull gweithredu ar draws y system o ran ansawdd a gwella'n barhaus ansawdd ein gwasanaethau a'n cynhyrchion mewn ymateb i'r Ddyletswydd Ansawdd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Byddwn yn gweithredu Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol i gyflawni dull gweithredu system rheoli ansawdd ar draws y sefydliad, gyda chymorth yr Hyb Gwella ac Arloesi i feithrin gallu gwella cynaliadwy drwy gydol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

SO7.10 Erbyn 2026, bydd partneriaethau iechyd rhyngwladol a gwersi ar draws y sefydliad a GIG Cymru yn cael eu cryfhau er mwyn helpu i wella iechyd, llesiant a thegwch iechyd yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Byddwn yn parhau i gryfhau partneriaethau, cydweithredu a chydweithio rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gyfrannu at yr Agenda Iechyd Fyd-eang drwy arbenigedd, tystiolaeth a thrafodaethau. Byddwn yn ymdrechu i wneud y mwyaf o'n cyfraniad i greu 'Cymru Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang, Iachach, Lewyrchus a Mwy Cyfartal', yn ogystal â hyrwyddo'r pum ffordd o weithio, drwy gefnogi partneriaeth ryngwladol, dysgu a rhannu arferion gorau, sefydlu cymuned ymarfer er mwyn helpu i wella llesiant a thegwch iechyd yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Byddwn yn gweithio ar draws y sefydliad a chyda'n partneriaid i ategu gwaith i gyflawni Strategaeth Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwneud y mwyaf o effaith y Ganolfan Cydgysylltu Iechyd Ryngwladol ar draws y GIG, gan ddatblygu a rhannu cyfleoedd, offerynnau ac adnoddau, fel y modiwlau Dinasyddiaeth Fyd-eang, pecynnau cymorth, interniaethau, ymweliadau astudio ac eraill.

SO7.11 Erbyn 2026, byddwn wedi cynyddu cymhwysiad gwyddor ymddygiad mewn polisi ac ymarfer, i optimeiddio'r effaith ar iechyd a llesiant.

Gan gydnabod yr effaith gynyddol y gall cymhwyso gwyddor ymddygiad ei chael, bydd ein Huned Gwyddor Ymddygiad yn parhau i feithrin arbenigedd, galluoedd ehangach, a galluogi gweithgarwch yn y maes hwn, i wella iechyd a llesiant.

Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

Amcan	Cerrig milltir
SO7.6 Erbyn 2026, Byddwn yn ymgorffori ymhellach egwyddorion Llywodraethu Integredig i ddod â chydlyniaeth, cysondeb a symlrwydd i sut rydym yn llywodraethu ac yn galluogi'r sefydliad, â ffocws penodol ar Reoli Risg, Rheoli Cofnodion a Llywodraethu Gwybodaeth	**2023-24** **Chwarter 4** • Cyflawni Blwyddyn Dau o Gynllun Gweithredu'r Model Llywodraethu Integredig mewn synergedd ag Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol, gyda ffocws o'r newydd ar sicrwydd, gwneud penderfyniadau a dirprwyo awdurdod • Cyflawni Blwyddyn Dau o'r Cynllun Datblygu Rheoli Risg, gyda ffocws ar feithrin gwybodaeth ynghylch defnyddio Datix Cloud a datblygu golwg sefydliadol ar risg, gan drosi'r parodrwydd i dderbyn risg strategol ar bob lefel • Cyflawni Blwyddyn Un o'r Cynllun Datblygu Llywodraethu Gwybodaeth, gan gynnwys ffocws ar hyfforddi staff mewn egwyddorion a systemau Llywodraethu Gwybodaeth, gan ddatblygu a chyflawni Cynllun Cyfathrebu ac adolygu mesurau perfformiad • Gweithredu dull corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer rheoli cofnodion, gan ddefnyddio SharePoint gyda ffocws ar gynghori a chynorthwyo Cyfarwyddiaethau a datblygu ac ymgorffori offerynnau a thechnegau effeithiol **2024-25** • Ymgorffori canfyddiadau o Flwyddyn Dau o Gynllun Gweithredu'r Model Llywodraethu Integredig drwy gydol y sefydliad a'u cymhwyso i feysydd arbenigol, e.e.: Llywodraethu Clinigol neu Sgrinio • Cyflawni Blwyddyn Tri o'r Cynllun Datblygu Rheoli Risg • Cwblhau Blwyddyn Dau o'r Cynllun Datblygu Llywodraethu Gwybodaeth • Parhau i weithredu dull gweithredu corfforaethol o ran Rheoli Cofnodion **2025-26** • Gwerthuso effaith gweithredu'r Model Llywodraethu Integredig, gan ystyried datblygiadau a wnaed drwy Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol • Gwerthuso effaith gweithredu'r Cynllun Datblygu Rheoli Risg, gan gynnwys adolygiad a diweddariad • Gwerthuso effaith gweithredu'r Cynllun Datblygu Llywodraethu Gwybodaeth, gan gynnwys adolygiad a diweddariad • Parhau i weithredu dull gweithredu corfforaethol o ran Rheoli Cofnodion
SO7.7 Erbyn 2026, Gan weithredu'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd, byddwn yn creu'r amodau ar gyfer dysgu a gwella parhaus i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf. Gan ddefnyddio Ein Dull o Ymgysylltu, byddwn yn gweithio i sicrhau cysondeb, tryloywder a bod yn agored.	**2023-24** **Chwarter 2** • Cwblhau gwaith i ddatblygu Fframwaith Llywodraethu Clinigol a chael cytundeb arno ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, y mae'r saith conglfaen llywodraethu clinigol a'r chwe pharth ansawdd yn sail iddo, gan gysoni â safle Llywodraethu Clinigol fel elfen annatod o Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol **Chwarter 3** • Cyflawni Blwyddyn Tri o'r Cynllun Ein Dull o Ymgysylltu erbyn diwedd 2023/2024, gyda ffocws ar fwyhau llais pobl rydym am weithio gyda nhw ac iddynt drwy ddatblygu Fframwaith Profiad Defnyddwyr wedi'i lywio gan ddata wedi'u cynhyrchu drwy lwyfan Civica a chydweithrediad â'r trydydd sector

Amcan	Cerrig milltir
	• Defnyddio'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol a ddatblygwyd ac y cytunwyd arno yn 2023-24, gan weithredu gofynion y Ddyletswydd Ansawdd
	Chwarter 4
	• Cyflawni a monitro gweithrediad rheoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd, gyda ffocws ar gynnwys yr effaith ar feysydd gwasanaeth, gan sicrhau y bodlonir cyfrifoldebau unigol a sefydliadol a bod adroddiad blynyddol yn cael ei lunio o'r gwersi a nodwyd ar gyfer 2023/2034
	2024-25
	• Ymgorffori canfyddiadau o werthusiad y Rhaglen Ein Dull o Ymgysylltu drwy gydol Iechyd Cyhoeddus Cymru. • Parhau i weithredu rheoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd a datblygu fforwm dysgu traws-sefydliadol yn dilyn digwyddiadau rhannu gwersi Digwyddiadau Difrifol a Dyletswydd Gonestrwydd.
	2025-26
	• Gwerthuso'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol, gan ystyried datblygiadau a wnaed drwy Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol • Parhau i ymgorfforir canfyddiadau o werthusiad y Rhaglen Ein Dull o Ymgysylltu drwy gydol Iechyd Cyhoeddus Cymru • Gwerthuso gweithrediad y Ddyletswydd Gonestrwydd a'i chymhwyso yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda'r bwriad o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn fwy yn y broses ymchwilio
SO7.8 Erbyn 2026, Wrth gynorthwyo gwaith amlbroffesiynol, bydd gan ein pobl fynediad teg at gyfleoedd datblygu proffesiynol perthnasol a fframweithiau effeithiol sy'n eu galluogi i wneud y mwyaf o'u potensial llawn.	2023-24
	Chwarter 2
	• Datblygu dull i ddiwallu anghenion datblygu ein Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol drwy weithredu'r Fframwaith Gyrfa Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol newydd ei ddatblygu, gan wneud y mwyaf o'u cyfraniad i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd ffocws yn cael ei roi ar y blaenoriaethau ymgysylltu a nodwyd yn 2022/23
	2024-25
	• Parhau i weithredu Fframwaith Gyrfa Iechyd Cyhoeddus Cymru ac ehangu cyfleoedd secondiad/ysgoloriaeth i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru a lleoliadau i fyfyrwyr
	2025-26
	• Gwerthuso Fframwaith Gyrfa Iechyd Cyhoeddus Cymru a fabwysiadwyd ynghylch camu ymlaen mewn gyrfa a gweithgareddau DPP yn Iechyd Cyhoeddus Cymru
SO7.9 Erbyn 2026, bydd sefydliadau'n cael eu cynorthwyo i ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd drwy gydol y sefydliad a bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu llywio gan ffocws ar ansawdd ac ymrwymiad i fod	2023-24
	Chwarter 2
	• Lansio porth syniadau i gasglu syniadau gwella ac arloesi fel rhan o'r Hyb Gwella ac Arloesi • Dangos bod yr holl benderfyniadau strategol a threfniadau comisiynu a lletya'n cael eu gwneud drwy lens ansawdd. • Cysoni'r seilwaith ansawdd â'r safon ansawdd newydd. Wedi cwblhau'r don gyntaf o hyfforddiant Hyb Gwella ac Arloesi • Lansio'r don gyntaf o'r Hyb Gwella ac Arloesi • Cynnal cysoniad ac adolygiad Blwyddyn 1 Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol
	Chwarter 3

yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan ansawdd.	• Yr holl staff wedi'u hyfforddi yn y Ddyletswydd Ansawdd i lefel y penderfynwyd arni • Hyb Gwella ac Arloesi wedi lansio'r ail don o Hyfforddiant Gwella
	Chwarter 4
	• Yr holl weithdai arweinyddiaeth Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol wedi'u cwblhau gan Swyddogion Gweithredol ac Uwch-arweinwyr • Y broses ffurfiol o drosglwyddo atebolrwydd a rheoli prosiect ar gyfer y Ddyletswydd Ansawdd, cynllun gwaith yr Hyb Cydgysylltu Arloesi Rhanbarthol a'r Hyb Gwella ac Arloesi wedi'i chwblhau
	2024-25
	• Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol cyntaf y Ddyletswydd Ansawdd
	2025-26
	• Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd
SO7.10 Erbyn 2026, Bydd partneriaethau iechyd rhyngwladol a gwersi ar draws y sefydliad a GIG Cymru yn cael eu cryfhau er mwyn helpu i wella llesiant a thegwch iechyd yn genedlaethol ac yn fyd-eang.	2023-24
	Chwarter 1
	• Adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol sy'n llywio polisi ac arfer iechyd cyhoeddus wedi'u datblygu
	Chwarter 2
	• Adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol sy'n llywio polisi ac arfer iechyd cyhoeddus wedi'u datblygu • Strategaeth Iechyd Rhyngwladol wedi'i hadnewyddu yn cynorthwyo dysgu rhyngwladol a'r gymuned ymarfer ar draws y sefydliad
	Chwarter 3
	• Adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol sy'n llywio polisi ac arfer iechyd cyhoeddus wedi'u datblygu • Ymgorffori egwyddorion a gwerth gwell partneriaethau iechyd rhyngwladol ar draws y GIG: dathlu 10 mlynedd o'r Ganolfan Cydgysylltu Iechyd Ryngwladol
	Chwarter 4
	• Adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol sy'n llywio polisi ac arfer iechyd cyhoeddus wedi'u datblygu
	2024-25
	• Nodi cyfleoedd ac adnoddau i ehangu gwaith partneriaeth iechyd rhyngwladol ledled Cymru • Rôl arwain iechyd a dinasyddiaeth fyd-eang ryngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i chryfhau
	2025-26
	• Adroddiad Cynnydd 2022-24 y Ganolfan Cydgysylltu Iechyd Ryngwladol wedi'i ddatblygu • Gwaith i werthuso a datblygu offerynnau i gynorthwyo Bwrdd Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol a'r GIG ehangach wedi'i gwblhau
SO7.11 Erbyn 2026, Byddwn wedi cynyddu cymhwysiad gwyddor ymddygiad mewn polisi ac ymarfer, i optimeiddio'r effaith ar iechyd a llesiant.	2023-24
	Chwarter 3
	• Datblygu dulliau gweithredu ar draws y system i integreiddio gwyddor ymddygiad ar gyfer optimeiddio'r effaith sefydliadol ar flaenoriaethau iechyd cyhoeddus
	Chwarter 4

	• Datblygu cynllun strategol ar gyfer cymhwyso gwyddor ymddygiad ar gyfer iechyd gwell wedi'i gydgynhyrchu â rhanddeiliaid cenedlaethol a rhyngwladol
	2024-25
	• Rhaglen waith a chydweithredu Gwyddor Ymddygiad wedi'i datblygu ymhellach. • Cynnydd wedi'i wneud yn y defnydd o gymwyseddau proffesiynol a safonau ar gyfer cymhwyso gwyddor ymddygiad i gynyddu'r effaith gynaliadwy • Adolygiad wedi'i gynnal o Fframwaith Gweithredu Mewnwelediadau Ymddygiadol a Diwylliannol Sefydliad Iechyd y Byd
	2025-26
	• Rhaglen waith a chydweithredu Gwyddor Ymddygiad wedi'i datblygu ymhellach • Meysydd blaenoriaeth wedi'u nodi ar gyfer cymhwyso ymhellach gwyddor ymddygiad ar gyfer gwella iechyd a llesiant

2.7.4 Cyflawni gwerth a gwella ein perfformiad a'n gwaith cyflawni

SO7.12 Erbyn 2026, byddwn yn gweithredu ein strategaeth yn effeithiol ac yn ei chyfleu i'n rhanddeiliaid allweddol ac yn sicrhau bod ein staff yn deall eu rôl wrth ei chyflawni fel eu bod yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi, eu parchu a'u cydnabod.

Byddwn wedi cyhoeddi ein strategaeth newydd, sy'n dangos cyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru at gyflawni'r saith nod llesiant cysylltiedig ar gyfer Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn hefyd yn sefydlu model i alluogi sganio'r gorwel ar gyfer cyfleoedd neu heriau yn y dyfodol, i reoli newid yn effeithiol a darparu mewnwelediadau ar ein cynnydd i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl a sicrhau bod ein Strategaeth Hirdymor yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus. Byddwn yn mynd ati i adrodd ein stori i'n staff, gan sicrhau bod y staff yn deall strategaeth y sefydliad ac, yn benodol, yn helpu staff i wybod sut y gallant gyfrannu at lwyddiant y sefydliad. Drwy wneud hyn, bydd staff yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi, eu parchu a'u cydnabod a byddwn yn grymuso ein staff i wneud eu swyddi i'r safon ansawdd a ddisgwylir. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ein cynulleidfaoedd allanol, yn helpu rhanddeiliaid, llunwyr polisi, y wasg a'r cyhoedd i ddeall rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth sicrhau Cymru iachach.

SO7.13 Erbyn 2026, byddwn yn darparu seilwaith ffisegol a digidol amgylcheddol gynaliadwy i'r sefydliad er mwyn gweithredu'n effeithiol ac yn ddiogel.

Gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn 2022, byddwn yn sicrhau bod gennym ystad sy'n cynorthwyo'r amrywiaeth eang o wasanaethau a swyddogaethau rydym yn eu darparu ac yn cynorthwyo newidiadau i'n diwylliant wrth i ni fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio drwy'r treial Gweithio Sut Mae'n Gweithio Orau, gan wneud defnydd gwell o atebion technolegol i wella sut rydym yn gweithredu ac i alluogi'r sefydliad i wneud y defnydd gorau o'i ystad. Byddwn yn cyflawni Strategaeth Ddigidol a Data sy'n nodi ein huchelgeisiau ar gyfer gwasanaethau digidol a saernïaeth data yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Er mwyn cynorthwyo diogelwch a chydnerthedd y sefydliad, byddwn yn cyflawni ein Cynllun Gweithredu Seiber, gan sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyn camau gweithredu'r Fframwaith Asesu Seiber. Byddwn yn buddsoddi yn yr Adran Gwasanaethau Digidol i gadw a denu staff talentog, lliniaru risgiau a bygythiadau, a rheoli ein rhwydweithiau cynyddol, a'n hystad data a digidol. At hynny, byddwn yn pennu cwmpas gwaith i ddarparu gwasanaethau digidol ar gyfer rhaglenni a mentrau newydd, yn ogystal â chynorthwyo a chynnal systemau a seilwaith sefydledig.

SO7.14 Erbyn 2026, byddwn wedi gwella ein hadroddiadau a rheolaeth ariannol a pherfformiad ar draws y sefydliad a gallu dangos ein gwerth a'n heffaith.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cychwyn y cyfnod gyda strategaeth gyllidebol a chynllun ariannol sy'n mantoli'r gyllideb. Bydd trefniadau monitro cadarn o'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn sicrhau y caiff risgiau a chyfleoedd eu rheoli'n briodol. Byddwn yn parhau i gryfhau ein dull o ran rheoli perfformiad a gwerth. Mae'r dull hwn yn cynnwys ffocws cryf ar werth a chanlyniadau wrth ddiffinio, adrodd a rheoli perfformiad ar draws y sefydliad. Mae'r cynllun yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gennym hyd yma a bydd yn sicrhau ein bod yn gwella'r cynhyrchion deallusrwydd busnes presennol i ddiwallu anghenion ein rhanddeiliaid. Yn ogystal,

byddwn yn adeiladu ar ein dull galluogi o ran gwerth ac effaith, gan weithio'n agos gydag eraill i'w ymgorffori yn y dyfodol.

Amcanion Allweddol i'w Cyflawni

Amcan	Cerrig milltir
SO7.12 Erbyn 2026, Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Hirdymor yn effeithiol ac yn ei chyfleu i'n rhanddeiliaid allweddol ac yn sicrhau bod ein staff yn deall eu rôl wrth ei chyflawni.	2023-24
	Chwarter 1
	• Wedi sefydlu trefniadau asesu dichonoldeb cynllunio i fonitro a rheoli'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Strategol a'n rhaglenni newid • Datblygu cynigion/opsiynau ar gyfer llywodraethu ein Strategaeth Hirdymor a phapur arfarnu blaenoriaethau ac opsiynau i'w ystyried • Cynnal adolygiad o'n system gynllunio bresennol yn unol â methodoleg Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol, gan gynnwys argymhellion ar gyfer gwella • Ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ar y Strategaeth Hirdymor wedi'i hadnewyddu • Ymgorffori'r cynnig ymgysylltu â rhanddeiliaid i gleientiaid mewnol er mwyn sicrhau bod egwyddorion cyson o ran rheoli rhanddeiliaid ac ymgysylltu â nhw'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y sefydliad ar gyfer newidiadau gwasanaeth allweddol, cyhoeddiadau a newid Datblygu Sefydliadol • Cytuno ar gynllun gwella Cam 1 ar gyfer prif wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ymateb i ganfyddiadau'r gwaith Darganfod Gwe • Llunio gwerthusiad o weithgarwch cyfathrebu mewnol 2023-24, gan adrodd ar fertigau a chanlyniadau • Cynnig model gweithredu ar gyfer cyfleu newid i fod yn gyson â'r cynnig cymorth newid ehangach ar draws Gweithrediadau a Chyllid • Annog pobl i lenwi Arolwg Staff y GIG
	Chwarter 2
	• Gweithredu trefniadau llywodraethu ar gyfer cyflawni ein strategaeth a'n blaenoriaethau • Cynnal asesiad dichonoldeb chwarterol o'n Cynllun Strategol • Ymgorffori portffolio o adroddiadau newid yn ein trefniadau rheoli perfformiad sefydliadol ehangach • Adolygu ac archifo brandiau/nodau brand nad ydynt yn gyson â'n strategaeth brand er mwyn sbarduno mwy o eglurder ynghylch rôl y sefydliad • Wedi cwblhau tranche pedwar o ymchwil a dadansoddi dealltwriaeth a chanfyddiadau'r cyhoedd a chyhoeddi'r canfyddiadau • Cyflawni cynhadledd staff 2023
	Chwarter 3
	• Cynnal asesiad dichonoldeb chwarterol o'n Cynllun Strategol • Cwblhau'r broses o weithredu ein system gynllunio fewnol ddiwygiedig • Llunio gwerthusiad o weithgarwch rheoli rhanddeiliaid a materion cyhoeddus ac argymell gwelliannau'n seiliedig ar adborth ymgysylltu â rhanddeiliaid • Optimeiddio'r defnydd pe bai Yammer fel sianel gyfathrebu fewnol amlfforddd, gan gynnwys ar gyfer gweledded arweinyddiaeth
	Chwarter 4
	• Cynnal ôl-olwg/rhagolwg strategol blynyddol i asesu cyflawniad blwyddyn 1 o'n strategaeth • Cynnal asesiad dichonoldeb chwarterol o'n Cynllun Strategol

Amcan	Cerrig milltir
	• Llunio gwerthusiad o weithgarwch rheoli rhanddeiliaid a materion cyhoeddus ac argymell gwelliannau'n seiliedig ar adborth rheoli rhanddeiliaid • Adnewyddu strategaeth gyfathrebu fewnol er mwyn bod yn gyson ag amcanion yn ystod y flwyddyn a blaenoriaethau sefydliadol allweddol • Dull gweithredu traws-sefydliadol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd y cytunwyd arno i gefnogi gwaith i gyflawni'r strategaeth hirdymor • Cynnal arolwg cyfathrebu mewnol i ddeall anghenion a dewisiadau staff • Gwerthuso'r defnydd o Yammer a'i effeithiolrwydd
	2024-25
	• Gweithredu proses gynllunio strategol chwarterol sy'n cynnwys asesiad ar ddichonoldeb ar gyfer y sefydliad cyfan • Profi model damcaniaeth newid a chytuno arno i wneud y mwyaf o werth ein cynlluniau sefydliadol ar y cyd a sicrhau bod ein fframwaith canlyniadau'n cael ei gyflawni'n llwyddiannus.
	2025-26
	• Cynnal adolygiad ffurfiol o'r cynnydd yn erbyn ein Strategaeth Hirdymor
SO7.13 Erbyn 2026, byddwn yn darparu seilwaith ffisegol a digidol amgylcheddol gynaliadwy i'r sefydliad er mwyn gweithredu'n effeithiol ac yn ddiogel	2023-24
	Chwarter 1
	• Tŷ Caerllion wedi'i adael a'i roi yn ôl i'r landlord • Cytuno ar y Strategaeth Ddigidol a Data • Gweithredu gwasanaeth hidlo gwe newydd i gefnogi gwaith i ddisodli meddalwedd diwedd oes
	Chwarter 2
	• Cam dau o Ein Gofod Ni Gogledd Cymru wedi'i gychwyn (ar yr amod y cytunir ar y cynllun a chyllid) • Llunio map ffordd y Strategaeth Ddigidol a Data i lywio blaenoriaethau gwasanaethau digidol • Diffinio camau gweithredu o'r Adolygiad Saernïaeth Data
	Chwarter 3
	• Achrediad ISO 140001 wedi'i gyflawni'n llawn yn Iechyd Cyhoeddus Cymru • Parc Dewi Sant, Caerfyrddin, wedi'i adael a'i roi yn ôl i'r landlord • Gofod yng Nghwr y Ddinas 2 wedi'i ailgynllunio a'i ailgyflunio i gefnogi'r ffyrdd newydd o weithio • Cyflawni gwelliannau mesuradwy i'r gwasanaethau sgrinio • Adolygu'r Fframwaith Asesu Seiber a'r Cynllun Gweithredu Seiber yn unol â chyfarwyddebau'r Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth • Cynorthwyo'r gofrestr ganser a'r swyddogaethau dadansoddi i symud i'r un newydd yn lle Canisc
	Chwarter 4
	• Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio wedi'i adnewyddu • Pennu cwmpas y gofyniad busnes ar gyfer Tarian 2 a map ffordd System Rheoli Cynnwys Profi Olrhain Diogelu yn y dyfodol

	2024-25
	• Seilwaith cerbydau trydan wedi'i osod ar draws holl brif safleoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru • Tarian a System Rheoli Cynnwys Profi Olrhain Diogelu wedi'u hadolygu • Cyflawni cynllun gweithredu'r Strategaeth Ddigidol a Data
	2025-26
	• Cytuno ar gynllun ar gyfer safle Cwr y Ddinas 2 yn y dyfodol • Cyflawni cynllun gweithredu'r Strategaeth Ddigidol a Data
SO7.14 Erbyn 2026, Byddwn wedi gwella ein hadroddiadau a rheolaeth ariannol a pherfformiad ar draws y sefydliad a gallu dangos ein gwerth a'n heffaith	2023-24
	Chwarter 1
	• Cynnal Adolygiadau Perfformiad Diwedd Blwyddyn (22-23) ar gyfer y Cyfarwyddiaethau • Cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf manwl wedi dod i law gan y Cyfarwyddiaethau
	Chwarter 2
	• Datblygu model costau Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyflawni Ffurflenni Costau Blynyddol Llywodraeth Cymru • Sicrwydd wedi'i gael gan adolygiad ariannol yr ail chwarter y bydd cyllideb y Cyfarwyddiaethau'n cael ei mantoli erbyn diwedd y flwyddyn
	Chwarter 3
	• Cynnal Adolygiadau Perfformiad Canol Blwyddyn y Gyfarwyddiaeth
	Chwarter 4
	• Cyflawni datganiad perfformiad a gwerth, gan gynnwys dull gweithredu Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer yr economi sylfaenol • Cyllideb wedi'i mantoli erbyn diwedd y flwyddyn
	2024-25
	• Cyflawni'r datganiad Perfformiad a Gwerth • Cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf manwl wedi dod i law gan y Cyfarwyddiaethau • Sicrwydd wedi'i gael gan adolygiadau ariannol o Gyfarwyddiaethau y bydd y gyllideb yn cael ei mantoli erbyn diwedd y flwyddyn
	2025-26
	• Cyflawni'r datganiad Perfformiad a Gwerth • Cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf manwl wedi dod i law gan y Cyfarwyddiaethau • Sicrwydd wedi'i gael gan y Cyfarwyddiaethau y bydd y gyllideb yn cael ei mantoli erbyn diwedd y flwyddyn • Cyllideb wedi'i mantoli erbyn diwedd y flwyddyn

3. Cyflawni a llywodraethu

3.1 Ein Cynllun Ariannol

3.1.1 Sefyllfa Sylfaenol

Yn hanesyddol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflawni sefydlogrwydd ariannol gyda sefyllfa mantoli cyllideb sylfaenol. Mae'r sefyllfa mantoli cyllideb sylfaenol hon yn parhau yn ein cynllun tair blynedd 2023/24. Ceir rhagor o fanylion yng Nghynllun Ariannol a Fframwaith Rheoli Cyllidebol 2023/24 Iechyd Cyhoeddus Cymru (Mawrth 2023).

3.1.2 Ein cynllun refeniw

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael twf refeniw sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf gydag elfennau o'r twf hwn wedi'u cyllido y tu allan i ddyraniadau craidd rheolaidd.

Item	2023/24 In-Year (£m)	2024/25 (£m)	2025/26 (£m)	Recurrent (£m)
Income				
2022/23 Income (Core & Non-Core)	162.092	162.092	162.092	162.092
Confirmed Welsh Governement Allocation Uplift (Core & Non-Core)	22.232	1.299	1.056	1.056
Anticipated Welsh Government Allocations	7.721	10.509	8.921	8.921
Non-NHS Income Uplifts	0.351	0.351	0.351	0.351
Total 2022/23 Income	**192.395**	**174.250**	**172.419**	**172.419**
Expenditure				
2022/23 Expenditure	162.092	162.092	162.092	162.092
Changes (Funded in Allocation Letter)				
2022/23 pay award (excl hosted)	4.070	4.070	4.070	4.070
Less LPHT service transfer	- 9.074	- 9.074	- 9.074	- 9.074
Less Matrix House lease	- 0.096	- 0.096	- 0.096	- 0.096
Less NHS Collab staff cost error	- 0.043	- 0.043	- 0.043	- 0.043
Less Core Collab adj - Transfer to NHS Exec	- 0.029	- 0.029	- 0.029	- 0.029
Genomics PENGU Allocation	0.422	0.422	0.422	0.422
Online STI Testing	3.885	3.885	3.885	3.885
Inflationary Pressures Covered by Core 1.5% Uplift	1.921	1.921	1.921	1.921
Changes (Other Funded Changes)				
COVID-19 Response Funding	16.930	-	-	-
Early Years & Obesity Grant Funding	3.880	-	-	-
HW Behaviour change	0.196	0.200	-	-
Breastfeeding Action Plan	0.170	0.043	-	-
Inflationary Pressures Covered by non-WG Income	0.351	0.351	0.351	0.351
Changes (Anticipated Allocations)				
Bowel Screening Optimisation - 2023/24 growth	3.363	6.192	6.192	6.192
Lung Cancer Screening Business Case	1.067	1.067	1.067	1.067
Newborn Infant Physical Examination Cymru (NIPEC)	0.921	0.921	0.921	0.921
CAMHS – in reach support for schools	0.650	0.654	-	-
Healthy Working Wales	0.741	0.741	0.741	0.741
Screening Recovery	0.979	0.934	-	-
Savings	- 3.174	- 2.918	- 2.849	- 2.513
Shortfall in funding Inflationary Pressures	0.370	0.563	0.634	0.634
Unavoidable Cost Pressures	0.795	0.679	0.610	0.376
Avoidable Cost Pressures	2.009	1.676	1.605	1.503
Total Anticipated Expenditure	**192.395**	**174.250**	**172.419**	**172.419**
Planned variance	**-**	**-**	**-**	**-**

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys incwm na gwariant sy'n ymwneud â Gweithrediaeth y GIG, sy'n cael ei lletya gan yr Ymddiriedolaeth. Tybir y bydd yn rheoli o fewn ei dyraniadau cymeradwy. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys Gwelliant Cymru a fydd yn symud i Weithrediaeth y GIG erbyn diwedd 2023/24.

Mae rhagdybiaethau dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24 wedi'u heithrio o'r cynllun hwn wrth i negodiadau ddod i ben. Rydym yn tybio y bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn talu costau'r dyfarniad y cytunir arno, felly nid oes effaith ar y cynllun ariannol.

Mae elfen o'r costau yn y cynllun yn dal i ymwneud â chynorthwyo'r ymateb i Covid-19. Cytunwyd ar flwyddyn derfynol o gyllid sy'n gysylltiedig â'r costau hyn ac mae rhagdybiaeth bod hyblygrwydd i symud y dyraniad rhwng llinellau gweithgarwch yn unol â'r galw. Mae'n debygol mai 2023/24 fydd y flwyddyn olaf pan fydd dyraniad ar wahân ar gyfer yr ymateb i Covid-19. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid ystyried 2023/24 fel blwyddyn bontio pan roddir trefniadau ar waith ar gyfer model cynaliadwy, effeithiol ac ystwyth o ddiogelu iechyd ar ôl mis Ebrill 2024.

Mae nifer o ddyraniadau disgwyliedig Llywodraeth Cymru nad ydynt wedi'u cadarnhau eto, gan gynnwys cyllid ar gyfer optimeiddio prawf imiwnocemegol ar ysgarthion a chostau adfer sgrinio.

3.1.3 Chwyddiant

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn wynebu pwysau chwyddiannol sylweddol ar gyfer 2023/24 o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd bresennol. O ganlyniad, rydym wedi rhoi ffocws ychwanegol ar yr agwedd hon ar ein cynllun, gan gynnwys y canlynol yn ein dull:

- Ymgorffori'r dull modelu chwyddiant cenedlaethol y cytunwyd arno gan Gyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru.
- Deallusrwydd arbenigol lleol i ddatblygu modelu chwyddiant pan fo'n fwy priodol na'r model cenedlaethol
- Datblygu methodoleg gadarn i ddyrannu cyllid chwyddiant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth glir o gynnydd prisiau a defnyddio cyfleoedd caffael i reoli pwysau chwyddiannol i lawr pryd bynnag y bo'n bosibl.

3.1.4 Cynlluniau arbed a defnyddio arbedion effeithlonrwydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu gofyniad i holl sefydliadau GIG Cymru gyflawni arbedion effeithlonrwydd 2.5 y cant yn 2023/24. Mae hyn yn cyfateb i £3.174 miliwn ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Er mwyn cyflawni'r targed hwn, mae'r Cyfarwyddiaethau wedi'u herio i gyflawni arbedion effeithlonrwydd 1 y cant, er mwyn ategu nifer o gynlluniau corfforaethol a thrawsbynciol, yn ogystal â dadfuddsoddiadau a gostyngiadau cost. Mae'r targed arbedion wedi'i gyflawni ar gyfer 2023/24, gyda £2.5 miliwn wedi'i nodi ar sail reolaidd.

Bydd yr arbedion effeithlonrwydd yn cael eu defnyddio i gyllido diffyg £370,000 mewn pwysau chwyddiannol a £795,000 mewn pwysau cost na ellir eu hosgoi. Bydd gweddill yr arbedion effeithlonrwydd, sef £2 filiwn yn 23/24 ac £1.5 miliwn ar sail reolaidd, yn cael eu defnyddio i

flaenoriaethu pwysau cost y gellir eu hosgoi a'n llwybr i gynaliadwyedd, Canolbwyntio ar gael y pethau sylfaenol yn iawn, hwyluso gwaith i gyflawni ein Cynllun Strategol a gweithio'n wahanol.

3.1.5 Ein cynllun cyfalaf

Mae cyllid cyfalaf yn ôl disgresiwn rheolaidd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynyddu 12 y cant yn 2023/24, o £1.202 miliwn i £1.391 miliwn. Yn ogystal â chyllido'r rhaglen disodli cyfarpar, gofynion TG, ystadau a chydymffurfedd statudol, bydd angen i'r dyraniad gyllido datblygiad Breast Screening Select gwerth £257,000 a chyfraniad 30 y cant i gynigion llwyddiannus y Bwrdd Cynghori ar Gyllido Ystadau, sef cyfanswm o £158,000.

Mae cyllid cyfalaf strategol Llywodraeth Cymru wedi'i neilltuo'n llawn ar gyfer 2023/24, sy'n ei gwneud yn annhebygol y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gallu cael cyllid cyfalaf strategol ychwanegol. Mae'n bosibl y bydd modd cael mynediad at gyllid llithriant yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol os bydd cynlluniau strategol ledled Cymru yn llithro.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r gofynion cyfalaf strategol ar gyfer tair blynedd ein Cynllun Strategol:

Cynllun Strategol	FY23-24 £000	FY24-25 £000	FY25-26 £000
Sgrinio - Cyfarpar Delweddu yn Bron Brawf Cymru	50	0	0
Gwaith Cydymffurfedd Tân (EFAB) - Gwaith ar ddrysau tân	130		
Cynllun Datgarboneiddio (EFAB) - Newid cerbydau'r Rhaglen Ymlediadau Aortig Abdomenol i fod yn gerbydau trydan	238		
Cyfanswm y Cynlluniau Strategol Cymeradwy	418	0	0
Delweddu colposgopi a cholonosgopi (heb ei gymeradwyo)			1,100
Newid camerâu Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (heb ei gymeradwyo)	463		
Faniau Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (heb ei gymeradwyo)	750	750	
Newid cyfarpar (heb ei gymeradwyo)	0	273	1,717
Seiberddiogelwch y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (heb ei gymeradwyo)		1,305	
Cynllun 10 mlynedd - Digidol	1,720	1,205	665
Cynllun 10 mlynedd - Ystadau	8,405	2,535	8,870
Cyfanswm y Cynlluniau Strategol heb eu Cymeradwyo	**10,125**	**3,740**	**9,535**
Cyfanswm y Cyfalaf Strategol	**10,543**	**3,740**	**9,535**

Gofynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynllun seilwaith 10 mlynedd o ran gofynion Ystadau a Digidol ar gyfer 2022/23. Rydym bellach wedi adolygu a blaenoriaethu'r gofynion ar gyfer 2023/24 a chynnwys gwerthoedd wedi'u diweddaru yn y tabl uchod. Mae'r cynllun ystadau'n cynnwys moderneiddio labordai, sef £8 miliwn yn 2023/24, £1 filiwn yn 2024/25 ac £8 miliwn yn 2025/26. Yr eitem fwyaf hanfodol yn 2023/24 yw £400,000 ar gyfer gwaith i newid wal dân yn y cynllun digidol.

3.1.6 Risgiau a Chyfleoedd

Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl y bydd y gyllideb yn cael ei mantoli, yn unol â'r broses i bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24 a gwaith manwl y Cynllun Strategol. Fodd bynnag, mae nifer o risgiau ariannol wedi'u nodi isod:

- Nid yw cyllid adfer gwasanaethau sgrinio wedi'i gadarnhau eto ar gyfer 2023/24 a 2024/25;
- Ymrwymiadau rheolaidd yn erbyn grantiau amser cyfyngedig Llywodraeth Cymru;
- mae gofynion adnoddau Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 Llywodraeth y DU yn fwy na'r cynllun presennol sydd wedi'i ariannu;
- rheoli'r gwaith o sefydlu Gweithrediaeth y GIG o fewn yr adnodd a gyllidir;
- Roedd y costau a ysgwyddwyd i ymateb i Covid-19 yn ystod 2023/24 yn fwy na'r cap cyllid, sef £16.93 miliwn,
- Nid yw'r costau i ymateb i Covid-19 ar ôl mis Ebrill 2024 wedi'u cyllido,
- Argaeledd cyllid cyfalaf strategol i gefnogi gwaith i newid waliau tân digidol a blaenoriaethau cyfalaf strategol eraill.

Bydd y risgiau ariannol a'r cyfleoedd yn parhau i gael eu diweddaru a bydd gwaith craffu a gweithredu arnynt wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatrys y materion cyllid ar ôl mis Mawrth 2023.

3.2 Pobl a Datblygu Sefydliadol

Rydym wedi creu ymateb digynsail ac wedi'i gynnal i bandemig y Coronafeirws. Mae natur ein hymateb wedi datblygu'n sylweddol dros y cyfnod hwn a chynnwys symud staff ar draws y sefydliad. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi dechrau gwaith ynghylch y goblygiadau iechyd cyhoeddus uniongyrchol ac anuniongyrchol yn yr hirdymor ar bobl Cymru. Mae ein cynnydd hyd yma o ganlyniad i ymdrechion ac ymroddiad ein staff. Mae angen i ni wir gydnabod yr effaith y mae'r sefyllfa hon wedi'i chael ar ein pobl, yn bersonol ac yn broffesiynol, a chadw ffocws ystyrlon ar sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ac yn cefnogi llesiant a chydnerthedd ein staff.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n angenrheidiol i'n cynlluniau ddiwallu anghenion tymor byrrach, ond mae ein syniadau wedi'u harwain, drwy gydol y cyfnod, gan ein gweledigaeth dymor hwy, sef gweithlu iechyd cyhoeddus cynhwysol, ymgysylltiol, cynaliadwy, hyblyg ac ymatebol. Mae camau gweithredu i gynyddu capasiti ein gweithlu er mwyn ymateb yn well i anghenion y boblogaeth a diogelu llesiant ein gweithlu wedi bod wrth wraidd darpariaeth gwasanaethau wedi'i chynnal.

3.2.1 Ein pobl

Mae ein gweithlu wrth wraidd ein gallu i gyflawni ein nodau ac i ddiogelu a gwella iechyd y cyhoedd. Mae ein Strategaeth Pobl hyd at 2030 yn darparu cyfeiriad a ffocws i lywio ein gweithlu yn y dyfodol, y math o sefydliad yr hoffem fod, ein diwylliant, ein ffyrdd o weithio, yn ogystal ag optimeiddio perthnasoedd a chydweithio. Rydym yn ymroddedig i ymgorffori

cyfleoedd i ddod â dull gweithredu gwaith teg i'n strategaethau, cynlluniau a pholisïau sefydliadol, a chamau gweithredu a amlinellwyd yn ein canllaw, sef 'Cyflawni gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch' (2022).

Ein huchelgais pobl hirdymor yw datblygu gweithlu hyblyg, cynaliadwy, amrywiol a ffyniannus â'r gallu a'r capasiti i gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Er mwyn tywys y gwaith hwn, rydym wedi datblygu naw thema, y mae cyfres o gamau gweithredu'n sail iddynt, a amlinellir yn ein Strategaeth Pobl.

Mae ein pobl yn hanfodol i gyflawni ein huchelgeisiau hirdymor arwyddocaol. Mae gennym weithlu amrywiol, amlddisgyblaethol â nifer o genedlaethau ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn darparu i'n pobl yr amgylchedd, y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i wynebu'r heriau sydd i ddod. Rydym am ddenu a chadw pobl ym maes iechyd cyhoeddus, i gyflawni ein Strategaeth Hirdymor a chreu effaith gadarnhaol yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn y pen draw.

3.2.2 Heriau a chyfleoedd

Rydym yn parhau i wynebu heriau sy'n effeithio ar y gwaith rydym yn ei wneud a'n gweithlu, fel argaeledd staff, ffyrdd newydd o weithio a disgwyliadau staff presennol a darpar staff. Mae ffactorau fel poblogaeth sy'n heneiddio, nifer mwy o bobl yn gweithio nes eu bod yn hŷn, heriau economaidd-gymdeithasol, effaith y pandemig, newid hinsawdd a'r cyfnod pontio wrth adael yr Undeb Ewropeaidd i gyd yn effeithio ar y gweithlu y mae arnom ei angen. Fodd bynnag, mae ein proffil allanol wedi'i godi'n sylweddol ac rydym yn gobeithio manteisio ar ddiddordeb y cyhoedd yn iechyd cyhoeddus a'n pwyntiau gwerthu unigryw, fel ein diben, ein statws fel sefydliad Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd, yn ogystal â diwylliant ymchwil a gwerthuso bywiog, mae gennym gyfleoedd i ddylanwadu'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae angen i ni allu recriwtio a datblygu gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu'n well y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac a all ddarparu mewnwelediad o anghenion ac ysgogiadau ein holl ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae angen i ni harneisio datblygiadau mewn technoleg; cefnogi ystwythder dysgu a buddsoddi mewn datblygiad parhaus ac ailsgilio i ganfod, datblygu a chadw'r staff talentog sydd eu hangen arnom i weithredu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer sgiliau sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig sgiliau digidol, data a thechnoleg.

Mae angen i ni benderfynu ar y diwylliant iawn i gefnogi ein Strategaeth Hirdymor newydd ac asesu ein sefyllfa bresennol, gan ddeall yr ymddygiad sy'n helpu ac yn rhwystro gwaith cyflawni a phrofiad pobl cadarnhaol. Mae angen i ni hefyd gynllunio ac ymgorffori ffyrdd o weithio i ddenu ac ysbrydoli gweithlu â nifer o genedlaethau i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd, gan werthfawrogi sgiliau a safbwyntiau ei gilydd, a chefnogi anghenion newidiol pobl drwy gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gwaith hyblyg ac ystwyth.

Mae angen i ni gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a gyrfaoedd dwyieithog wrth i'r galw am wasanaethau Cymraeg gynyddu, datblygu a chefnogi ein harweinwyr a'n rheolwyr i arwain â thrugaredd a rheoli gweithlu amrywiol ac ymgorffori newid yn effeithiol, a meithrin

perthnasoedd strategol gyda phartneriaid a chyflenwyr er mwyn darparu ein gwasanaethau a chryfhau mynediad at gapasiti a thalent.

3.2.3 Materion gweithlu allweddol

Mae'n parhau i fod yn heriol recriwtio ar gyfer rhai rolau ac mae rhai sgiliau penodol yn brin iawn, fel radiolegwyr; ymgynghorwyr ym maes microbioleg a chlefydau heintus; arbenigwyr diogelu iechyd fel ymgynghorwyr ym maes rheoli clefydau trosglwyddadwy; rhai rolau nyrsio arbenigol; rolau ymarferwyr iechyd cyhoeddus; a gwyddonwyr biofeddygol. Yn ogystal â'r proffesiynau allweddol hyn, ac fel llawer o sectorau ar draws y DU, mae'r sefydliad bellach yn dechrau wynebu heriau recriwtio newydd, gan gynnwys rolau ym maes gweinyddu, rheoli prosiectau, a gwella, yn ogystal â sgiliau arbenigol a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel seiberddiogelwch, dadansoddwyr a biowybodegwyr.

Drwy ein dull gweithredu o ran cynllunio'r gweithlu, byddwn yn adolygu'n gyfannol yr hyn sydd gennym, yr hyn nad yw gennym, a'r hyn y bydd arnom ei angen fel gweithlu. Rhagwelir y bydd ein dull yn galluogi datrysiadau ac ymyriadau ar anghenion ein gweithlu i gael eu datblygu, a gall hynny gynnwys ailbroffilio timau, defnyddio ymarfer uwch, a chyflwyno technoleg, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial a chymwysiadau dysgu peirianyddol.

3.2.4 Newid sefydliadol

Mae nifer o swyddogaethau ar draws y sefydliad â rôl berthnasol wrth reoli newid yn effeithiol. Mae Pobl a Datblygu Sefydliadol â rôl allweddol, ynghyd â Strategaeth a Chynllunio; yn ogystal â rôl hanfodol rheolwyr llinell wrth arwain a rheoli newid yn effeithiol. Mae cefnogi newid sefydliadol yn hanfodol i effeithiolrwydd sefydliadol, sef un o'n blaenoriaethau allweddol fel swyddogaeth. Rydym wedi dechrau gwaith ar ddatblygu ein dull o ran comisiynu ac adnoddau i gefnogi gwaith newid, y byddwn yn ei weithredu yn y flwyddyn ariannol newydd.

Rhagwelir, pan fydd y gwaith Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol yn dechrau ffurfio, y bydd yn nodi'r ymdrechion gwella mwyaf arwyddocaol, fel Cyfarwyddiaeth ac ar draws y sefydliad a'r system, a fydd yn cefnogi gwaith cynllunio ac yn ein helpu i ganolbwyntio ar y newidiadau mwyaf arwyddocaol sydd eu hangen. Yn ogystal, bydd hyn yn dod â phwysigrwydd cynlluniau gweithlu strategol i'r amlwg, o ran y lefelau capasiti a gallu sydd eu hangen i gefnogi ymdrechion newid.

Gan weithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr undeb llafur, rydym yn datblygu adnoddau i gryfhau a galluogi rheolwyr i fabwysiadu dull gweithredu cyson o ran arwain newid, yn gyson â'n gwerthoedd sefydliadol a Pholisi Newid Sefydliadol GIG Cymru.

3.2.5 Gweithwyr iechyd proffesiynol rheoleiddiedig a gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol

Mae gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol amrywiaeth o gyfrifoldebau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y Swyddog Cyfrifol statudol, Gwarcheidwad Caldicott, Arweinydd Gweithredol Dyfeisiau Meddygol, recriwtio i swyddi ymgynghorol meddygol a deintyddol o dan reoliadau'r Pwyllgor Cynghori ar Benodiadau, rheoli meddyginiaethau, a'r Arweinydd Llywodraethu Clinigol (ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a

Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd). Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol hefyd yn goruchwylio'r rhaglenni hyfforddiant ym maes iechyd cyhoeddus a microbioleg/chlefydau heintus.

Er mwyn cefnogi'r swyddogaethau hyn, mae tîm bach yn cael ei sefydlu fel Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol i sicrhau bod y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, ei Ddirprwy Gyfarwyddwr Meddygol a'i Ddirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio, wedi'u galluogi i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol, cydgysylltiad a chymorth i weithwyr iechyd proffesiynol rheoleiddiedig eraill i gyflawni eu rolau'n ddiogel ac yn gymwys. Bydd llwybrau gyrfa presennol a newydd yn galluogi pobl i weithio'n optimaidd o fewn eu cwmpas ymarfer. Yn sail i hyn y bydd datblygu a gweithredu fframweithiau gyrfa a goruchwylio clinigol sy'n cefnogi ymarfer o diwtoriaeth i ymarfer arbenigol mewn amrywiaeth o arbenigeddau.

3.2.6 Denu a recriwtio

Yn ystod 2021, cafodd y sefydliad fuddsoddiad i gryfhau ac ehangu ein hadnodd diogelu iechyd, sydd wedi bod yn ganolog wrth sicrhau cydnerthedd strategol y sefydliad a diogelu iechyd poblogaeth Cymru. Byddwn yn parhau i recriwtio staff ychwanegol er mwyn sicrhau bod gennym weithlu cydnerth a chynaliadwy i fodloni gofynion diogelu iechyd yn y dyfodol.

Wrth gynyddu cronfa o bobl ifanc dalentog ac amrywiol a marchnata ein brand i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod gennym dimau drwy gydol y sefydliad lle y mae pedair cenhedlaeth wahanol yn gweithio gyda'i gilydd. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod bod cysyniadau ar draws cenedlaethau y mae angen eu hystyried i'n galluogi i ddenu, cadw a chefnogi cydweithwyr drwy gydol eu gyrfaoedd.

3.2.7 Profiad y gweithiwr

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi ceisio datblygu ein dealltwriaeth o effaith Covid-19 ar ein gweithlu a gweithio'n rhagweithiol gyda'n staff i'w rheoli a'i lliniaru. Mae corff sylweddol o gymorth llesiant ar gael i reolwyr a staff, gan gynnwys mynediad at becynnau cymorth, pecynnau hunangymorth a rhaglenni cymorth.

Drwy 'Ein Sgwrs', rydym yn deall yr hyn sy'n galluogi ein pobl i deimlo a bod ar eu gorau a byddwn yn cynllunio dyfodol gwaith yn Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn ymateb i hynny. Mae'r gwaith hwn yn sbarduno egwyddorion a fydd yn sail i 'Gweithio Sut Mae'n Gweithio Orau' - ein bwriad strategol i gefnogi mwy o ddewis a hyblygrwydd, ac i drefnu gwaith o gwmpas bywyd.

3.2.8 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Byddwn yn parhau i gyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a byddwn yn ymgynghori ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig yn 2023. Mae ein saith Rhwydwaith Amrywiaeth Staff (sy'n canolbwyntio ar staff Benywaidd, Gwrywaidd, Gofalwyr, LHDT+, Siaradwyr Cymraeg, Pobl Anabl, a Phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig) yn parhau i dyfu a chael rôl fwyfwy arwyddocaol i lywio ein syniadau. Rydym yn cynnal

ymarferion meincnodi ac asesiadau allanol megis Cynllun Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru a'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd i sicrhau gwelliant parhaus tuag at weithlu cwbl gynhwysol.

Mae'r pandemig wedi cynyddu dealltwriaeth o effaith anghydraddoldebau iechyd a ffocws arni. Wrth ymateb i hyn, rydym yn datblygu ein dull o ehangu mynediad i sicrhau bod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ymwybodol o'r ystod amrywiol o yrfaoedd sydd ar gael iddynt yn y GIG (Gwasanaeth Iechyd Gwladol) yng Nghymru ac yn ystyried y sefydliad fel cyflogwr posibl. Rydym yn parhau i ymgysylltu â phobl ifanc yn y gymuned i hyrwyddo amrywiaeth, yn enwedig drwy brofiad gwaith, prentisiaethau, a mwy o weledded mewn amgylcheddau ysgol.

3.2.9 Ysbrydoli Diwylliant ac Arweinyddiaeth Drugarog

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid wedi'u comisiynu i adolygu ein fframwaith presennol a diffinio a chynllunio rôl rheolwyr ac arweinwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddarparu sylfaen proses recriwtio a dethol well a chyfleoedd modern a chynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y dyfodol i ddatblygu a gwneud cynnydd.

Bydd rhaglenni datblygu ac adnoddau wedi'u hailgynllunio'n ystyried yr angen i gryfhau capasiti a gallu arweinyddiaeth mewn meysydd clinigol ac yn cydbwyso'r angen i sicrhau dealltwriaeth a chymhwysiad cadarn o bolisïau a phrosesau pobl â grymuso a galluogi pobl.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun, byddwn yn lansio ac yn dechrau ymgorffori Bod ar Ein Gorau, sef fframwaith sy'n disgrifio sut rydym yn disgwyl profi ein gwerthoedd craidd, sef cydweithio, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth, a'n helpu i ddwyn ein hunain a'n gilydd i gyfrif ar gyfer eu gwireddu. Bydd asesiad o'n diwylliannau presennol a delfrydol ddechrau 2023 yn llywio rhagor o flaenoriaethau a chamau gweithredu i sicrhau bod 'sut' rydym yn gweithio'n galluogi ein Strategaeth Hirdymor i gael ei chyflawni.

3.2.10 Proffil y gweithlu

Ym mis Mawrth 2023, roedd cyfanswm ein gweithlu yn cynnwys 2,242 o bobl, y mae 2059.02 ohonynt yn staff cyfwerth ag amser llawn (WTE). O'r rhain, mae 74 y cant o'n gweithlu'n fenywaidd; mae 31 y cant o'n gweithlu'n gweithio'n rhan-amser ac mae 28 y cant o'n gweithlu dros 50 oed. Rhennir ein gweithlu ar draws 11 o feysydd gwahanol fel yr amlinellir isod:

Cyfarwyddiaeth	Nifer y staff	FTE
Cyfarwyddiaeth Gorfforaethol	28	23.52
Cyfarwyddiaeth Data, Gwybodaeth ac Ymchwil	110	102.07
Cyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant	148	133.38
Cyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio	1,383	1,260.74
Cyfarwyddiaeth Sefydliadau a Letyir*	170	163.61
Cyfarwyddiaeth Gwelliant Cymru	97	91.24
Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau a Chyllid	132	126.92
Cyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol	37	33.07
Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	44	40.33

Cyfarwyddiaeth SPRs	22	19.80
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd	71	64.35
Cyfanswm	**2,242**	**2,059.02**

O 1 Ebrill 2023, bydd y sefydliadau a letyir sy'n rhoi cyfrif am 148 o staff o'r Adran Gydweithredol a 22 o staff o'r Uned Cyflawni Ariannol yn ymuno â Gweithrediaeth y GIG. Bydd staff ein sefydliadau a letyir hefyd yn cynyddu tua 83 o'r Uned Cyflawni sy'n dod i mewn.

3.3 Rheoli Risg

3.3.1 Risg strategol

Wrth i ni ddechrau gweithredu ein cynllun strategol, rydym yn cydnabod ein bod yn gweithredu mewn amgylchedd anwadal a newidiol. Adlewyrchir hyn yn ein risgiau strategol, yr ydym wedi'u hadolygu a'u diweddaru fel rhan o ddatblygu ein strategaeth a'r cynllun hwn. Dyma ein risgiau strategol:

1. Mae risg bod iechyd yn gwaethygu ymhlith poblogaeth Cymru, yn enwedig ymhlith poblogaethau agored i niwed
2. Mae risg o ymdrechion aneffeithiol ar draws y system i wella iechyd a llesiant gan sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector
3. Mae risg bod pobl yng Nghymru heb eu galluogi ddigon, ac nad ymgysylltir â nhw ddigon, ar y camau gweithredu y gallant eu cymryd i wella eu hiechyd a'u llesiant
4. Mae risg o wendid yn ein hiechyd sefydliadol, gan gynnwys ein diwylliant, ein capasiti, ein galluoedd a'n llywodraethu
5. Mae risg ein bod yn annigonol wrth atal bygythiadau sy'n dod i'r amlwg i iechyd cyhoeddus, cynllunio ar eu cyfer ac ymateb iddynt
6. Mae risg nad ydym yn darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol, gan gynnwys ar sgrinio, heintiau a diogelu iechyd
7. Mae risg o seiberddigwyddiad sy'n cael effaith berthnasol ar ein gwaith i ddarparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus neu sy'n arwain at ryddhau data cyfrinachol yn amhriodol

3.3.2 Rheoli risg

Mae'r sefydliad yn parhau i wynebu risgiau sy'n codi o effaith gronnol pandemig Covid-19, baich clefyd, anghydraddoldebau a'r argyfwng costau byw, yn ogystal â risgiau eraill sy'n fwy penodol i weithrediadau'r sefydliad. Mae'n bwysig bod ein trefniadau ar gyfer rheoli risg yn cael eu hadnewyddu a'u bod yn darparu'r saernïaeth, y cymorth a'r gallu i nodi a rheoli risg yn effeithiol. Bydd gweithredu'r Cynllun Datblygu Rheoli Risg cymeradwy'n helpu i gryfhau ein

trefniadau rheoli risg strategol a gweithredol, gan weithio tuag at system rheoli risg sy'n gyson â'r Safon Ryngwladol ar gyfer Rheoli Risgiau, sef ISO 31000.

Mae risg strategol a chorfforaethol yn rhan bwysig a rheolaidd o agendâu'r Bwrdd, yr Is-bwyllgorau a'r Tîm Gweithredol Busnes. Yn ogystal, mae offerynnau risg sefydliadol a phrosesau uwchgyfeirio wedi'u diwygio, gan ein symud tuag at reolaeth fwy cadarn o risg ar draws pob lefel o'r sefydliad.

3.4 Cynllunio at argyfyngau a pharhad busnes

Mae'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru, o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, gynnal a datblygu cynlluniau i sicrhau, os bydd argyfwng yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd, y gall y sefydliad gyflawni ei swyddogaethau i'r graddau sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol at ddiben atal yr argyfwng, lleihau, rheoli neu liniaru ei effeithiau, neu gymryd camau eraill mewn cysylltiad ag ef.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am ddarparu parodrwydd am argyfyngau, cydnerthedd ac arweinyddiaeth ymateb, a chyngor gwyddonol a thechnegol ar bob lefel sefydliadol, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddiogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) yn gosod nifer o ddyletswyddau cyfreithiol ar Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ymatebwr Categori 1. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwneud y canlynol:

- Asesu'r effaith ar iechyd y boblogaeth i lywio'r ymateb amlasiantaethol
- Cysylltu â rhanddeiliaid i gasglu gwybodaeth fanwl am y math o ddigwyddiad
- Cysylltu ag asiantaethau arbenigol eraill, fel y bo'n briodol, i sicrhau y darperir cyngor a chymorth cymesur ac amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bartneriaid
- Argymell mesurau i ddiogelu iechyd cyhoeddus a lliniaru effeithiau digwyddiad
- Mynd i gyfarfodydd grwpiau strategol, tactegol a gweithredol yn ôl yr angen
- Darparu cynrychiolaeth yng Nghanolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru
- Cyfrannu at amrywiaeth o bartneriaethau amlasiantaethol fel y Gell Cyngor Gwyddonol a Thechnegol, y Gell Ansawdd Aer a'r Gell Cyfryngau
- Cynghori ynghylch cyfleu'r risgiau iechyd cyhoeddus yn effeithiol
- Dadansoddi a gwerthuso'r ymateb a gynigir gan asiantaethau eraill o ran yr effaith debygol ar iechyd cyhoeddus
- Hwyluso gwaith dilynol epidemiolegol ar y poblogaethau a'r cymunedau yr effeithir arnynt yn ôl yr angen
- Darparu dull integredig o ran diogelu iechyd cyhoeddus yng Nghymru a chynorthwyo asiantaethau partner wrth ddarparu cyngor gwyddonol a thechnegol yn y meysydd arbenigol canlynol: clefyd heintus, gwyliadwriaeth brigiad, a pheryglon cemegol, biolegol ac ymbelydrol

Wedi'i goruchwylio gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio a'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, mae'r Swyddogaeth Cynllunio Rhag Argyfyngau a Pharhad Busnes yn arwain y Grŵp Cynllunio Rhag Argyfyngau a Pharhad Busnes sy'n gyfrifol am gydgysylltu a darparu gweithgarwch Cynllunio Rhag Argyfyngau a Pharhad Busnes ar draws y sefydliad. Ymhlith y camau gweithredu allweddol a fydd yn cael eu cyflawni yn ystod 2023/24 mae:

2023-24
Chwarter 4
❖ Cryfhau capasiti ac adnoddau yn y Swyddogaeth Cynllunio Rhag Argyfyngau a Pharhad Busnes. ❖ Cwblhau adolygiad llawn o Gynllun Ymateb i Argyfwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ymgorffori adborth mewnol ac allanol a rhagor o wersi a nodwyd o Covid-19 (Cam 02). ❖ Cyhoeddi Cynllun Ymateb i Argyfwng Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i ddiweddaru. ❖ Cryfhau'r gweithlu o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar gyfer ymateb i argyfyngau ar draws y sefydliad. ❖ Datblygu rhaglen ymarfer i sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl.

3.5 Ansawdd a gwella sefydliadol

Ein huchelgais yw bod yn sefydliad enghreifftiol o ran ansawdd, gwella ac arloesi ac rydym yn mynd ar drywydd dull ar draws y sefydliad ar gyfer rheoli ansawdd. Rydym yn ymroddedig i weithredu fel system wedi'i dylunio ar gyfer ansawdd, gan ganolbwyntio ar wella ac arloesi parhaus ac wedi ein sbarduno gan anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu. Bydd hyn, yn ei dro, yn creu diwylliant ac amgylchedd sy'n cefnogi ein staff ac yn darparu lle gwych i staff weithio a ffynnu. Mae'r dull gweithredu hwn yn cefnogi gwaith adfer i ddyfodol newydd yn dilyn pandemig Covid-19 a chyflawni ein blaenoriaethau strategol.

Bydd mynd ar drywydd dull gweithredu ar draws y sefydliad ar gyfer ansawdd yn ein galluogi i weithredu'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, a'r argymhellion yn y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch (2021). Bydd hefyd yn ein galluogi i ganolbwyntio'n fwy clir ar anghenion y system a diben y sefydliad. Mae'r dull gweithredu hwn yn adeiladu ar ein Strategaeth Ansawdd a Gwella bresennol, ac yn ei hategu. Mae'n ceisio cefnogi, galluogi a sbarduno ansawdd, gwella ac arloesi sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd a llesiant poblogaeth Cymru.

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2023 fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymedig i fodloni gofynion y ddwy ddyletswydd.

Y Ddyletswydd Ansawdd

Mae'r Ddeddf yn ailfframio ac yn ehangu'r Ddyletswydd Ansawdd bresennol ar gyrff y GIG i sicrhau y gwneir yr holl benderfyniadau strategol drwy lens gwella ansawdd gwasanaethau iechyd a chanlyniadau i'r boblogaeth. Mae'n ofynnol i sefydliadau arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ystyried sut y byddant yn gwella ansawdd a chanlyniadau'n barhaus ac yn mynd ati i fonitro ac adrodd cynnydd ar wella gwasanaethau ansawdd a chanlyniadau a rhannu'r wybodaeth hon yn rheolaidd â'u poblogaeth. Bydd llywodraethu wedi'i gryfhau ar gyfer ansawdd a system rheoli ansawdd yn galluogi sefydliadau i gyflawni amgylchedd dysgu a diwylliant o ansawdd. Fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar ansawdd, byddwn yn achub ar bob

cyfle i sicrhau dull gweithredu ar draws y system o ran ansawdd drwy ein holl benderfyniadau a gweithredu. Bydd Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol yn cael ei weithredu i fod yn sail i'n dull gweithredu ar gyfer ansawdd, ynghyd â'r Hyb Gwella ac Arloesi a fydd yn ategu gwaith ar y blaenoriaethau gwella a nodwyd.

Y Ddyletswydd Gonestrwydd

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn adeiladu ar y Rheoliadau Gweithio i Wella presennol. Rydym yn ymrwymedig i ddiben cyffredinol y Ddyletswydd Gonestrwydd, sef sicrhau ein bod, fel sefydliad, yn agored, yn onest ac yn gefnogol pan fu digwyddiad anfwriadol neu annisgwyl sydd wedi arwain, neu a allai fod wedi arwain, at ganlyniad andwyol i ddefnyddiwr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys dweud wrth y person yr effeithir arno fod digwyddiad anfwriadol neu annisgwyl wedi digwydd; ymddiheuro; a'i helpu i ddeall yr hyn sydd wedi digwydd.

Byddwn yn achub ar bob cyfle i wrando a dysgu, yn ogystal ag adolygu pob digwyddiad sy'n sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd, er mwyn deall yr hyn sydd wedi digwydd, gan nodi meysydd ar gyfer gwella a dysgu (gan ystyried barn y person yr effeithir arno). Fel sefydliad trugarog a gofalgar, byddwn hefyd yn ystyried y cymorth sydd ar gael i'r rhai yr effeithir arnynt, gan gynnwys y rhai a ddefnyddiodd ein gwasanaethau a'r rhai sy'n eu darparu.

Er mwyn cefnogi'r broses o weithredu'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd ymhellach, mae Fframwaith Llywodraethu Clinigol yn cael ei ddatblygu a fydd yn bwrpasol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd yn cynnwys gwaith i nodi ffiniau clinigol ac iechyd cyhoeddus a gwahaniaethu rhyngddynt.

3.5 Perfformiad a chyflawni

3.5.1 Rheoli perfformiad a rheoli newid

Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei adrodd i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn fisol drwy ein Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd. Bydd hyn yn cynnwys y graddau ar gyfer pob carreg filltir ac adroddiadau eithrio ar gyfer y rhai lle y mae materion wedi'u nodi. Bydd proses reoli'n cael ei defnyddio ar gyfer rheoli newidiadau, yn enwedig mewn perthynas â chyflawni cerrig milltir. Bydd sicrwydd parhaus hefyd yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd adolygu atebolrwydd ein Tîm Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Gweithredol ar y Cyd Integredig.

3.6 Sylwadau i gloi

Mae'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn yn adlewyrchu ein huchelgeisiau strategol hirdymor a'n ffocws ar gyfer sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau iechyd y boblogaeth sy'n wynebu Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Er bod yr heriau rydym yn eu hwynebu'n drawiadol, rydym wedi dangos yn y blynyddoedd diwethaf yr hyn y gallwn ei gyflawni drwy ymroddiad a phroffesiynoldeb ein staff. Mae gennym y cyfle i adeiladu ar ffyrdd arloesol o weithio a'u croesawu, harneisio potensial data mawr a thechnolegau newydd, gwaith ar draws ffiniau proffesiynol, a chydag amrywiaeth o bartneriaid.

Ni ellir tanamcangyfrif y pwysau presennol ar unigolion, teuluoedd, cymunedau a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, drwy nodi ein gweledigaeth a'r cyfraniad y byddwn yn ei wneud drwy gyflawni ein chwe blaenoriaeth strategol, rydym yn gobeithio y bydd yn gatalydd ar gyfer y newid a'r camau gweithredu y mae angen i ni eu cymryd er mwyn helpu pobl Cymru a chynorthwyo ein partneriaid ar draws y sector cyhoeddus. Bydd ein ffocws a'n hymrwymiad ar gyflawni ein chwe blaenoriaeth strategol a sicrhau ein bod yn cyflawni'r gwerth mwyaf posibl i bobl Cymru a'n partneriaid.

Byddwn yn gwneud hyn drwy groesawu pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig cynnal ffocws ataliol hirdymor, wrth flaenoriaethu ein camau gweithredu tymor byr. Byddwn yn cydweithio ar draws y sector cyhoeddus i gyflawni ein blaenoriaethau strategol yn effeithiol, ac yn ystyried dulliau, atebion a gweithgarwch integredig, lle bynnag y bo modd. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn, a sut rydym yn ei wneud, drwy eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio, datblygu a darparu ein gwasanaethau a'n swyddogaethau.

Wrth gyflawni ein strategaeth, mae gennym gyfle i adeiladu ar y gweithio mewn partneriaeth a'r cydweithio a oedd yn sail i'n hymateb i Covid-19. Rydym wedi dangos dros y blynyddoedd diwethaf yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd tuag at nodau cyffredin. Rhaid i ni sicrhau mai dyna'r ffordd rydym yn gweithio drwy'r amser, nid rhywfaint o'r amser. Rydym hefyd wedi gweld pŵer ac effaith croesawu ffyrdd arloesol o weithio, fel harneisio potensial data mawr a thechnolegau newydd. Bydd hyn yn gwasanaethu fel conglfaen ar gyfer cyflawni ein strategaeth a sut rydym yn gweithio yn y dyfodol.

Rydym wedi grymuso staff o bob rhan o'r sefydliad i ddod at ei gilydd, gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau amlddisgyblaethol, er mwyn helpu i lunio ein strategaeth. Byddwn yn llwyddo i'w chyflawni drwy eu harbenigedd, sgiliau a'u gwybodaeth nhw. I wneud hyn byddwn yn sicrhau ein bod yn creu amgylchedd sy'n galluogi pobl i weithio ar draws ffiniau proffesiynol ac sy'n croesawu ymrwymiad, proffesiynoldeb, ac arbenigedd pob un o'n staff.

Nid ydym yn tanamcangyfrif yr heriau rydym yn eu hwynebu. Fodd bynnag, ein hymrwymiad yw ateb yr heriau hyn yn uniongyrchol, i gydweithio â'n partneriaid, dangos dynamigrwydd ac ystwythder, i ddysgu, arloesi a datblygu. Ac yn bennaf oll, i greu amgylchedd lle rydym yn llwyddo drwy ymrwymiad, proffesiynoldeb, ac ymdrechion staff.